Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl
## Cyfrol I – Cyflwyniad a Throsolwg

# Rhan 7

## Canllawiau ar Ddiogelu.

*Cyhoeddwyd o dan adrannau 131 a 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*

## Pennod / Cynnwys


**Cyflwyniad** 1

1. Canllawiau o dan Ran 7 Adran 131(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 6
   – Oedolyn sy'n wynebu Risg 7
   – Dyletswydd awdurdod lleol i wneud ymholiadau 10
   – Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion 14
   – Dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg 22
   – Dyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg 24

2. Canllawiau o dan Ran 7 Adran 139(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 25
   – Ardaloedd Bwrdd Diogelu 26
   – Partneriaid arweiniol Byrddau Diogelu 27
   – Swyddogaethau Bwrdd Diogelu 28
   – Byrddau Diogelu a Sefydliadau Diogel 40
   – Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu 43
   – Cyfrannu at waith Byrddau Diogelu 48
   – Cynlluniau blynyddol ac adroddiadau blynyddol Byrddau Diogelu 51
   – Cyflenwi gwybodaeth y mae Byrddau Diogelu wedi gwneud cais amdani 53
   – Ariannu byrddau diogelu 55

3. Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol y cyfeirir ato yn Rhan 7 Adran 132 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 59

**Atodiad 1 –** Offerynnau Statudol Perthnasol 64

– Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015

– Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015

– Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015

– Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

**Atodiad 2 –** Aelodaeth sefydliadau lleol byrddau diogelu 65

ISBN digidol 978 1 4734 6427 8
© Hawlfraint y Goron 2016
WG25383

## *Canllawiau statudol yn deillio o Ran 7 (Diogelu) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,*

## gan gynnwys gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion, y dyletswyddau i hysbysu ac ymholi; byrddau diogelu a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

## Cyhoeddwyd o dan adrannau 131 a 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## (Teitl byr: Canllawiau *ar Ddiogelu*)

**Trosolwg**

1. Mae tair pennod i'r ddogfen hon:

- Mae Pennod 1 yn cynnwys canllawiau statudol ar orchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion (APSOs) a gyhoeddwyd o dan adran 131 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r dyletswyddau o dan adrannau 128 a 130 i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg a phlant sy'n wynebu risg a'r dyletswyddau i ymholi o dan adrannau 126 o'r Ddeddf ac adran 47 o Ddeddf Plant 1989;
- Mae Pennod 2 yn cynnwys canllawiau statudol ar gyfer Byrddau Diogelu a gyhoeddwyd o dan adran 139 o'r Ddeddf;
- Mae Pennod 3 yn cynnwys gwybodaeth am y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a sut y mae'n gweithio gyda Gweinidogion Cymru a Byrddau Diogelu.

**CYFLWYNIAD**

2. Mae 11 o rannau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn ymwneud â diogelu. Mae Deddf 2014 ar gael yn:

   http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/enacted

3. Dylid darllen Rhan 7 yng nghyd-destun y Ddeddf yn ei chyfanrwydd.

4. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn darparu trosolwg a rhai termau allweddol:

- mae adran 2 yn nodi ystyr y term "llesiant";
- mae adran 3 yn diffinio, at ddibenion y Ddeddf, pwy sy'n "oedolyn", yn "blentyn" ac yn "ofalwr" a phwy y dylid ystyried ei fod yn "anabl";

- mae adran 4 yn nodi ystyr y term “gofal a chymorth”.

5. Mae Rhan 2 o’r Ddeddf yn amlinellu’r dyletswyddau cyffredinol y mae’n rhaid i berson sy’n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf gydymffurfio â nhw.

- mae adran 5 yn nodi bod rhaid i unrhyw berson sy’n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf geisio hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth;
- mae adran 6 yn gosod dyletswyddau cyffredinol ar y rhai sy’n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag unigolion sydd angen neu a all fod angen gofal a chymorth, gofalwyr sydd angen neu a all fod angen cymorth neu unigolion y mae modd cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â nhw o dan ran 6 o’r Ddeddf (plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya);
- mae adran 7(1) yn nodi, pan fo person yn cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag oedolyn sydd angen neu a all fod angen gofal a chymorth neu ofalwr sydd angen neu a all fod angen cymorth, bod rhaid i’r person hwnnw roi sylw priodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991;
- mae adran 7(2) yn nodi, pan fo person yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd angen neu a all fod angen gofal a chymorth neu os yw’n ofalwr sydd angen neu a all fod angen cymorth neu os yw’n “blentyn sy’n derbyn gofal”, bod rhaid i’r person hwnnw roi sylw priodol i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a gafodd ei mabwysiadu, ei llofnodi, ei chadarnhau a’i derbyn gan benderfyniad 44/25 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Tachwedd 1989 (“y confensiwn”);
- mae adran 15 yn ei gwneud hi’n ofynnol i awdurdodau lleol drefnu gwasanaethau ataliol, gan gynnwys mewn perthynas â chyfrannu at atal pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae’r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 yn darparu rhagor o ganllawiau ar wasanaethau ataliol hefyd.

6. Mae’r ddarpariaeth yn Rhan 7:

- yn ei gwneud hi’n ofynnol i awdurdodau lleol ymchwilio os ydynt yn amau bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (adran 126);
- yn caniatáu i orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion awdurdodi mynediad i eiddo (gan ddefnyddio grym os bydd angen) at ddiben galluogi swyddog awdurdodedig i asesu a yw person yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso ac, os felly, pennu pa gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl (adran 127);
- yn ei gwneud hi’n ofynnol i awdurdodau lleol a’u partneriaid perthnasol hysbysu’r awdurdod lleol priodol os byddant yn amau bod pobl yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso (adrannau 128 a 130);
- yn datgymhwyso adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (sy’n galluogi awdurdodau lleol i wneud cais am orchymyn llys i symud pobl sydd angen gofal a sylw o’u cartrefi i ysbytai a llefydd eraill) (adran 129);

- yn sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i ddarparu cymorth a chyngor i sicrhau bod Byrddau Diogelu yn effeithiol (adrannau 132 a 133);
- yn darparu Byrddau Diogelu ar gyfer oedolion a phlant a chyfuno byrddau o'r fath (adrannau 134 i 141).

7. Mae Rhan 7 yn darparu gwahanol bwerau deddfu i Weinidogion Cymru er mwyn ategu'r rhan hon o'r Ddeddf. Dyma'r rheoliadau perthnasol a wnaed mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf:

Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015; Rheoliadau Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015; Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015; a Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hatgynhyrchu yn atodiad 1 y Canllawiau hyn.

8. Darperir y Canllawiau hyn mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf. Oni nodir yn wahanol, mae'r canllawiau yn ganllawiau statudol.

9. Cyhoeddir y Canllawiau a ddarperir mewn perthynas ag adrannau 126-128 ac adran 130 o'r Ddeddf o dan adran 131(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Canllawiau a gyhoeddir o dan adran 131 yn berthnasol i'r personau canlynol:

(a) awdurdodau lleol;

(b) Byrddau Iechyd Lleol;

(c) Ymddiriedolaethau'r GIG;

(d) y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru;

(e) yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 mewn perthynas â Chymru;

(f) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae'n ofynnol iddo gan drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 weithredu fel partner perthnasol awdurdod lleol yng Nghymru;

(g) Gweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000;

(h) unrhyw berson, neu berson o unrhyw ddisgrifiad, y bydd rheoliadau o dan adran 162(4) yn ei bennu;

(i) tîm troseddwyr ifanc mewn unrhyw ardal sy’n rhan o ardal awdurdod lleol yng Nghymru;

(j) person sy’n swyddog awdurdodedig at ddibenion adran 127;

(k) cwnstabl neu berson arall sy’n mynd gyda pherson awdurdodedig yn unol â gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion a wnaed o dan adran 127;

10. Cyhoeddir y Canllawiau a ddarperir i Fyrddau Diogelu mewn perthynas ag adrannau 134-138 o’r Ddeddf o dan adran 139(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae canllawiau a gyhoeddir o dan adran 139 yn berthnasol i’r personau canlynol:

a) awdurdodau lleol;

b) prif swyddog heddlu unrhyw ardal yr heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd Diogelu;

c) Byrddau Iechyd Lleol;

d) Ymddiriedolaethau’r GIG;

e) yr Ysgrifennydd Gwladol i’r graddau y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 o ran Cymru;

f) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae’n ofynnol iddo gan drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 weithredu fel partner Bwrdd Diogelu mewn perthynas ag ardal y Bwrdd Diogelu.

11. Nid oes gan ganllawiau statudol rym statud llawn, ond **rhaid** i bartneriaid Byrddau Diogelu ac unigolion neu sefydliadau perthnasol eraill roi sylw iddynt oni bai bod amgylchiadau lleol yn nodi bod yna resymau eithriadol sy’n cyfiawnhau amrywiad.

12. Mae’r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys canllawiau anstatudol sy’n ceisio darparu gwybodaeth i helpu Byrddau Diogelu. Er nad oes ganddynt yr un grym â chanllawiau statudol, maent yn cynrychioli arfer da.

13. Mae’r canllawiau hyn yn ystyried:

a) Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthyglau 2,3,5 6 ac 8;
b) Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn;
c) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

14. Mae adran 7 o’r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar bobl sy’n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw priodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

15. Wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag oedolion sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw priodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991. Gallwch weld Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn:

    http://www.un.org/documents/ga/res/46/a46r091.htm

    Mae 18 o egwyddorion, wedi’u rhannu yn 5 thema: annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunangyflawniad ac urddas.

16. Wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth a phobl y mae swyddogaethau’n cael eu cyflawni mewn perthynas â nhw o dan Ran 6 (plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya), **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw priodol i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Nid yw’r ddyletswydd hon yn berthnasol i Weinidogion Cymru gan fod ganddynt eisoes ddyletswydd i roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a’r Cynllun Hawliau Plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gael yn:

    http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/?lang=en

**Eiriolaeth**

17. Mae’n **rhaid** i unigolyn deimlo ei fod yn bartner cyfartal o ran ei berthynas â gweithwyr proffesiynol. Gall unrhyw unigolyn wahodd rhywun o’i ddewis i’w helpu i gyfranogi’n llawn a mynegi ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a’i deimladau. Gall y cymorth hwn gael ei ddarparu gan ffrindiau, aelod o’r teulu neu rwydwaith cymorth ehangach unigolyn.

18. Mae’r cod ymarfer dynodedig ar eiriolaeth o dan Ran 10 o’r Ddeddf yn nodi’r swyddogaethau sy’n sylfaen i sut y mae’n **rhaid** i awdurdod lleol, mewn partneriaeth â’r unigolyn, ddod i benderfyniad ynglŷn â sut y gallai eiriolaeth helpu i bennu a sicrhau canlyniadau personol unigolyn; ynghyd â’r amgylchiadau pan fydd yn **rhaid** i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae’n **rhaid** i weithwyr proffesiynol ac unigolion sicrhau bod penderfyniadau yn ymwneud ag anghenion eiriolaeth yn rhan annatod o’r dyletswyddau perthnasol yn y canllawiau statudol hyn.

**Pennod Un**

**CANLLAWIAU O DAN RAN 7 ADRAN 131(1) O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 (Y DDEDDF)**

19. Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn ymwneud â'r canlynol:

- mae adran 126, sy'n diffinio "oedolyn sy'n wynebu risg", yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud ymholiadau angenrheidiol i benderfynu a yw person yn oedolyn sy'n wynebu risg a pha gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl;

- adran 127, sy'n cyflwyno gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSOs). Mae'r rheoliadau a wnaed o dan adran 127(9) yn cyfyngu ar y bobl neu'r categorïau o bobl sy'n gallu gweithredu fel 'swyddog awdurdodedig';

- adran 128, sy'n cyflwyno dyletswydd statudol ar 'bartneriaid perthnasol', fel y'u diffinnir yn adran 162(4), i hysbysu'r awdurdod lleol am oedolyn sy'n wynebu risg o dan amgylchiadau penodol;

- adran 130, sy'n cynnwys dyletswydd ar 'bartneriaid perthnasol' a'r tîm troseddau ieuenctid perthnasol i hysbysu awdurdod lleol am blentyn sy'n wynebu risg o dan amgylchiadau penodol.

20. Yn adran 162(4), diffinnir partner perthnasol fel a ganlyn:

(a) y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
(b) unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r awdurdod yn cytuno y byddai'n briodol cydweithredu ag ef o dan yr adran hon;
(c) yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 o ran Cymru;
(d) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae'n ofynnol iddo gan drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 weithredu fel partner perthnasol i'r awdurdod;
(e) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;
(f) Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
(g) Gweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000;

(h) unrhyw berson, neu berson o unrhyw ddisgrifiad, y bydd rheoliadau yn ei bennu.[1]

**Hawliau dynol**

21. Bydd ymarferwyr yn nodi'r ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus o dan adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i beidio â gweithredu mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn arddel amryw o hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn:

Erthygl 2 - yr hawl i fywyd;
Erthygl 3 - yr hawl i beidio â dioddef triniaeth annynol neu ddiraddiol;
Erthygl 5 - yr hawl i ryddid a diogelwch;
Erthygl 6 - yr hawl i wrandawiad teg;
Erthygl 8 - yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.

**<u>Oedolion sy'n wynebu risg</u>**

22. Mae adran 126(1) yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg fel a ganlyn.

Mae "oedolyn sy'n wynebu risg", at ddibenion y Rhan hon, yn oedolyn:-

(a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso;
(b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio); ac
(c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

23. Mae'r diffiniad hwn o "oedolyn sy'n wynebu risg" yn berthnasol mewn perthynas â'r pwerau a'r dyletswyddau statudol yn Rhan 7 o'r Ddeddf ac, at y dibenion hynny, mae'n disodli'r diffiniad o "oedolyn agored i niwed" sydd wedi'i gynnwys yn *Mewn Dwylo Diogel* (Llywodraeth Cymru, 2000).

24. Mae adran 197(1) o'r Ddeddf yn darparu diffiniadau o "gamdriniaeth" ac "esgeulustod":

ystyr "camdriniaeth" a "cam-drin" yw camdriniaeth gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys camdriniaeth sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall), ac mae "camdriniaeth ariannol" yn cynnwys y canlynol:-

[1] Ar hyn o bryd, nid oes bwriad i ychwanegu unrhyw bobl eraill at y rhestr hon.

- bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;
- bod person yn cael ei dwyllo;
- bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;
- bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio.

ystyr “esgeulustod” yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy’n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn).

25. Mae’r diffiniadau hyn yn gyfarwydd i ymarferwyr. Wrth asesu sefyllfa, dylid ystyried:

- pa mor agored i niwed yw’r oedolyn sy’n wynebu risg;
- graddau’r gamdriniaeth neu’r esgeulustod;
- hyd a mynychder y gamdriniaeth neu’r esgeulustod;
- yr effaith ar yr unigolyn;
- y risg y bydd y pethau hyn, neu waeth, yn digwydd eto i’r oedolyn hwn neu i oedolion eraill sy’n wynebu risg.

26. Dyma restr o enghreifftiau ar gyfer pob un o’r categorïau o gamdriniaeth ac esgeulustod*:*

- camdriniaeth gorfforol - taro, slapio, rhoi gormod o feddyginiaeth neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal yn gorfforol neu gosbau amhriodol;
- camdriniaeth rywiol - trais rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw’r oedolyn agored i niwed wedi cydsynio iddynt neu na allai gydsynio iddynt a/neu y rhoddwyd pwysau arno i gydsynio iddynt;
- camdriniaeth seicolegol - bygwth gwneud niwed neu ymadael, rheolaeth gymhellol, codi cywilydd, camdriniaeth eiriol neu hiliol, ynysu person neu ei dynnu o wasanaethau neu rwydweithiau cymorth (mae rheolaeth gymhellol yn weithred neu batrwm o weithredoedd ar ffurf ymosodiadau, bygythiadau, codi cywilydd neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr);
- esgeulustod - methu â chaniatáu gofal neu wasanaethau meddygol, esgeulustod wrth gymryd risg, methu â rhoi meddyginiaeth ragnodedig, methu â helpu i gynnal hylendid personol neu ddarparu bwyd, cysgod, dillad; esgeulustod emosiynol
- camdriniaeth ariannol mewn perthynas â phobl a all fod angen gofal a chymorth. Mae arwyddion posibl yn y cyswllt hwn yn cynnwys:
    - newid annisgwyl i’w hewyllys;
    - gwerthu neu drosglwyddo’r cartref yn sydyn;
    - gweithgarwch anghyffredin mewn cyfrif banc;
    - cynnwys enwau ychwanegol ar gyfrif banc yn sydyn;
    - llofnod sy’n wahanol i lofnod arferol y person;

- y person yn amharod i drafod eu materion ariannol, neu'n ymddwyn yn bryderus wrth wneud hynny;
- rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti arall;
- diddordeb sydyn gan berthynas neu drydydd parti arall yn lles y person;
- biliau heb eu talu;
- cwynion bod eiddo personol ar goll;
- dirywiad mewn ymddangosiad personol sy'n gallu awgrymu bod gofynion personol a diet yn cael eu hanwybyddu;
- ynysu bwriadol oddi wrth ffrindiau a theulu, gan roi rheolaeth lwyr i rywun arall dros benderfyniadau'r person.

27. Gallai unrhyw un o'r mathau uchod o gamdriniaeth gael ei ysgogi gan nodweddion personol y dioddefwr. Efallai y bydd hynny'n golygu mai trosedd casineb ydyw. Ystyr trosedd casineb yw trosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall o'r farn ei bod wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar anabledd, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd person.

28. Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a'r ddyletswydd cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin. Mae'r ddau yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid eu defnyddio yn awtomatig fel rheswm i beidio â gwneud hynny. O dan amgylchiadau eithriadol, gall gwybodaeth bersonol gael ei rhannu'n gyfreithlon heb ganiatâd os oes yna ofyniad cyfreithiol neu os bydd y gweithiwr proffesiynol o'r farn bod hynny er lles y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol yw er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill.

29. Dylai unrhyw wybodaeth adnabyddadwy gael ei rhannu yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae WASPI yn fframwaith ar gyfer pob sefydliad cyhoeddus, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru. Mae'n sylfaen i gydweithredu effeithiol ledled sefydliadau, mae'n helpu i oresgyn rhwystrau tybiedig ac mae'n galluogi staff i rannu gwybodaeth mewn ffordd ddiogel a chyfreithlon. Mae rhagor o wybodaeth am WASPI ar gael drwy'r ddolen ganlynol: http://www.waspi.org/. Mae Llywodraeth Ei Mawrhydi – *Information Sharing: guidance for practitioners and managers* yn nodi:-

3.41 Nid oes modd darparu canllawiau ar gyfer pob sefyllfa lle y gellir cyfiawnhau rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad. Mae'n **rhaid** i chi wneud penderfyniad ar sail ffeithiau'r achos unigol. Os oes risg glir o niwed sylweddol i blentyn neu niwed difrifol i oedolyn, mae'n debyg iawn y bydd prawf budd y cyhoedd yn cael ei fodloni (ac eithrio yn unol â disgrifiad 3.43). Mewn achosion eraill, bydd modd i chi gyfiawnhau rhannu gwybodaeth gyfrinachol gyfyngedig er mwyn gwneud penderfyniadau ar rannu rhagor o wybodaeth neu weithredu – dylai'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

3.42 Mewn rhai amgylchiadau, bydd modd cyfiawnhau rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad fel arfer oherwydd rhesymau er budd y cyhoedd, sef:

• os oes tystiolaeth neu sail resymol dros gredu bod plentyn yn dioddef niwed sylweddol, neu ei fod yn wynebu'r risg o ddioddef niwed sylweddol; neu

• os oes tystiolaeth neu sail resymol dros gredu bod oedolyn yn dioddef niwed difrifol, neu ei fod yn wynebu'r risg o ddioddef niwed difrifol; neu

• i atal niwed sylweddol i blentyn neu niwed difrifol i oedolyn, gan gynnwys drwy atal, datgelu ac erlyn troseddau difrifol.

3.43 Un eithriad i hyn yw sefyllfa lle mae oedolyn sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau (gweler paragraff 3.30 o *Information Sharing: guidance for practitioners and managers*) yn ei osod ei hun mewn perygl ond nid yw'n achosi risg o niwed sylweddol i blant neu niwed difrifol i oedolion eraill. Yn yr achos hwn mae'n bosibl na fyddai modd cyfiawnhau rhannu gwybodaeth heb gydsyniad. Dylech chi ofyn am gyngor os ydych yn ansicr.

30. Mae'r diffiniad o "oedolyn sy'n wynebu risg" yn cyfeirio at y person sy'n cael, neu 'sy'n wynebu risg' o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae cynnwys y term "sy'n wynebu risg" yn galluogi ymyrraeth gynnar i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg. Nid oes rhaid i'r penderfyniad i weithredu fod yn seiliedig ar y ffaith bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd.

31. Yn aml, mae camdriniaeth ac esgeulustod yn drosedd. Dyma restr o enghreifftiau o'r mathau o droseddau y gellir eu cyflawni:-

- troseddau yn erbyn y person – ymosodiad, niwed corfforol difrifol, gwir niwed corfforol;
- troseddau rhywiol – trais rhywiol, troseddau o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (gan gynnwys gweithgarwch rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddyliol sy'n effeithio ar ei allu i wneud penderfyniadau);
- troseddau eiddo – lladrata, twyllo, difrod troseddol.

**<u>Dyletswydd awdurdod lleol i wneud ymholiadau</u>**

32. Mae adran 126 (2) yn amlinellu'r canlynol:-

"Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswylio fel arfer yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, rhaid iddo:-

(a) gwneud unrhyw ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau (p'un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pa gamau a chan bwy; a

(b) penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath."

33. Mae yna dair elfen i hyn:

- sail resymol dros gredu;
- gwneud ymholiadau;
- cofnodi canlyniad yr ymholiadau

34. Dylai'r penderfyniad i ddechrau gwneud ymholiadau gael ei gofnodi i nodi'r pwynt pan fo'r ddyletswydd yn cael ei defnyddio ac at ddiben sicrhau bod ymholiadau'n cael eu cwblhau mewn ffordd amserol.

35. Ni ddylai ymholiadau gael eu brysio, ond dylid gosod amserlenni. Fel arfer, dylai ymholiad gael ei gwblhau o fewn SAITH diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad. Ni fydd hyn yn atal camau rhag cael eu cymryd yn syth i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg. Os bydd ymholiad yn para mwy na saith diwrnod, dylid cofnodi'r rhesymau. Dylai'r awdurdod lleol fonitro cydymffurfiaeth ag amserlenni a'r rhesymau a roddir am fethu â chydymffurfio â'r amserlen saith diwrnod gwaith. Bydd awdurdodau lleol yn rhannu eu data gyda'r Bwrdd Diogelu Oedolion at ddiben cyfrifoldeb y Bwrdd i fonitro gwelliant.

36. Mae ymholiadau'n cwmpasu pob math o weithgareddau, ac nid ydynt o reidrwydd yr un fath. Yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu ar ba ffurf y cyflwynir yr ymholiadau, yn seiliedig ar y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael ac amgylchiadau'r achos unigol. Dylai awdurdodau lleol gofnodi'n ysgrifenedig pam y maent o'r farn bod yr ymholiadau y maent yn eu gwneud yn angenrheidiol, ac ar ba ffurf y cyflwynir yr ymholiadau hynny. Casglu gwybodaeth yw nod pennaf yr ymholiadau, ac nid ymchwiliadau ffurfiol a gomisiynwyd fel rhan o'r broses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed mohonynt. Efallai y bydd ymholiadau'n arwain at y cam cyfarfod strategaeth; ond nid rhan ymchwiliol y broses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed mohonynt. Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol sy'n cynnwys yr heddlu, er y gallant arwain at hynny.

37. Gall yr awdurdod lleol wneud yr ymholiadau ei hun, neu beri i gorff arall eu gwneud. Mae'r ddyletswydd i bennu natur yr ymholiadau gofynnol yn aros gyda'r awdurdod lleol, hyd yn oed os yw'r ymholiadau'n cael eu gwneud gan gorff arall. Efallai y gofynnir i bartneriaid perthnasol wneud ymholiadau ar ran yr awdurdod lleol, a gofynnir iddynt gydymffurfio â cheisiadau o'r fath oni bai y byddai gwneud hynny yn groes i'w dyletswyddau eu hunain. O dan rai amgylchiadau, gallai eraill helpu, er enghraifft, sefydliad trydydd sector yn cefnogi'r person.

38. Wrth benderfynu ar natur yr ymholiadau, dylai'r awdurdod lleol ystyried amryw o ffactorau:

- hawl y person yr ystyrir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg i wrthod cymryd rhan. Ni fydd gwrthod cymryd rhan yn golygu na fydd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd mwyach, ond efallai y bydd yr ymholiad yn llai effeithiol. Bydd natur barhaus y

ddyletswydd yn helpu gydag ymholiadau mewn perthynas â gorfodaeth neu ddylanwad gormodol;

- dymuniadau a theimladau'r oedolyn sy'n wynebu risg;
- y posibilrwydd nad yw'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd;
- a oes angen cymorth eiriolwr o dan unrhyw gynllun eirioli statudol neu wirfoddol;
- yr angen i wneud yr ymholiad mewn ffordd ystyriol a heb achosi gormod o straen i'r person ac eraill (er enghraifft, gofalwyr ac aelodau'r teulu);
- a yw'r troseddwr angen unrhyw ofal neu gymorth;
- a yw'r troseddwr yn darparu gofal neu gymorth i oedolyn arall sy'n wynebu risg neu blentyn a all fod yn wynebu risg;
- yr angen i'r awdurdod lleol weithio'n agos gydag asiantaethau eraill a all helpu gyda'r ymholiadau a chyfrannu at gyflawni canlyniadau dynodedig yr ymholiadau;
- yr angen i fod yn ymwybodol o halogi unrhyw dystiolaeth y gellir ei defnyddio mewn unrhyw ymchwiliad troseddol nawr neu yn y dyfodol;
- pwysigrwydd cydnabod bod unrhyw ymholiadau yn gymesur ac yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac adrannau 2, 5, 6, a 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

39. Yn gyffredinol, dylai fod tri cham i ymholiadau:

    i. *Sgrinio*: i wirio cywirdeb ffeithiol unrhyw atgyfeiriad.
    ii. *Gwerthusiad cychwynnol:* casglu, adolygu a chrynhoi gwybodaeth.
    iii. *Penderfyniad:* o ystyried canlyniad y sgrinio/gwerthusiad cychwynnol, beth y dylid ei wneud, os unrhyw beth? Gall hyn gynnwys cychwyn ymchwiliad un asiantaeth neu amlasiantaeth.

40. Os penderfynir yn gynnar nad yw'r oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg, dylai'r ymholiadau ddod i ben. Fodd bynnag, efallai y bydd angen atgyfeirio'r person i asiantaethau neu wasanaethau eraill os yn briodol neu efallai y bydd angen ei asesu o dan adran 19 neu 24 o'r Ddeddf. Mae adran 17 o'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i helpu pobl i gael mynediad at gyngor a chymorth perthnasol, cywir ac amserol i'w helpu i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth er mwyn cyflawni eu canlyniadau lles personol. Mae'r codau ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 yn amlinellu'r holl ofynion ar awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

41. **Rhaid** i bartneriaid perthnasol rannu gwybodaeth fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r ddyletswydd hon yn unol â pharagraff 28 a 29 uchod, oni bai y byddai gwneud hynny'n anghyfreithlon.

42. Dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei chynnwys mewn adroddiad ar ymholiad sy'n debygol o gael ei gadw yng nghofnod achos unigol y person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg:

- enw'r unigolyn a fynegodd y pryder a'r unigolyn a benderfynodd gychwyn yr ymholiad;
- enw a manylion personol y person sy'n destun yr ymholiadau;
- crynodeb o'r dystiolaeth y seiliwyd yr 'sail resymol dros gredu' arni;
- enw'r person neu enwau'r personau ac, os yn berthnasol, yr asiantaeth a wnaeth yr ymholiadau;
- cronoleg yr ymholiadau;
- rhestr o bobl a ddarparodd wybodaeth yn ystod yr ymholiadau;
- rhestr o bobl a gyfwelwyd yn ystod yr ymholiadau;
- rhestr o dystiolaeth ddogfennol a adolygwyd yn ystod yr ymholiadau;
- datganiad yn nodi bod y rhai sy'n gwneud yr ymholiadau o'r farn bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg, neu nad yw'n oedolyn sy'n wynebu risg. Os credir nad yw'r oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg, dylid cynnwys datganiad yn nodi pam y daethpwyd i'r casgliad hwn. Dylid ystyried nodi unrhyw bryderon posibl a all godi yn y dyfodol a'r angen am Wybodaeth, Cyngor a Chymorth;
- datganiad yn nodi a yw asesiad o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi'i gynnal, neu a ddylid ei gynnal. Os yw asesiad o'r fath wedi'i gynnal, dylai'r canlyniad fod wedi'i gynnwys yn y cofnod;
- datganiad o ganfyddiadau'r ymholiadau a arweiniodd at y casgliad (os felly) bod yr oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg;
- cofnod o unrhyw gamdriniaeth y mae'r person yn ei dioddef, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol, gan gynnwys y canlynol:
    - natur y gamdriniaeth;
    - ers pryd mae'r person wedi bod yn cael ei gam-drin;
    - dymuniadau a theimladau'r oedolyn sy'n wynebu risg;
    - mynychder a maint y gamdriniaeth;
    - cyflawnwr honedig y gamdriniaeth a'r berthynas rhwng y troseddwr a'r oedolyn sy'n wynebu risg, os o gwbl;
    - effaith y gamdriniaeth ar yr oedolyn sy'n wynebu risg;
    - presenoldeb unrhyw berson arall yn y cartref a all fod yn oedolyn sy'n wynebu risg neu'n blentyn;
    - a yw'r troseddwr honedig yn darparu gofal a chymorth i'r oedolyn sy'n wynebu risg neu unrhyw oedolyn arall sy'n wynebu risg. Os felly, natur a maint y gofal;
    - natur unrhyw gymorth y mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn ei gael gan ofalwr neu berthynas heblaw'r troseddwr honedig;
    - gwybodaeth am unrhyw asiantaethau neu sefydliadau trydydd sector eraill sy'n ymwybodol o'r oedolyn sy'n wynebu risg neu'n gweithio gyda nhw;
    - materion eraill y mae'r rhai sy'n gwneud yr ymholiadau o'r farn y dylid eu cynnwys yn y cynllun gofal a chymorth.

43. Mae adran 54 yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth ar gyfer person y mae angen iddo ddiwallu ei anghenion. Mae hyn yn cynnwys anghenion y mae'n rhaid eu diwallu ym marn yr awdurdod lleol er mwyn amddiffyn oedolyn yn erbyn camdriniaeth neu esgeulustod neu'r risg o gamdriniaeth neu

esgeulustod. **Rhaid** i gasgliadau unrhyw ymholiadau a wneir pan gredir bod oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg gael eu cofnodi yn y cynllun gofal a chymorth hwn. Gall cynllun gofal a chymorth ymgorffori unrhyw gynllun amddiffyn oedolion sydd ar waith.

44. Dylai'r casgliad nodi a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ai peidio a pha gamau y dylid eu cymryd a chan bwy.

45. Os yw oedolyn sy'n wynebu risg wedi gwrthod cynllun gofal a chymorth, dylai canfyddiadau ymholiadau gael eu cofnodi yn y cofnod achos unigol. Dylai'r cofnod fod yn hygyrch. Mae'n bwysig nad yw'r cofnod yn cael ei golli am nad yw ynghlwm wrth y cynllun gofal a chymorth.

## <u>Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSOs)</u>

### Dibenion

46. Dibenion APSO yw:

(a) galluogi'r swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sy'n mynd gyda'r swyddog hwnnw i siarad yn breifat gyda pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg
(b) galluogi'r swyddog awdurdodedig i bennu a yw'r person hwnnw yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd
(c) galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i benderfynu, yn unol ag adran 126(2), pa gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl.

47. Mae rheoliadau yn gosod cyfyngiadau ar y bobl neu'r categorïau o bobl sy'n gallu gweithredu fel swyddog awdurdodedig. Mae'r cyfyngiadau a amlinellir yn Rheoliad 3[2] yn nodi y gall swyddog yr awdurdod lleol lle mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn byw weithredu fel swyddog awdurdodedig. Os nad yw hyn yn ymarferol, dylai'r swyddog awdurdodedig fod yn swyddog o awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd Diogelu ac, os nad yw hyn yn ymarferol, rhaid i'r swyddog awdurdodedig fod yn swyddog o awdurdod lleol yng Nghymru.

### Rôl y swyddog awdurdodedig

48. Y swyddog awdurdodedig yw'r person sy'n gallu gwneud cais i ynad heddwch am APSO. Dylai'r swyddog awdurdodedig baratoi'r wybodaeth y mae angen ei chynnwys yn y gorchymyn fel yr amlinellir yn adran 127(5 a 6) o'r Ddeddf. Mae'r rôl yn cynnwys cysylltu â gwasanaeth cyfreithiol yr awdurdod lleol i gyflwyno'r cais i'r llys, ac efallai bod yn bresennol i roi tystiolaeth ynghylch yr angen mewn rhai achosion. Mae'r APSO yn caniatáu i'r swyddog awdurdodedig, cwnstabl yr heddlu ac unrhyw berson arall

[2] Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015

sy'n mynd gyda'r swyddog awdurdodedig fynd i mewn i'r eiddo i weithredu'r gorchymyn.

49. Mae swyddog awdurdodedig angen cyfres gymhleth o sgiliau a **rhaid** iddo dderbyn hyfforddiant priodol (yn amodol ar esemptiad a ddarperir gan Reoliad 3(3)) a diweddaru ei sgiliau yn gyson. Mae'n hollbwysig bod gan y swyddog awdurdodedig rywfaint o ymreolaeth ar ei gyflogwr a'i fod yn gallu cyflawni'r swyddogaethau yn annibynnol ar y gwaith o reoli'r achos dan sylw o ddydd i ddydd. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd unrhyw un heblaw swyddog awdurdodedig hyfforddedig yn gymwys i wneud cais am APSO, a dylai'r rhesymau gael eu cofnodi. Yn dilyn y digwyddiad hwn, bydd yr awdurdod lleol yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau mewn perthynas ag APSOs.

50. Bydd y swyddog awdurdodedig:

- yn gallu asesu unrhyw risg i'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg cyn gwneud y cais ac, os gwneir APSO, ar ôl iddo gael ei weithredu. Gall hyn gynnwys defnyddio adnoddau asesu risg safonedig;
- yn deall cyd-destun camdriniaeth, sefyllfaoedd camdriniol ac esgeulustod;
- yn gallu adnabod rheolaeth gymhellol a'i heffeithiau ar oedolion sy'n wynebu risg;
- yn gallu cyfathrebu'n effeithiol a nodi unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig sydd gan y person yr amheuir ei fod yn wynebu risg a sut y gellir gwella ei allu i gyfathrebu ei ddymuniadau;
- yn gallu bod yn bendant ac ymarfer rheolaeth mewn sefyllfaoedd anodd a heriol;
- yn gallu herio ei awdurdod lleol ei hun ac asiantaethau eraill yn ôl yr angen, a bod yn barod i wneud hynny;
- yn ymwybodol o pryd mae angen eiriolwr a sut i helpu'r oedolyn i sicrhau eiriolwr;
- yn gallu paratoi a chyflwyno, gyda chymorth cyfreithiol, cais am APSO yn glir ac yn hyderus i ynad heddwch;
- yn deall y fframwaith cyfreithiol y mae APSOs yn gweithredu o'i fewn, gan gynnwys goblygiadau Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r angen i barchu amrywiaeth;
- yn deall y darpariaethau yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn perthynas ag asesiadau o alluedd, asesiadau lles pennaf a rôl yr Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol.

**Diffiniadau**

51. At ddibenion y canllawiau statudol hyn:

‘Mae person yn “byw” mewn unrhyw eiddo os yw’n byw yno am gyfnod o amser, boed hynny’n barhaol neu dros dro, p’un ai bod ganddo fuddiant cyfreithiol neu fuddiant arall yn yr eiddo ai peidio.’

52. Mae ‘eiddo’ yn cynnwys:

- eiddo domestig;
- cartref gofal preswyl neu gartref nyrsio;
- ysbyty;
- unrhyw adeilad, strwythur, cartref symudol neu garafán arall y mae’r person yn byw ynddo.

**Ni ellir defnyddio APSO o fewn sefydliadau diogel, carchardai na chanolfannau cadw ieuenctid. (gweler adran 185(6) o’r Ddeddf).**

53. Rhaid i’r asesiad gael ei gynnal yn breifat. Os yw’r eiddo’n ddigon mawr i’r person gael ei gyfweld heb i rywun arall allu clywed y sgwrs, bydd llawer llai o broblemau. Fodd bynnag, mewn fflat neu dŷ bychan, efallai y bydd yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn amharod i siarad yn agored. Efallai y bydd angen defnyddio pwerau’r heddlu o dan amgylchiadau o’r fath, er enghraifft, i’w gwneud hi’n ofynnol i unrhyw breswylydd arall adael yr eiddo tra bod y cyfweliad asesu yn cael ei gynnal.

54. Mae natur y pwerau sydd ar gael i’r plismon o dan statud yn cynnwys:

- adran 17(1)(e) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984; ac
- adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984;
- pwerau cyfraith gyffredin megis arestio am dor heddwch;
- Gorchymyn Amddiffyn rhag Trais Domestig, Deddf Trosedd a Diogelwch 2010

55. Mae pwerau cwnstabl sy’n mynd gyda’r swyddog awdurdodedig yn mynd ymhellach na dim ond cael mynediad i eiddo. Efallai y bydd y swyddog yn defnyddio grym rhesymol ‘er mwyn *cyflawni dibenion* gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion’. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod modd siarad â’r person yn breifat.

### Gwneud penderfyniadau o’i wirfodd

56. Diben yr APSO yw sicrhau bod yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn ‘gwneud penderfyniadau o’i wirfodd’. Dylai ymarferwyr ystyried dangosyddion o ddylanwad gormodol, gan gynnwys:

- a yw'r person yr honnir ei fod yn arfer dylanwad gormodol mewn sefyllfa o ymddiriedaeth? Er enghraifft, staff cartref gofal, gofalwr neu berthynas;
- mewn achosion o gamdriniaeth ariannol, a yw'r person wedi cael cynnig cyngor annibynnol?
- a yw'r person yr honnir ei fod yn arfer dylanwad gormodol yn atal y cyfweliad rhag cael ei gynnal yn breifat?
- a yw'r penderfyniad mae'r person yn ei wneud yn annodweddiadol ac allan o gymeriad yn seiliedig ar yr hyn mae'r swyddogion awdurdodedig a'r rhai sy'n mynd gyda nhw yn ei wybod neu wedi cael gwybod am y person hwnnw?

57. Dylai'r rhai sy'n rhan o'r gwaith o roi'r APSO ar waith sicrhau nad ydynt yn ymarfer dylanwad gormodol. Dylent fod yn ymwybodol efallai y bydd defnyddio pwerau statudol a phresenoldeb amryw o ddieithriaid yn ei gartref, gan gynnwys plismon, yn dychryn yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Efallai y bydd angen eiriolwr i sicrhau bod y person yn gallu herio barn ymarferwyr.

58. Mae'n bwysig nodi bod pwerau'r heddlu o dan adran 127(7) o'r Ddeddf yn cynnwys y pŵer i helpu i alluogi'r oedolyn sy'n wynebu risg i wneud penderfyniadau o'i wirfodd.

**Cynllunio**

59. Mae cynllunio da yn hollbwysig ar gyfer APSO; o ran paratoi cais a chynllunio sut i gael mynediad i eiddo ac, yn bwysicaf oll, sut i adael eiddo. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig gydweithredu gydol y broses i'r graddau sy'n angenrheidiol yn yr achos penodol hwnnw a gwahodd asiantaethau perthnasol i gymryd rhan. Bydd cynllunio o'r fath yn galluogi'r swyddog awdurdodedig i sicrhau bod opsiynau eraill wedi'u harchwilio, efallai trwy weithdrefnau amddiffyn oedolion, a all osgoi'r angen i wneud cais am APSO.

60. Dylai swyddogion awdurdodedig gysylltu â'r heddlu gan y byddant yn gallu helpu i nodi risg bosibl. Mae hi hefyd yn bwysig rhagweld, cyn belled ag sy'n bosibl, natur a lefel cyfraniad yr heddlu at roi'r APSO ar waith mewn unrhyw achos penodol. Er enghraifft, dylai swyddogion awdurdodedig gytuno gyda'r heddlu a oes angen i'r heddlu fod yn bresennol yn yr eiddo neu a fyddai'n ddigonol iddynt aros y tu allan neu gerllaw.

61. Rhaid i'r rhai sy'n rhan o'r gwaith o ystyried yr angen am APSO drafod y cais i sicrhau y bydd yn cael ei roi ar waith mewn ffordd strwythuredig, bod gan y swyddog

awdurdodedig yr holl wybodaeth berthnasol ac y bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r camau nesaf ar ôl i'r APSO ddod i ben. Gall y rhai sy'n rhan o'r gwaith hwn gynnwys partneriaid perthnasol, asiantaethau eraill neu'r trydydd sector. Fodd bynnag, y swyddog awdurdodedig sy'n gyfrifol am y cais ac am sicrhau bod yr APSO yn cael ei roi ar waith os caiff y cais ei dderbyn.

62. Wrth baratoi cais am APSO, dylid ystyried y canlynol:

- **rhaid** i bawb sy'n rhan o'r broses ddeall diben eu rôl yn y broses honno;
- rhaid nodi'r hyn y gall y plismon ei wneud os na fydd y meddiannydd yn cydymffurfio - yn enwedig pa bwerau statudol neu gyfraith gyffredin y gellir eu defnyddio;
- **rhaid** trafod a chytuno pwy fydd yn gwneud beth; ni ddylid gadael hyn nes bydd yr APSO yn cael ei roi ar waith. Wrth gwrs, efallai y bydd angen diwygio'r cytundeb yn dibynnu ar yr hyn a ganfyddir ar ôl dod i gysylltiad â'r person yr amheuir ei fod yn wynebu risg.

63. Efallai mai ychydig iawn o wybodaeth fydd ar gael am y person yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Efallai mai diffyg gwybodaeth ddibynadwy am y person, ynghyd â phryderon am ei ddiogelwch, yw'r rheswm dros geisio cael APSO. Wrth baratoi cais, dylai swyddog awdurdodedig:

- allu darparu tystiolaeth bod dulliau amgen a llai ymyrrol wedi'u hystyried, ond y barnwyd eu bod yn annigonol. O ystyried y goblygiadau hawliau dynol, dim ond ar ôl i bopeth arall fethu y dylid ystyried gwneud cais am APSO a rhaid i'r swyddog awdurdodedig ddangos ei fod wedi gwneud hynny;

- ystyried llunio 'mantolen' yn asesu risgiau a manteision gwneud cais/peidio â gwneud cais am orchymyn. Bydd hyn yn helpu'r swyddog awdurdodedig wrth ystyried a ddylai wneud y cais, a bydd hefyd yn helpu ynadon heddwch os caiff cais ei wneud.

64. Nid oes rhaid i swyddogion awdurdodedig brofi i'r ynad heddwch bod angen APSO y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Efallai y gwneir cais am APSO gan nad oes yna wybodaeth ddigonol am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Mae cyfrifoldebau'r ynad heddwch i'w gweld yn adran 127(4) o'r Ddeddf.

65. Gall yr ynad heddwch wneud APSO os bydd yn fodlon:

(a) Bod gan y swyddog awdurdodedig sail resymol dros gredu bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg;

(b) Bod angen i'r swyddog awdurdodedig gysylltu â'r person er mwyn asesu a yw'n oedolyn sy'n wynebu risg a phenderfynu, fel sy'n ofynnol gan adran 126(2), pa gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl;

(c) Bod angen gwneud gorchymyn er mwyn cyflawni'r dibenion a amlinellir yn isadran (2); a

(d) na fydd defnyddio'r pŵer mynediad yn rhoi'r person mewn mwy o risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

66. Mae angen i'r ynad heddwch fod yn fodlon ynglŷn â'r materion a amlinellir yn yr adran uchod. Dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- 'sail resymol dros gredu';
- 'angen'- mae hyn yn golygu mwy na bod rhywbeth yn ddymunol - dylai fod yn anochel neu'n hanfodol;
- 'ni fydd defnyddio'r pŵer mynediad….yn rhoi'r person mewn mwy o risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso' - Ni fydd hi'n bosibl profi hyn ym mhob achos. Rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir fod yn ddigonol i fodloni'r ynad heddwch.

67. Bydd y swyddog awdurdodedig yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth ymadael i'w defnyddio ar ôl i'r APSO gael ei roi ar waith. Mae yna bryder y gall ymadael heb esbonio i'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg a'r meddiannydd beth fydd yn digwydd nesaf gynyddu lefel y risg. Rhaid i bawb sy'n cael eu heffeithio gan yr APSO fod yn ymwybodol o'r camau nesaf.

68. Efallai y bydd APSO yn cynnwys amod bod rhaid cyflwyno hysbysiad i feddiannydd yr eiddo a'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg. Wrth baratoi'r cais, dylid mynd i'r afael ag amryw o faterion:

- pa fath o 'hysbysiad' sydd ei angen? A oes rhaid iddo fod yn hysbysiad ysgrifenedig, neu a fydd hysbysiad dros y ffôn yn dderbyniol?
- sut mae'r swyddog awdurdodedig yn helpu'r ynad heddwch i asesu a fyddai cyflwyno hysbysiad yn rhoi'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg mewn risg o gael niwed pellach neu'n amharu ar yr asesiad? Pa ffactorau y dylid eu hystyried?

- dylid ystyried yr angen i hysbysu pobl eraill sy'n cael eu heffeithio gan y gorchymyn - er enghraifft, lle mae pobl yn rhannu llety domestig, megis llety â chymorth.

69. Nid oes modd gwneud mwy nag un gorchymyn mewn perthynas â'r un person, oni bai bod yr amgylchiadau wedi newid. Os yw hi'n annhebygol y bydd un ymweliad yn ddigonol, rhaid i'r cais gynnwys y cyfnod y bydd y gorchymyn ar waith ar ei gyfer i sicrhau bod mwy nag un ymweliad yn bosibl o dan un APSO. Os oes mwy nag un ymweliad wedi'u cynnwys yn y gorchymyn, rhaid nodi'n glir mai diben yr ymweliadau hynny yw cwblhau'r asesiad, yn hytrach na monitro'r sefyllfa.

70. Diben yr APSO yw galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg a phenderfynu pa gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl. Dylai'r asesiad ystyried risg, statws iechyd, capasiti a gallu'r person i ddiogelu ei hun, ynghyd â lefel y risg cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. Dylai dealltwriaeth y person o'r hyn sy'n digwydd a'i ddymuniadau ei hun gael ei gynnwys yn yr asesiad, a dylid rhoi pwys priodol iddynt o ystyried y posibilrwydd o ddylanwad gormodol.

71. Nid yw APSOs yn darparu pŵer mynediad cyffredinol; maent yn canolbwyntio ar y dibenion penodol a amlinellir yn adran 127 (2) o'r Ddeddf. Ar ôl i'r dibenion hyn gael eu cyflawni, bydd APSO yn dod i ben, a dylid cofnodi hynny. Ni ddylid parhau i ddefnyddio'r pŵer yn afresymol fel rhyw fath o ataliad. Mae'r defnydd o APSO yn amodol ar egwyddor gyffredinol cymesuredd. Mae hyn yn berthnasol i nifer yr ymweliadau a nifer y bobl sy'n mynd gyda'r swyddog awdurdodedig.

72. Efallai y gosodir amodau mewn perthynas â'r amser y gellir rhoi'r gorchymyn ar waith. Heblaw mewn achos lle mae angen gweithredu'n syth, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r amser y byddwch chi'n mynd i mewn i eiddo, p'un ai bod amod wedi'i gynnwys ai peidio. Bydd yr amseru hwn yn hynod bwysig os bydd angen asesu galluedd meddyliol.

73. Efallai y bydd APSO yn cynnwys amod bod rhaid i berson penodedig arall fynd gyda'r swyddog awdurdodedig. Os yn bosibl, dylai person neu bobl o'r fath gael eu nodi fel rhan o'r cais. Mae enghreifftiau o berson o'r fath yn cynnwys:

- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr (statudol neu anstatudol);
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- aseswr budd pennaf;
- Meddyg Teulu;

- Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
- Ymwelydd y Llys Gwarchod, Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

74. Wrth geisio cynnwys amod ynghylch pwy ddylai fynd gyda’r swyddog awdurdodedig, dylid darparu’r sail resymegol dros eu cynnwys yn y cais.

75. Efallai na fydd modd nodi ymlaen llaw natur unrhyw arbenigedd neu gymorth sydd ei angen i asesu’r person yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Yn aml, dim ond ar ôl i ymweliad asesu gael ei gwblhau y bydd modd pennu hyn. Gall person priodol fynd gyda’r swyddog awdurdodedig ar ymweliad dilynol, hyd yn oed os nad oedd wedi’i gynnwys mewn amod o dan adran 127 (6) (b). Dylai’r rhesymau dros eu cyfraniad gael eu cofnodi’n llawn.

76. Bydd swyddogaethau’r rhai sy’n mynd gyda’r swyddog awdurdodedig yn amrywio. Maent yn cynnwys:

- sicrhau bod unrhyw gyfweliad gyda’r person yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn cael ei gynnal mewn ffordd deg;
- helpu gyda chyfathrebu;
- darparu profiad a gwybodaeth arbenigol am faterion penodol (e.e. galluedd meddyliol);
- eirioli ar ran y person;
- rhannu’r wybodaeth sydd ganddynt am y person;
- meithrin perthynas gyda’r person.

77. Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried a ddylai eiriolwr fynd gyda nhw. Dylai swyddogion awdurdodedig gofnodi pam y credant na ddylid defnyddio eiriolwr. Os ystyrir bod angen eiriolwr, mae angen i swyddogion awdurdodedig fod yn glir ynglŷn â pha fath o eiriolwr sydd ei angen - Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA), Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA), Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) neu eiriolwr anstatudol.

78. O dan adran 127 (5)(b) o’r Ddeddf, *rhaid* i APSO gynnwys darpariaeth y *gall* cwnstabl fynd gyda’r swyddog awdurdodedig. Er nad yw hyn wedi’i gynnwys yn y gorchymyn, mae’n adlewyrchu’r ffaith bod yna ddewis ynglŷn ag a ddylai cwnstabl fynd gyda’r swyddog awdurdodedig ai peidio. Dylai’r rhai sy’n rhan o baratoi’r APSO drafod, yn

seiliedig ar eu gwybodaeth am y sefyllfa, a ddylai cwnstabl fod yn bresennol a chofnodi'r rheswm dros y penderfyniad.

79. Dylai'r APSO gynnwys manylion mesurau i leihau'r risg y bydd grym yn cael ei ddefnyddio i fynd i mewn i'r eiddo neu i leihau'r risg o wrthdaro. Bydd rôl yr heddlu yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mewn rhai sefyllfaoedd, byddant yn aros yn y cefndir ond, mewn sefyllfaoedd eraill, byddant yn gwneud cyfraniad blaenllaw at gael mynediad at y person. Un egwyddor allweddol yw y bydd yr heddlu'n defnyddio cyn lleied o rym â phosibl ac y dylai effaith eu presenoldeb gyfrannu at gyflawni dibenion yr APSO, yn hytrach na chyfaddawdu hynny.

80. Fel y nodwyd uchod, o dan adran 127 (7) o'r Ddeddf, mae pwerau'r cwnstabl o dan APSO yn ymestyn y tu hwnt i sicrhau mynediad ac yn cynnwys sicrhau bod dibenion APSO yn cael eu cyflawni. Gall y cwnstabl ddefnyddio ei bwerau i arestio os bydd yn amau bod troseddau wedi'u cyflawni.

81. O ystyried natur sensitif y pŵer hwn, mae'n hollbwysig bod y swyddog awdurdodedig yn dweud yn glir wrth yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg ac unrhyw feddiannydd arall yr eiddo beth sy'n digwydd, a beth fydd yn digwydd ar ôl i'r ymweliad gael ei gwblhau. Dylai'r rhai dan sylw gytuno ar y geiriau i'w defnyddio i ddisgrifio diben yr ymweliad a'r pŵer statudol y cynhelir yr ymweliad oddi tano. Yn ogystal, mae gan feddiannydd yr eiddo hawl i gael gwybodaeth am ei hawl i gwyno.

**<u>Dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg</u>**

82. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd newydd ar bartneriaid perthnasol i hysbysu awdurdod lleol os byddant yn amau bod oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i hysbysu awdurdod lleol arall os yw oedolyn y maent yn amau o fod yn oedolyn sy'n wynebu risg yn byw neu'n symud i ardal arall. Mae Adran 128 yn darparu fel a ganlyn:

a) Os oes gan bartner perthnasol awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg a'i bod yn ymddangos ei fod o fewn ardal yr awdurdod, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol o'r ffaith honno.

b) Os yw'n ymddangos bod y person, y mae gan y partner perthnasol sail resymol dros gredu ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg, o fewn ardal awdurdod lleol ac eithrio'r un y mae'n bartner perthnasol iddo, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw.

c) Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal ar unrhyw adeg yn oedolyn sy'n wynebu risg a'i fod yn byw neu'n bwriadu byw yn ardal awdurdod lleol arall (neu awdurdod lleol yn Lloegr), rhaid iddo hysbysu'r awdurdod arall hwnnw.

d) Yn yr adran hon, mae partner perthnasol awdurdod lleol yn golygu person sy'n bartner perthnasol i'r awdurdod at ddibenion adran 162 o'r Ddeddf.

83. Un mater allweddol o dan yr adran hon (yr un fath ag adrannau 126, 127, 128 a 130) yw ystyr 'sail resymol dros gredu'. Rhaid bod gan y person y gosodir y ddyletswydd arno 'sail resymol dros gredu'. Dylid nodi'r ffactorau canlynol:

- nid oes angen sefydlu, yn ôl pwysau tebygolrwydd, bod ffaith benodol wedi'i sefydlu;
- mae'n safon gymharol isel o gymharu â 'sail resymol dros gredu';
- nid barn oddrychol y penderfynwr mohoni;
- mae sail resymol dros gredu yn bodoli os oes yna wybodaeth a fyddai'n bodloni arsylwr gwrthrychol bod yr amgylchiadau penodol yn bodoli.

84. Dylai ymarferwyr gofnodi ar bapur y dystiolaeth y maent yn dibynnu arni wrth wneud y penderfyniad, gan ddarparu strwythur ar gyfer gwneud penderfyniadau:

- crynodeb o'r wybodaeth y mae'r penderfyniad yn seiliedig arni;
- pam mae'r penderfynwr o'r farn wrthrychol bod angen gweithredu;
- datganiad byr o'r risgiau posibl i'r oedolyn os na fydd unrhyw beth yn cael ei wneud.

85. Mae'r ddyletswydd i wneud ymholiadau yn adran 126 (2) o'r Ddeddf yn berthnasol waeth a yw person fel arfer yn byw o fewn ardal yr awdurdod lleol ai peidio.

86. Dylai fod yna bwyntiau cyswllt clir o fewn yr awdurdod lleol a'r partneriaid perthnasol i sicrhau y gall partner perthnasol hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw bryderon yn unol â'r ddyletswydd a amlinellir yn adran 128 o'r Ddeddf. Dylai fod un pwynt cyswllt ym mhob un o'r sefydliadau hyn.

87. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y person(au) priodol yn gweithredu ar unrhyw bryderon a nodir mewn adroddiad o dan yr adran hon mewn ffordd amserol. Bydd adroddiadau o'r fath yn llywio'r penderfyniad ynghylch a ddylid gwneud ymholiadau o dan adran 126(2) ai peidio.

**88.** Dylai partneriaid perthnasol sicrhau bod staff yn eu sefydliadau yn ymwybodol o'r ddyletswydd newydd hon i adrodd a'r gofyniad iddynt adrodd unrhyw bryderon sydd ganddynt i'r swyddog priodol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau.

**89.** Dylai awdurdodau lleol roi trefniadau cyflinellol ar waith i'w galluogi i adrodd ar draws yr awdurdod lleol.

**Dyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg**

90. Mae adran 130 yn diffinio 'plentyn sy'n wynebu risg' fel plentyn:

(a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; a

(b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

91. Dylai fod yna bwyntiau cyswllt clir o fewn yr awdurdod lleol a'r partneriaid perthnasol i sicrhau y gall partner perthnasol hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw bryderon yn unol â'r ddyletswydd a amlinellir yn adran 130 o'r Ddeddf. Dylai fod un pwynt cyswllt ym mhob un o'r sefydliadau hyn.

92. O dan adran 130 o'r Ddeddf, mae'r diffiniad o bartner perthnasol wedi'i ymestyn i gynnwys timau troseddau ieuenctid. Er hwylustod cyfeirio, mae partneriaid perthnasol wedi'u hamlinellu ym mharagraff 20 yn y canllawiau hyn.

93. Yn dilyn achos o hysbysu am blentyn o dan adran 130, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried a oes rhesymau dros gynnal ymchwiliad o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

94. O dan adran 47, os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod plentyn "yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol", mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud unrhyw ymholiadau neu beri iddynt gael eu gwneud y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn.

95. **Rhaid** ystyried y Canllawiau mewn perthynas â phlant sy'n wynebu risg o gael niwed a'r pwerau a'r dyletswyddau o dan Ddeddf Plant 1989, yn enwedig y ddyletswydd o dan adran 478 o'r Ddeddf honno.

## Pennod Dau

**CANLLAWIAU O DAN RAN 7 ADRAN 139(3) O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

96. Mae'r rhan hon o'r Canllawiau yn ymwneud â'r canlynol:

| | |
|---|---|
| (a) Adran 134(1) | Ardaloedd Byrddau Diogelu yng Nghymru |
| (b) Adran 134(2) | Partneriaid Bwrdd Diogelu |
| (c) Adran 134(3) | Partner arweiniol ar gyfer yr ardal mewn perthynas â phlant a'r partner arweiniol ar gyfer yr ardal mewn perthynas ag oedolion |
| (c) Adran 135 | Swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu |
| (d) Adran 135(4)(c) | Cymryd rhan yng ngwaith y Byrddau |
| (e) Adran 136 | Cynlluniau ac adroddiadau blynyddol |
| (f) Adran 137 | Cyflenwi gwybodaeth |
| (g) Adran 138 | Cyllido Byrddau Diogelu |

97. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer partneriaid Bwrdd Diogelu. Bydd y canllawiau yn helpu pob Partner Bwrdd Diogelu i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Bwrdd Diogelu y mae'n cael ei gynrychioli arno yn gweithredu'n effeithiol fel yr amlinellir yn adran 139(4) o'r Ddeddf.

98. Mae pob un o'r canlynol yn bartner Bwrdd Diogelu mewn perthynas ag ardal Bwrdd Diogelu:

a) Yr awdurdod lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd Diogelu;

b) Prif swyddog heddlu unrhyw ardal yr heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd Diogelu;

c) Y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd Diogelu;

d) Unrhyw Ymddiriedolaeth y GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal y Bwrdd Diogelu;

e) Yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau ei fod yn cyflawni swyddogaethau o dan adran 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 mewn perthynas â Chymru;

f) Unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae trefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo weithredu fel partner Bwrdd Diogelu mewn perthynas ag ardal y Bwrdd Diogelu.

## Ardaloedd Bwrdd Diogelu

99. **Rhaid** i reoliadau amlinellu'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle dylai fod Byrddau Diogelu ("ardaloedd Bwrdd Diogelu").

100. Mae'r ardaloedd Bwrdd Diogelu yn dilyn y Patrwm Cydweithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, gan adeiladu ar yr ardaloedd sy'n ymwneud â Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau'r Heddlu.

101. Mae'r ardaloedd wedi'u nodi fel a ganlyn yn rheoliad 3(1)[3]:

| **Ardal Bwrdd Diogelu** | **Ardaloedd awdurdod lleol** |
|---|---|
| Y Gogledd | Cyngor Sir Ynys Môn |
| | Cyngor Gwynedd |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| | Cyngor Sir Fynwy |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Cwm Taf | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Bae'r Gorllewin | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| | Dinas a Sir Abertawe |
| Y Canolbarth a'r Gorllewin | Cyngor Sir Powys |
| | Cyngor Sir Ceredigion |
| | Cyngor Sir Gâr |
| | Cyngor Sir Benfro |
| Caerdydd a'r Fro | Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |

[3] Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| | Cyngor Bro Morgannwg |

**Partner Arweiniol Bwrdd Diogelu**

102. Mae Rheoliadau 4 (1) a (2)[4] yn enwi partner Bwrdd Diogelu fel partner arweiniol ar gyfer pob un o'r Byrddau Diogelu Plant a'r Byrddau Diogelu Oedolion fel y nodir isod:

| Ardal Bwrdd Diogelu | Partner Arweiniol |
|---|---|
| Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Bwrdd Diogelu Plant Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru | Cyngor Sir Penfro |
| Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru | Cyngor Sir Gâr |
| Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro | Cyngor Bro Morgannwg |
| Bwrdd Diogelu Oedolion Caerdydd a'r Fro | Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |

103. Rôl y Partner Arweiniol, p'un ai ar gyfer plant neu oedolion, o dan adran 134 o'r Ddeddf yw sefydlu'r Bwrdd Diogelu perthnasol.

104. Ar ôl i'r Partner Arweiniol sefydlu Bwrdd Diogelu, unig swyddogaeth arall y Partner Arweiniol yw darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru am sut mae'r Bwrdd hwnnw yn

[4] Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015

cyflawni ei swyddogaethau pan fydd Gweinidogion Cymru yn gofyn iddo wneud hynny. Mae adran 184(6) o’r Ddeddf yn disodli adran 83(3) o Ddeddf Plant 1989. Bydd swyddogaeth y Partner Arweiniol fel Partner Bwrdd Diogelu yn parhau.

105. O dan adran 139(3) o’r Ddeddf, rhaid i bartner Bwrdd Diogelu gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â’r Bwrdd Diogelu, gan ystyried unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru. Mae Partneriaid Arweiniol yn bartneriaid Bwrdd Diogelu o fewn yr ystyr yn adran 139(3) o’r Ddeddf. Yn unol â hynny, darperir canllawiau ar gyfer Partneriaid Arweiniol o dan adran 139(3) mewn perthynas ag ymarfer eu swyddogaeth o dan adran 184(6) o’r Ddeddf, gan ddisodli’r pŵer presennol o dan adran 83(3) o Ddeddf Plant 1989.

106. Dyma’r broses ar gyfer Partneriaid Arweiniol i ymateb i wybodaeth:

(i) O fewn 7 diwrnod i dderbyn cais am wybodaeth gan Weinidogion Cymru o dan adran 184(6), dylai’r Partner Arweiniol gyfathrebu’r cais hwnnw i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu;

(ii) O fewn 21 diwrnod i gyfathrebu’r cais am wybodaeth i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu, dylai’r Cadeirydd gyflwyno’r cais hwnnw i’r Bwrdd;

(iii) O fewn 28 diwrnod neu o fewn y cyfnod a nodir gan Weinidogion Cymru yn eu cais, bydd y Partner Arweiniol, ar ôl trafod y mater gyda Chadeirydd y Bwrdd, yn darparu ymateb i’r cais i Weinidogion Cymru ar ran y Bwrdd Diogelu.

107. Y bwriad yw darparu ymateb o sylwedd i Weinidogion Cymru o fewn 56 diwrnod i gyflwyno’r cais o dan adran 184 (6). Os na fydd hynny’n rhesymol ymarferol, dylai’r ymateb i Weinidogion Cymru amlinellu ar bapur y rhesymau pam mae angen mwy o amser i baratoi ymateb o sylwedd ac amserlen ymarferol ar gyfer darparu’r ymateb hwnnw.

## <u>Swyddogaethau Byrddau Diogelu</u>

### Cyflwyniad

108. Mae’r rhan hon o’r canllawiau yn cynnwys canllawiau statudol ar gyfer adran 135 (Swyddogaethau a Gweithdrefnau Byrddau Diogelu) a’r rheoliadau cysylltiedig[5]. Mae’n disodli’r canllawiau statudol presennol ar Aelodaeth a Swyddogaethau Byrddau Diogelu (4.1 - 4.27) yn *Diogelu Plant: Gweithio gyda’n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* (Llywodraeth Cymru, 2006). Bydd hefyd yn disodli canllawiau ar Bwyllgorau Amddiffyn Oedolion yn *Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2000), a gyhoeddwyd o dan adran 7 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970*.

109. Mae amcanion Bwrdd Diogelu Plant fel a ganlyn:

[5] Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

a) amddiffyn plant yn ei ardal sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac
b) atal plant yn ei ardal rhag wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.

110. Mae amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion fel a ganlyn:

a. amddiffyn oedolion yn ei ardal –

  i. y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
  ii. sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso, ac

b. atal yr oedolion hynny yn ei ardal a nodir ym mharagraff (a) (i) rhag wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

111. Un gyfres o reoliadau sydd ar gyfer swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant. Mae hyn yn unol â'r ymrwymiad i ddarparu fframwaith i wella trefniadau diogelu ar gyfer pawb a dechrau dileu unrhyw rwystrau artiffisial yn seiliedig ar oedran. Mae'n cydnabod y bydd Byrddau yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd, y dylai trefniadau ar gyfer y Byrddau ganiatáu rhannu, cyfnewid a chydweithredu ar faterion sy'n peri pryder i bawb ac y dylai hyn gael ei gefnogi gan swyddogaethau a gweithdrefnau cyffredin lle bo hynny'n bosibl.

112. Mae'r swyddogaethau yn ymwneud â *gweithredu* amcanion Bwrdd Diogelu a nodi cyfrifoldebau craidd Bwrdd. Fe'u mynegir fel eu bod yn berthnasol i bob Bwrdd Diogelu ac yn berthnasol ac yn rhesymol a bod modd eu cyflawni. Mae'r Canllawiau hyn yn darparu esboniad i helpu Byrddau i roi'r swyddogaethau hyn ar waith.

**Swyddogaethau Bwrdd Diogelu**

113. Mae gan Fwrdd Diogelu y swyddogaethau canlynol mewn perthynas â gweithredu ei amcanion:

a) cyfrannu at sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol yn cael eu monitro ac yn parhau yn addas i'r diben trwy ymgysylltu â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu eraill, a chyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i gydgysylltu'r hyn sy'n cael ei wneud gan y partneriaid a'r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd at ddibenion amddiffyn oedolion a phlant ac atal camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed i oedolion a phlant yn ardal y Bwrdd;

b) codi ymwybyddiaeth ledled ardal y Bwrdd o amcanion y Bwrdd o ran amddiffyn oedolion a phlant a'u hatal rhag wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a dioddef mathau eraill o niwed, a darparu gwybodaeth am sut y gellir cyflawni hyn;

c) adolygu effeithlonrwydd mesurau a ddefnyddir gan bartneriaid Bwrdd Diogelu a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd, a chyrff eraill â chyfrifoldebau diogelu yn ardal y Bwrdd, boed hynny'n unigol neu ar y cyd, i roi amcanion y Bwrdd ar waith a gwneud pa bynnag argymhellion ag yr ystyrir yn addas i'r cyrff hynny yng ngoleuni adolygiad o'r fath;

d) cynnal adolygiadau arferion plant ac adolygiadau arferion oedolion, yn unol â rheoliad 4;

e) cynnal archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau sy'n ofynnol yn unol â'i amcanion;

f) monitro i ba raddau mae unrhyw argymhellion a wnaed o dan baragraff (c) neu (d) yn cael eu bodloni neu wedi'u bodloni;

g) adolygu perfformiad y Bwrdd a'i bartneriaid a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd o ran cyflawni ei amcanion;

h) dosbarthu gwybodaeth am arfer gorau a dysgu sy'n codi o adolygiadau o dan baragraff (d) neu (e), rhannu gwybodaeth gydag aelodau'r Bwrdd, Byrddau Diogelu eraill, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a phlant ac oedolion sy'n cael, neu a all gael, eu heffeithio gan swyddogaethau Bwrdd Diogelu a nodi, archwilio ac ymateb i faterion sy'n codi sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion y Bwrdd;

i) hwyluso ymchwil i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael niwed ac i'w hatal rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso;

j) adolygu anghenion hyfforddi'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn nodi gweithgareddau hyfforddi a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan sefydliadau unigol ac yn rhyngasiantaethol i helpu i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael niwed ac i'w hatal rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso yn ardal y Bwrdd;

k) cydweithredu neu weithredu ar y cyd gydag o leiaf un Bwrdd arall neu gyrff tebyg eraill yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, neu awdurdodaethau eraill, lle mae'r Bwrdd o'r farn y bydd yn ei helpu i gyflawni ei amcanion;

l) cael cyngor neu wybodaeth arbenigol lle mae'r Bwrdd yn teimlo ei fod yn berthnasol i'w helpu i roi ei amcanion ar waith;

m) ymateb i unrhyw hysbysiad i'r Bwrdd mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau;

n) cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch arall sy'n hwyluso neu'n helpu i gyflawni ei swyddogaethau.

114. Nod amlinellu cyfrifoldebau Byrddau Diogelu mewn rheoliadau yw darparu set briodol o safonau i dywys Byrddau Diogelu ac i sicrhau bod Byrddau Diogelu yn gweithredu mewn ffordd gyson ledled Cymru o dan y trefniadau newydd yn Neddf 2014. Mae'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod rhaid i bartneriaid Bwrdd Diogelu ystyried swyddogaethau a gweithdrefnau'r Bwrdd er mwyn cyflawni eu cyfrifoldeb yn adran 139(4) i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol. Amlinellir Swyddogaethau'r Byrddau Diogelu yn ffurfiol yn rheoliad 3 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 (gweler Atodiad 1).

**Canllawiau ar swyddogaethau Byrddau Diogelu**

**115.** Mae ffocws Byrddau Diogelu yn ddeublyg. Mae'n canolbwyntio ar **amddiffyn** plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth oherwydd camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, ac **atal** plant ac oedolion rhag wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Dylai'r ddau amcan hyn lywio blaenoriaethau Byrddau Diogelu pan fyddant yn ystyried eu rhaglenni gwaith a'u cynlluniau blynyddol ac yn adolygu eu perfformiad.

116. Mae gan bawb gyfrifoldeb i gadw plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth yn ddiogel. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel gyda'r rhai y maent yn byw gyda nhw a'r rhai sy'n eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt, yn ogystal â bod yn ddiogel mewn amgylcheddau y tu allan i'r cartref lle maent yn byw, yn teithio, yn chwarae, yn dysgu, yn gweithio neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol, hamdden a gweithgareddau eraill. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn perthyn yn bennaf i'r teulu neu ofalwyr ac i'r gymuned ehangach. Mae llawer o sefydliadau yn gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion trwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu'n uniongyrchol iddynt, trwy'r help a'r cymorth a ddarperir i deuluoedd a gofalwyr neu drwy eu gwaith i ddatblygu a chryfhau cymunedau.

117. O fewn ardaloedd awdurdod lleol, mae yna amryw o gyrff a strwythurau ar y cyd eraill sy'n gwneud cyfraniad pwysig at ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion, fel rhan o'u hagendâu ehangach ar gyfer cynllunio a hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau cydgysylltiedig.

118. Mae gan Fyrddau Diogelu rôl unigryw. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol dros herio asiantaethau perthnasol mewn ardal i sicrhau:

- bod mesurau effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n dioddef niwed neu sy'n wynebu risg o ganlyniad i gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; a
- bod asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynllunio a darparu gwasanaethau amddiffyn a rhannu gwybodaeth.

119. Dylai rôl Byrddau Diogelu o ran atal trwy gyflawni ei swyddogaethau gynnwys:

- hyrwyddo cymorth amlasiantaethol effeithiol;
- rhagweld a nodi lle bydd unigolion yn gallu cael eu heffeithio gan y rhan hon o'r Ddeddf a gweithio gyda darparwyr gwasanaethau i ddatblygu gwasanaethau adnabod ac atal yn gynnar;
- hyrwyddo dulliau rhyngasiantaethol o weithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau lle gall poblogaethau fod yn wynebu risg o gael niwed, er enghraifft, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant;
- defnyddio hyfforddiant rhyngasiantaethol a dosbarthu dysgu ac ymchwil i helpu i greu gweithlu amlasiantaethol mwy hyderus a gwybodus.

120. Mae adran 15(1) o'r Ddeddf yn amlinellu'r angen i awdurdod lleol ddarparu neu drefnu gwasanaethau y mae o'r farn y byddant yn cyflawni dibenion cyfrannu at atal pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Bydd Byrddau Diogelu am ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o brofiad y defnyddiwr i lywio eu gwaith a rhaid iddynt wneud hyn trwy roi cyfle i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gymryd rhan yn eu waith fel sy'n ofynnol gan adran 135 (4)(c).

**Cyfrannu at adolygu a datblygu polisïau a gweithdrefnau**

121. Dylai Bwrdd Diogelu sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol sy'n ceisio cadw plant ac oedolion a all fod angen gofal a chymorth yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed yn dal i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn golygu y dylai polisïau lleol a chenedlaethol gael eu llywio gan brofiad a gwybodaeth partneriaid Bwrdd Diogelu a chyrff eraill a gynrychiolir ar y Bwrdd. Os nodir materion yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau mewn ardal Bwrdd Diogelu, dylai'r rhain gael eu hystyried gan y Bwrdd, eu rhannu gyda Byrddau Diogelu eraill fel sy'n briodol a'u cyfathrebu i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i'w trafod a'u hadolygu.

122. Mae Grŵp Cydgysylltwyr Amddiffyn Oedolion Cymru a Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru yn darparu fforymau gwerthfawr ar gyfer cyfnewid ac adolygu rhwng

Byrddau Diogelu ac, os yn berthnasol, ar gyfer trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaethau. Maent yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at waith rhyngasiantaethol ac at sefydlu arferion a gweithdrefnau cyffredin ledled Cymru. Dylai Byrddau Diogelu a phartneriaid Bwrdd Diogelu hyrwyddo cydweithrediad rhyngasiantaethol o'r fath a chyfrannu at waith y grwpiau hyn ac ystyried gwaith unrhyw grwpiau neu fforymau Cymru gyfan eraill a all ddatblygu.

123. Rhaid i Fwrdd Diogelu sicrhau bod protocolau lleol ar waith sy'n cydgysylltu'r gwaith rhyngasiantaethol sy'n cael ei gyflawni yn ardal y Bwrdd gan bartneriaid Bwrdd a chyrff eraill a gynrychiolir ar y Bwrdd a gan gyrff eraill â chyfrifoldebau diogelu. Dylai'r protocolau hyn gael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn ddefnyddiol ac yn effeithiol o ran hysbysu a thywys unigolion ac asiantaethau yn eu cyswllt â'r Bwrdd a'u mynediad at wasanaethau amddiffyn amlasiantaethol, ac i fonitro sut mae'r protocolau'n gwella ymatebion a darpariaeth gwasanaethau rhyngasiantaethol yn yr ardal.

**Codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed yn ardal Bwrdd**

124. Dylai Bwrdd Diogelu sicrhau ei fod yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'i amcanion a natur a chwmpas unrhyw gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed yn ei ardal. Rhaid iddo wneud hyn trwy roi cyhoeddusrwydd i'w waith ei hun trwy'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Blynyddol, trwy ymgysylltu a chydweithredu ag asiantaethau proffesiynol a chymunedol eraill a thrwy drafodaethau gyda defnyddwyr ac aelodau'r cyhoedd. Mae rhai Byrddau Diogelu, mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, yn paratoi deunydd am fathau o gamdriniaeth, yr help sydd ar gael a sut i atal camdriniaeth o'r fath i'w ddosbarthu i'r cyhoedd neu boblogaethau sydd wedi eu targedu'n fwy gofalus.

125. Mae'r rhain yn gamau pwysig o ran meithrin perthynas a chreu cyd-ymddiriedaeth rhwng Bwrdd Diogelu a'i gymuned, a chodi ymwybyddiaeth ledled yr ardal o'r angen i ddiogelu plant ac oedolion a all fod angen gofal a chymorth a'u hatal rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a dioddef niwed. Mae rhai Byrddau Diogelu wedi datblygu Strategaeth Gyfathrebu a Phrotocol Cyfryngau fel rhan o ddull strategol o dan Grŵp Rheoli Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

**Adolygu effeithiolrwydd mesurau diogelu lleol**

126. Dylai Bwrdd Diogelu sicrhau effeithiolrwydd y mesurau a gyflwynir yn unigol neu fel rhan o'i gyfrifoldeb fel partner Bwrdd Diogelu. Mae hyn yn berthnasol hefyd i gyrff eraill yn yr ardal nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd ond sydd â chyfrifoldebau diogelu. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i gasglu data gan ei bartneriaid Bwrdd a chyrff eraill ar natur a maint yr angen, y gamdriniaeth a'r niwed y maent yn gweithio gyda nhw. Gall hyn gynnwys y dadansoddiad strategol o anghenion y boblogaeth sy'n ofynnol o dan adran 14 o'r Ddeddf. Mae angen system y gall asiantaethau ei defnyddio i adrodd i'r Bwrdd ar y

mesurau sydd ganddynt ar waith a sut y maent yn gweithio, ac sy'n eu helpu i fod yn barod i gael eu herio. Dylai'r Bwrdd fonitro unrhyw argymhellion a wneir ac effaith unrhyw newidiadau y bydd asiantaethau'n eu gwneud o ganlyniad.

127. Mae'r ddyletswydd i hysbysu ar blant ac oedolion sy'n wynebu risg yn berthnasol i bartneriaid perthnasol yr awdurdod lleol a amlinellir ym mharagraff 20. Mae'r partneriaid perthnasol hyn o'r sector statudol. Er nad yw'r ddyletswydd i hysbysu yn ymestyn i ddarparwyr gofal ac asiantaethau eraill, efallai yr hoffai Byrddau Diogelu werthuso effaith y ddyletswydd i hysbysu ochr yn ochr ag ymwybyddiaeth o arfer sectorau eraill ac asiantaethau sy'n cyfrannu at y gwaith yn eu hardal Bwrdd Diogelu o atgyfeirio plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

128. Mae canfyddiadau archwiliadau achos a gynhelir yn rhyngasiantaethol, yn ogystal â'r hyn a ddysgir o fforymau proffesiynol amlasiantaethol ac adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, yn rhan bwysig o'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd mesurau diogelu. Mae adborth o ganlyniad i ymgysylltu â grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol yn lleol yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr at adolygu effeithiolrwydd.

**Cynnal adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ac archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau eraill, a monitro eu hargymhellion**

129. Gwella polisïau, systemau ac arferion diogelu yw un o swyddogaethau craidd Bwrdd Diogelu. Felly, mae angen i Fwrdd ganolbwyntio ar ddysgu o brofiad ei weithwyr proffesiynol ar draws yr asiantaethau. Rhaid i Fwrdd sefydlu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion lle maent yn bodloni'r meini prawf mewn rheoliadau, yn ogystal ag archwiliadau, adolygiadau achos, adolygiadau thematig ac ymchwiliadau, a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u cefnogi ac yn derbyn adnoddau yn effeithiol. Mae hi hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd fonitro i ba raddau mae unrhyw argymhellion a wneir trwy adolygiadau, archwiliadau ac ymchwiliadau o'r fath yn cael eu cyflawni a beth sydd wedi newid o ganlyniad.

130. Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer plant wedi'u cynnwys yn rheoliad 4 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd yn 2012). **Rhaid** cynnal adolygiadau ymarfer plant cryno lle mae plentyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu lle yr amheuir ei fod wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, o fewn ardal y Bwrdd, a lle mae'r plentyn hwnnw -

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a all beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad; a

lle nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn sy'n derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn -

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad.

**Rhaid** cynnal adolygiadau ymarfer plant estynedig lle mae plentyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu lle yr amheuir ei fod wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, o fewn ardal y Bwrdd, a lle mae'r plentyn hwnnw -

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a all beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad; a

lle'r oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu yn blentyn sy'n derbyn gofal (gan gynnwys person ifanc o dan 18 oed sy'n gadael gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn -

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad.

131. Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion yn cael eu cyflwyno trwy reoliad 4 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 (gweler Atodiad 1). **Rhaid** cynnal adolygiadau ymarfer oedolion cryno lle mae oedolyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu lle yr amheuir ei fod wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, o fewn ardal y Bwrdd, a lle mae'r oedolyn hwnnw –

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a all beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad; a

lle nad yw'r oedolyn, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn y pwyntiau bwled uchod, wedi bod yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau mewn perthynas ag ef i'w amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn unol ag adran 32(1)(b)(i) o'r Ddeddf yn dilyn ymholiadau gan awdurdod lleol o dan adran 126(2) o'r Ddeddf.

**Rhaid** cynnal adolygiadau ymarfer oedolion estynedig lle mae oedolyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu lle yr amheuir ei fod wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, o fewn ardal y Bwrdd, a lle mae'r oedolyn hwnnw –

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a all beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad; a

lle mae'r oedolyn, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn y pwyntiau bwled uchod, wedi bod yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau mewn perthynas ag ef i'w amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn unol ag adran 32(1)(b)(i) o'r Ddeddf yn dilyn ymholiadau gan awdurdod lleol o dan adran 126(2) o'r Ddeddf.

**Rhaid** i adolygiad ymarfer oedolion ystyried i ba raddau y cafodd manylion yr oedolyn eu derbyn gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys i ba raddau y cafodd manylion eu derbyn neu y gallent fod wedi cael eu derbyn gan unigolyn neu asiantaeth fel rhan o broses rhannu gwybodaeth arfer da neu gan bartner perthnasol fel rhan o'r ddyletswydd i hysbysu o dan adran 128 o'r Ddeddf.

Er bod y meini prawf wedi'u gosod ar gyfer adolygiadau ymarfer cryno ac estynedig i sicrhau cysondeb cyfleoedd dysgu Byrddau Diogelu, nid oes unrhyw beth i atal Bwrdd Diogelu rhag defnyddio egwyddorion neu broses adolygiad ymarfer estynedig os yw'n credu bod yna gyfle i ddysgu ac archwilio achos yn fwy eang.

Er na fydd adolygiadau ymarfer yn cael eu cynnal fel arfer mewn perthynas â dioddefwr sy'n byw mewn Carchar neu Ganolfan Cadw Ieuenctid, gan y bydd sefydliadau diogel yn mabwysiadu llwybrau adolygu eraill, dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried cynnwys gweithwyr proffesiynol a sefydliadau a oedd yn gweithio gyda'r plentyn neu'r oedolyn.

132. Dylai'r Bwrdd dderbyn adroddiadau o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion a darparu her broffesiynol wrth drafod y canfyddiadau, yn ogystal â nodi goblygiadau strategol a gwasanaeth gwella systemau ac arferion, a llofnodi'r adroddiad terfynol a'r cynllun gweithredu. Dylai'r Bwrdd sicrhau bod adroddiadau o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ar gael i'r cyhoedd trwy eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd. Yna, dylid sicrhau bod y Bwrdd a phartneriaid y Bwrdd a chyrff eraill a gynrychiolir ar y Bwrdd yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau i gymryd camau effeithiol a bod y canlyniadau'n cael eu monitro. Efallai y bydd yr hyn a ddysgwyd yn llywio'r gwaith o adolygu neu ddatblygu gweithdrefnau amddiffyn Cenedlaethol.

133. Mae ystyried adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd yn ffordd bwysig o sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r her a chymhlethdod y gwaith amddiffyn plant ac oedolion y mae eu staff proffesiynol yn ei gyflawni. Mae angen i'r Bwrdd allu cynnal dealltwriaeth dda o arferion presennol ac annog amgylchedd dysgu cefnogol ledled sefydliadau ac asiantaethau a gynrychiolir ar y Bwrdd.

**Adolygu perfformiad y Bwrdd o ran cyflawni ei gyfrifoldebau**

134. Mae'r cyfrifoldeb dros effeithiolrwydd Bwrdd yn perthyn i'r Bwrdd ei hun ar lefel gorfforaethol ac yn unigol i bob partner Bwrdd Diogelu. Mae'n ofynnol i Fyrddau Diogelu gydgysylltu gweithgareddau pob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd mewn perthynas ag amddiffyn plant ac oedolion a'u hatal rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a sicrhau effeithiolrwydd y gweithgareddau hynny. Yna, bydd gan bob partner Bwrdd Diogelu gyfrifoldeb i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Bwrdd y mae'n cael ei gynrychioli arno yn gweithredu'n effeithiol.

135. Mae gan rai Byrddau Diogelu Fframwaith Perfformiad ac Effaith lle mae mesurau (er enghraifft, rhai sy'n gysylltiedig ag adolygiadau ymarfer plant neu oedolion neu ddatblygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion gan y Bwrdd neu bartneriaid y Bwrdd) yn cael eu cofnodi a'u dadansoddi ar gyfer adolygiad bob blwyddyn. Mae offeryn hunanasesu a ddatblygwyd ar gyfer Byrddau Diogelu Plant (SAIT) yn dal i fod yn ffordd werthfawr o werthuso perfformiad Bwrdd.[6] Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Blynyddol yn bwysig o ran sicrhau bod Bwrdd Diogelu yn atebol i'r cyhoedd am adolygu ei effeithiolrwydd.

**Dosbarthu gwybodaeth am arfer gorau a dysgu**

136. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu diwylliant cadarnhaol o ddysgu a datblygu, dylai Bwrdd Diogelu sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n eang o fewn y gweithlu i'w hysbysu am arfer gorau a dysgu, adolygiadau, archwiliadau a gweithgareddau eraill y Bwrdd. Mae rhai Byrddau Diogelu yn defnyddio eu fforymau proffesiynol amlasiantaethol fel un ffordd o wneud hyn. Mae eraill wedi datblygu cylchlythyr chwarterol ar gyfer y gweithlu cyfan.

137. Mae Bwrdd Diogelu yn gyfrifol hefyd am rannu dysgu gyda Byrddau Diogelu eraill a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Efallai y bydd rhannu o'r fath yn taflu goleuni ar themâu sy'n codi o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion sy'n gyffredin ar draws amryw o Fyrddau y byddent yn elwa ar drafodaeth ehangach. Yn ogystal, mae'r Adroddiad Blynyddol yn gyfrwng ar gyfer rhannu dysgu a gwybodaeth gyda chymuned ehangach ac efallai y deuir o hyd i ffyrdd gwell o hysbysu plant ac oedolion sy'n cael eu heffeithio neu a all fod yn cael eu heffeithio gan swyddogaethau Bwrdd Diogelu.

**Ymchwil i amddiffyn ac atal niwed**

138. Mae deall natur a maint camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed ac effeithiolrwydd gwasanaethau i'w hatal ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn hollbwysig er mwyn gwella sail wybodaeth Bwrdd Diogelu a sicrhau bod penderfyniadau gwybodus yn cael eu gwneud. Felly, dylai Bwrdd Diogelu ddarparu ar gyfer astudiaethau ymchwil a gwerthuso naill ai trwy gynnal neu gomisiynu astudiaethau ar raddfa fach neu drwy gydweithredu ac annog asiantaethau i gydweithredu ag astudiaethau sy'n cael eu cynnal yn lleol neu'n genedlaethol. Mae Bwrdd Diogelu yn y

[6] Gweler J. Horwath a T. Morrison ar gyfer AGGCC (2009) *Self Assessment and Improvement Tool (SAIT) for LSCBs* f.6

sefyllfa ddelfrydol i helpu i gynhyrchu cwestiynau i ymchwilwyr eu harchwilio, felly efallai y bydd yn ceisio meithrin perthynas â sefydliadau academaidd a sefydliadau polisi ac ymchwil eraill er mwyn hyrwyddo a dylanwadu ar arfer da. Dylai Byrddau Diogelu osgoi dyblygu trwy fabwysiadu dull cydgysylltiedig o gomisiynu a dosbarthu ymchwil.

### Adolygu anghenion hyfforddi a sicrhau darpariaeth hyfforddiant

139. Dylai Bwrdd Diogelu sicrhau bod ymarferwyr yn ardal y Bwrdd yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt mewn amddiffyn plant ac oedolion a'u hatal rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a dioddef mathau eraill o niwed, neu'n gallu cael mynediad at yr hyfforddiant hwnnw. Nid yw hyn yn golygu bod **rhaid** i Fwrdd Diogelu ddarparu hyfforddiant o'r fath ei hun, er y gall ddewis darparu rhywfaint o hyfforddiant arbenigol neu ryngasiantaethol fel rhan o raglen ehangach o hyfforddiant rhyngasiantaethol a sefydliadol unigol. Mae angen adolygu a dadansoddi anghenion hyfforddi ymarferwyr yn yr ardal er mwyn hysbysu'r Bwrdd am yr anghenion hynny fel y gall fonitro'r gweithgareddau hyfforddi a ddarperir, nodi'r hyfforddiant sydd ei angen a sicrhau bod asiantaethau yn ei ddarparu.

140. Dylai strategaeth y Bwrdd ar gyfer hyfforddiant yn ei ardal ystyried y themâu a'r dysgu sy'n codi yn lleol neu'n genedlaethol o ganlyniad i archwiliadau, adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, ymchwiliadau a chanfyddiadau ymchwil, a dylai gynnwys sut mae'r rhain yn cael eu hymgorffori mewn gweithgareddau hyfforddi. Mae rhai Byrddau Diogelu wedi sefydlu dull hyfforddi mwy strategol ac yn datblygu a sicrhau ansawdd pecynnau cyson o hyfforddiant a brandio i helpu sefydliadau bach a gwirfoddol gyda'r hyfforddiant y maent yn ei ddarparu. Dylai Byrddau Diogelu fabwysiadu dull cydgysylltiedig i osgoi dyblygu ac i wella gallu trwy gynnal ymwybyddiaeth o weithgareddau hyfforddi rhanbarthol a chenedlaethol.

### Cydweithredu â Byrddau eraill

141. Mae cydweithredu a gwaith amlasiantaethol effeithiol yn rhan annatod o'r gwaith o gyflawni cyfrifoldebau Bwrdd. Nid yw llawer o'r problemau mawr mewn perthynas ag amddiffyn ac atal niwed wedi'u cyfyngu i ardal ddaearyddol un Bwrdd. Felly, bydd angen i Fwrdd gydweithredu neu weithio ar y cyd ag o leiaf un Bwrdd arall mewn perthynas â llawer o'i swyddogaethau gyda'r nod o gyflawni dull mwy cydlynol a chyson ledled Cymru.

142. Efallai y bydd rhai gweithgareddau, gan gynnwys adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, yn cynnwys cydweithredu neu gydweithio â Byrddau Diogelu eraill neu gyrff tebyg o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig sy'n gweithio o dan wahanol awdurdodaethau a gwahanol bolisïau a gweithdrefnau. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen bod yn ofalus i sicrhau eglurder ynglŷn â'r prosesau a'r atebolrwydd sy'n gysylltiedig â gwaith o'r fath.

143. Dylai Bwrdd Diogelu fynd i'r afael â'r materion hyn trwy ei bartneriaid Bwrdd a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd os yw asiantaeth yn darparu gwasanaethau yng Nghymru i ddinasyddion o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig sydd o bosibl yn cael eu cam-drin neu sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg o gael niwed. Rôl y Bwrdd a'i aelodau yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ystyried y gwahanol bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol ym mhob gwlad, gan sicrhau bod anghenion plentyn neu oedolyn sydd angen gofal a chymorth yn cael sylw priodol wrth iddynt asesu, cynllunio, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu'n rhyngasiantaethol.

### Cael cyngor a gwybodaeth arbenigol

144. Cydnabyddir efallai y bydd angen i Fwrdd Diogelu gael cyngor neu wybodaeth arbenigol mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau i'w helpu i gyflawni ei amcanion. Gall hyn gynnwys cael cyngor cyfreithiol, cyflogi cynghorwyr neu ymgynghorwyr arbenigol i alluogi'r Bwrdd i barhau â'i raglen waith neu ymdrin â materion penodol sy'n codi neu gael gwybodaeth am unrhyw un o'i swyddogaethau. Dylai'r penderfyniad i wneud hynny gael ei gytuno gan y cadeirydd neu gan y Bwrdd, fel sy'n briodol, a dylid cytuno ar y canlyniadau ariannu.

### Ymateb i unrhyw hysbysiad i Fwrdd mewn perthynas â'i swyddogaethau

145. Mae'n debygol y bydd Bwrdd Diogelu yn derbyn hysbysiadau ynglŷn â materion yn ymwneud â chyfrifoldebau'r Bwrdd, gan gynnwys hysbysiadau ynglŷn ag amgylchiadau unigolion sy'n byw yn ardal y Bwrdd. Dylai fod systemau ar waith i ymateb yn brydlon i'r hysbysiadau hyn ac, os yn rhesymol a phriodol, dylid darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud ar ôl derbyn yr hysbysiad.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i amcanion Bwrdd

146. Mae'n bwysig bod Bwrdd Diogelu yn gallu ymateb i amgylchiadau a chyfleoedd sy'n codi wrth gyflawni ei amcanion i amddiffyn ac atal camdriniaeth a niwed mewn ardal. Gall hyn fod o ganlyniad i roi *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ar waith, anogaeth gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol neu ddatblygiadau polisi eraill, neu oherwydd newidiadau yn yr amgylchedd allanol. Felly, gall Bwrdd Diogelu gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch arall y teimlai y byddai'n ei helpu i gyflawni ei weithgareddau.

### Datblygu gweithdrefnau amddiffyn cenedlaethol a rhanbarthol

147. Er nad oes yna ofyniad statudol i sefydlu fforymau amddiffyn plant neu amddiffyn oedolion, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod eu cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu prosesau diogelu a'r ffaith eu bod yn atgyfnerthu gwaith partneriaeth. Felly, anogir

Byrddau Diogelu i hyrwyddo cydweithredu rhyngasiantaethol o'r fath a chefnogi gwaith y grwpiau canlynol yn y dyfodol:

- Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan; a
- Grŵp Cydgysylltwyr Amddiffyn Oedolion Cymru

**Byrddau Diogelu a'r Ystad Ddiogeledd**

148. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn bartneriaid statudol ar fyrddau diogelu oedolion a byrddau diogelu plant o dan adrannau 134(2)(e) ac (f) o'r Ddeddf.

149. Nid yw llywodraethwyr carchardai yn bartneriaid dynodedig byrddau diogelu, felly nid oes angen iddynt fod yn aelod o'r bwrdd. Mae'r byrddau yn fforwm ar gyfer cyfnewid cyngor ac arbenigedd, ac mae gwahodd llywodraethwr i gymryd rhan mewn trefniadau bwrdd diogelu os oes carchar o fewn ffiniau'r bwrdd yn debygol o gynorthwyo aelodau'r bwrdd a llywodraethwyr i sicrhau bod y rhai yn yr ystad ddiogeledd yn cael eu diogelu'n effeithiol.

150. Mae Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 16/2015[7], Diogelu Oedolion mewn Carchardai, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, yn nodi bod byrddau diogelu sydd â charchardai yn eu hardal yn cael eu hannog i wahodd llywodraethwyr carchardai i fod yn aelodau o'r bwrdd a bod llywodraethwyr yn cael eu hannog i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r bwrdd diogelu a dod yn aelodau ohono (neu anfon cynrychiolydd).

151. Gall byrddau diogelu gymryd diddordeb strategol yng ngwaith diogelu'r carchar, a/neu ddarparu cyngor a chymorth ynglŷn â sut i reoli carcharorion sydd ag anghenion gofal a chymorth y mae pryderon diogelu yn ymwneud â nhw.

152. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd byrddau yn awyddus i gyfrannu pan fydd unigolyn ar fin cael ei ryddhau a bod modd dysgu o'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith yn yr ystad ddiogeledd gan y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau ei ddiogelwch yn y gymuned. Fel rhan o'u trefniadau cyfranogi, gall byrddau ddymuno cynnig cyfleoedd ar gyfer carcharorion ag anghenion gofal a chymorth i gyfrannu at eu gwaith, er enghraifft drwy gynnal grwpiau ymgynghori â charcharorion. Mae llywodraethwyr yn cael eu hannog i rannu gwybodaeth berthnasol a hwyluso mynediad i garcharorion fel sy'n briodol.

**Diogelu oedolion**

153. Mae byrddau diogelu oedolion yn gyfrifol am amddiffyn oedolion yn eu hardaloedd sydd ag anghenion gofal a chymorth ac sy'n dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, neu sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod. Hefyd, maent yn gyfrifol am amddiffyn oedolion rhag y perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

---

[7] http://www.justice.gov.uk/offenders/psis

154. Law yn llaw â’r ddyletswydd hon, mae NOMS wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 16/2016[8] sy’n berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae’r Cyfarwyddyd hwn yn nodi’r prosesau y mae’n **rhaid** i lywodraethwyr carchardai eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael eu hamddiffyn i’r un graddau ag oedolion yn y gymuned, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth ac sy’n methu â’u hamddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth neu esgeulustod, neu’r risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.

155. Mae Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 16/2015, Diogelu Oedolion mewn Carchardai, yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ac mae’n nodi bod yn **rhaid** i lywodraethwyr carchar wneud y canlynol:

- **rhaid** penodi pennaeth gweithredol sydd â chyfrifoldeb arweiniol am faterion diogelu oedolion;
- **rhaid** bod â systemau ar waith i amddiffyn carcharorion sy’n oedolion yn erbyn camdriniaeth ac esgeulustod;
- **rhaid** bod â systemau ar waith fel bod staff, carcharorion ac eraill yn gallu hysbysu am ddigwyddiadau cam-drin neu esgeuluso honedig, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o’u cyfrifoldeb i wneud hynny;
- **rhaid** bod â systemau ar waith i gofnodi ac ymateb i honiadau o gam-drin neu esgeuluso, gan gynnwys amddiffyn y sawl sy’n cwyno / hysbysu yn erbyn erledigaeth;
- **rhaid** sicrhau bod data yn cael ei gasglu yn ymwneud â phob honiad a gofnodir o gam-drin neu esgeuluso, a bod dadansoddiad o’r data hwn yn llywio camau gweithredu i wella arferion a gweithdrefnau perthnasol;
- **rhaid** eu hannog i ymgysylltu â byrddau diogelu – gan gydnabod eu bod yn fforymau ar gyfer cyfnewid cyngor ac arbenigedd; yn ffynhonnell cyngor a chymorth; ac yn debygol o gynorthwyo llywodraethwyr i sicrhau bod carcharorion yn cael eu diogelu’n effeithiol.

156. Bydd byrddau diogelu a llywodraethwyr carchardai eisiau sefydlu dulliau o nodi’n glir sut y bydd eu dyletswyddau a’u cyfrifoldebau cyffredin i ddiogelu oedolion yn cael eu gweithredu mewn ffordd gydlynol a chyfreithlon.

157. Yn benodol, bydd awdurdodau lleol eisiau cydweithio â llywodraethwyr carchardai i sefydlu dulliau o nodi’n glir drefniadau’r awdurdod lleol ar gyfer cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 126 o’r Ddeddf o ganlyniad i dderbyn adroddiad o dan adran 128, neu adroddiad arall, sy’n nodi bod oedolyn mewn perygl. Mae’r ddyletswydd adran 126 yn nodi bod yn **rhaid** i awdurdod lleol wneud y canlynol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod oedolyn yn ei ardal yn oedolyn sy’n wynebu risg yn unol â diffiniad adran 126(1):

[8] http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-16-2015-adult-aafeguarding-in-prisons.pdf

- **rhaid** gwneud ymholiadau, neu beri iddynt gael eu gwneud, i alluogi'r awdurdod lleol i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau (p'un ai o dan y Ddeddf neu fel arall) ac, os felly, pa gamau a chan bwy; a
- **rhaid** penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath.

158. Bydd angen i drefniadau o'r fath adlewyrchu'r angen i sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni yn unol â'r addasiadau gofynnol sy'n deillio o gadw oedolyn yn yr ystad ddiogeledd a dyletswyddau sy'n gorgyffwrdd llywodraethwr y carchar o dan Gyfarwyddyd statudol perthnasol y Gwasanaeth Carchardai.

159. Mae Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai 15/2014[9] a 05/2014[10] sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr yn pennu gofynion y gwasanaeth ar gyfer ymchwiliadau a dysgu gwersi yn dilyn achosion o hunan-niwed difrifol neu ymosodiadau difrifol, a diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

**Diogelu plant**

160. Ym mis Tachwedd 2002, dyfarnodd yr Uchel Lys fod dyletswyddau awdurdodau lleol o dan Ddeddf Plant 1989 i ddarparu ystod briodol o wasanaethau ar gyfer plant mewn angen yn berthnasol i blant sy'n cael eu cadw yn yr ystad ddiogeledd hefyd. (Cyfeirir at hyn fel dyfarniad Munby hefyd). Hefyd, dyfarnodd yr Uchel Lys fod deddfwriaeth hawliau dynol, a Deddf Hawliau Dynol 1998 yn benodol, yn berthnasol i blant mewn cyfleusterau cadw.

161. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau bod eu cynrychiolydd yn ymweld ag unrhyw blentyn sy'n preswylio fel arfer yn eu hardal ond sydd wedi'i gadw yn yr ystad ddiogeledd (p'un ai a yw'n cael ei gadw yng Nghymru neu yn Lloegr). Diben yr ymweliad yw cael sgwrs breifat â'r plentyn a llunio adroddiad ysgrifenedig ynglŷn ag a yw lles y plentyn yn cael ei ddiogelu'n ddigonol; amlder ymweliadau yn y dyfodol; trefniadau i hyrwyddo cyswllt â theulu'r plentyn ac asesiad o sut y diogelir lles y plentyn ar ôl ei ryddhau.

162. Yng Nghymru, mae plant yn cael eu lletya naill ai yng Nghartref Diogel i Blant Hillside neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Mae Cartref Diogel i Blant Hillside yn cael ei reoli gan yr awdurdod lleol, ac mae'n cael ei gofrestru a'i arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r rheolwr cofrestredig yn gyfrifol am y trefniadau diogelu yn y cartref diogel i blant o dan oruchwyliaeth yr awdurdod lleol.

163. Mae'n **rhaid** i fyrddau diogelu a'r cartref diogel i blant sefydlu dulliau o nodi'n glir sut y bydd eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyffredin i ddiogelu plant mewn cartref diogel i blant yn cael eu gweithredu mewn ffordd gydlynol a chyfreithlon er mwyn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni yn unol â'r addasiadau gofynnol sy'n deillio o gadw plentyn yn yr ystad ddiogeledd.

[9] http://www.justice.gov.uk/offenders/psis/prison-service-instructions-2014
[10] http://www.justice.gov.uk/offenders/psis/prison-service-instructions-2014

164. Mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn gweithredu o dan gontract a reolir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn amodol ar Gyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 08/2012 - Rheoli a Gofalu am Bobl Ifanc. Mae Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 08/2012 yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad diogel yn yr ystad ddiogeledd ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed lunio a chyhoeddi datganiad polisi diogelu plant ar ôl sicrhau cytundeb y bwrdd diogelu plant lleol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r datganiad gael ei adolygu bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â'r bwrdd diogelu plant lleol.

165. Bydd Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 08/2012,[11] sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016, a bydd yn cael ei adolygu a'i ailgyhoeddi yng Nghymru i adlewyrchu'r newidiadau statudol sy'n deillio o Ddeddf 2014. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys y ffaith na fydd llywodraethwyr sefydliadau troseddwyr ifanc yn bartneriaid dynodedig y byrddau diogelu bellach, ac y bydd byrddau diogelu plant yn disodli byrddau diogelu plant lleol o fis Ebrill 2016 ymlaen. Fel gofyniad sylfaenol, mae'n **rhaid** i fyrddau diogelu a llywodraethwyr gydymffurfio â'r gofynion presennol, yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad arfaethedig o Gyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai.

## Canllawiau ar weithdrefnau Byrddau Diogelu

### Aelodaeth Byrddau Diogelu

166. Mae adran 134(2) o Ddeddf 2014 yn nodi bod y canlynol yn bartneriaid Bwrdd Diogelu:

- yr awdurdod lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd Diogelu;
- prif swyddog heddlu unrhyw ardal yr heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd Diogelu;
- y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd Diogelu;
- unrhyw Ymddiriedolaeth y GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal y Bwrdd Diogelu;
- yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau ei fod yn cyflawni swyddogaethau o dan adran 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 mewn perthynas â Chymru;
- Unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae trefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo weithredu fel partner Bwrdd Diogelu mewn perthynas ag ardal y Bwrdd Diogelu.

167. **Rhaid** i Fwrdd Diogelu gynnwys cynrychiolydd o bob partner Bwrdd Diogelu a nodwyd uchod sydd â lefel ddigonol o gyfrifoldeb i sicrhau'r gallu i wneud penderfyniadau effeithiol fel a ganlyn:

[11] http://www.justice.gov.uk/offenders/psis/prison-service-instructions-2012

- ar gyfer yr awdurdod lleol, mae yna amryw o swyddogaethau statudol allweddol y bydd angen eu hadlewyrchu ar y Byrddau Diogelu Plant a'r Byrddau Diogelu Oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys, ymysg pethau eraill, swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Addysg, y Cyfarwyddwr Tai a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â'r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau oedolion neu'r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau plant os nad yw'r dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni gan y Cyfarwyddwyr a nodir uchod. Yn absenoldeb y Cyfarwyddwr perthnasol, gall swyddog arall sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr ac sydd â digon o gyfrifoldeb i gynrychioli'r awdurdod fod yn bresennol yn ei le.

168. Gan fod Byrddau Diogelu yn cael eu ffurfweddu yn rhanbarthol, gan gwmpasu amryw o wahanol awdurdodau lleol, bydd yr awdurdodau hynny am ystyried a chytuno ar fecanweithiau addas i sicrhau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cynrychioli mewn ffordd addas. Dylai hyn helpu'r Bwrdd i wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol a lleihau'r potensial o ddiffyg cydbwysedd rhwng cynrychiolaeth asiantaethau ar y Bwrdd.

- ar gyfer yr heddlu, ar gyfer unrhyw ardal yr heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd, swyddog yr heddlu;
  I. Sy'n arolygydd o leiaf; ac
  II. Y mae'r prif swyddog wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddo mewn perthynas ag amddiffyn plant ac oedolion.

- ar gyfer bwrdd Iechyd Lleol, ar gyfer unrhyw ardal y mae unrhyw ran ohoni yn perthyn i ardal y Bwrdd;
  I. Swyddog arweiniol y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer gwasanaethau plant a'r prif swyddog ar gyfer gwasanaethau oedolion neu swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol iddynt ac sydd â digon o gyfrifoldeb i weithredu fel cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn lle'r swyddog arweiniol;
  II. Meddyg teulu cofrestredig sydd â chyfrifoldebau penodol mewn perthynas ag amddiffyn plant o fewn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol;
  III. Nyrs gofrestredig sydd â chyfrifoldebau penodol mewn perthynas ag amddiffyn plant a'r cyfarwyddwr nyrsio mewn perthynas ag amddiffyn oedolion o fewn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol.

- ar gyfer Ymddiriedolaeth y GIG sy'n darparu gwasanaeth yn ardal yr awdurdod, cyfarwyddwr gweithredol arweiniol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer diogelu plant ac oedolion neu ryw swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol iddo ac sydd â lefel ddigonol o gyfrifoldeb i weithredu fel cynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth yn lle'r cyfarwyddwr gweithredol arweiniol;

- ar gyfer unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf sy'n ofynnol trwy drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 i weithredu fel partner Bwrdd Diogelu

mewn perthynas ag ardal y Bwrdd Diogelu, y prif swyddog, cyfarwyddwr neu unigolyn sydd â lefel ddigonol o gyfrifoldeb i gynrychioli'r Bwrdd yn lle'r prif swyddog.

Nid yw'r rheoliadau yn nodi unrhyw berson neu gorff arall fel partner Bwrdd Diogelu, fel y caniateir o dan adran 134(6)(b), (7) ac (8).

**Aelodau eraill y Bwrdd**

169. Gall Bwrdd Diogelu gynnwys cynrychiolwyr pobl neu gyrff eraill os ydynt yn cyflawni swyddogaethau neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn perthynas â phlant neu oedolion a all fod angen gofal a chymorth yn ardal y Bwrdd Diogelu. Y Bwrdd Diogelu ei hun fydd yn gwneud y penderfyniad hwn. Bydd nifer y cynrychiolwyr o gyrff unigol fydd yn aelodau o Fwrdd Diogelu yn cael ei bennu yn lleol.

170. Mae aelodaeth gyfatebol yn allweddol h.y. dylai cynrychiolydd o'r Bwrdd Diogelu Oedolion fod yn aelod o'r Bwrdd Diogelu Plant, ac fel arall.

171. Nid yw cyrff rheoleiddio ac arolygiaethau yn cael eu cynrychioli ar y Byrddau Diogelu. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod mecanweithiau ymgysylltu clir yn cael eu pennu yn lleol ym mhob ardal Bwrdd Diogelu i sicrhau cysylltiadau, cyfathrebu a chyfraniad effeithiol at yr agenda gwella. Gall mecanweithiau o'r fath gynnwys cais rheoleiddiwr neu wahoddiad y Bwrdd i fynd i gyfarfod y Bwrdd i gymryd rhan mewn trafodaeth benodol, neu gyfraniad ehangach trwy weithgarwch datblygu a dargedir.

**Aelodaeth y Bwrdd**

172. Disgwylir i Fwrdd gadw rhestr o'r bobl hynny y maent yn cynrychioli partner Bwrdd Diogelu neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd. Dylai presenoldeb y bobl hynny yng nghyfarfodydd y Bwrdd gael ei fonitro.

173. Dylai penodiadau newydd i Fwrdd Diogelu dderbyn datganiad o'r disgwyliadau a'r ymrwymiad sy'n ofynnol gan aelod o'r Bwrdd (mewn rhai Byrddau Diogelu, mae'r datganiad hwn yn cael ei ddisgrifio fel 'proffil rôl' y mae angen ei lofnodi) a dilyn cwrs fel eu bod yn cyfarwyddo â swyddogaethau a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd Diogelu yn gwbl ymwybodol o'u hatebolrwydd i'w gilydd ac i'r Bwrdd, gan gyflawni eu cyfrifoldeb ar y cyd – **rhaid** i bob partner Bwrdd Diogelu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Bwrdd Diogelu y mae'n cael ei gynrychioli arno yn gweithredu'n effeithiol (gweler adran 139(4) o'r Ddeddf.)

**Sefydliadau neu unigolion eraill**

174. Dylai Bwrdd Diogelu wneud trefniadau priodol ar lefel strategol i ymgysylltu ag eraill yn ei waith yn ôl yr angen. Bydd yr ymgysylltu hwn yn galluogi'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion o ran amddiffyn dinasyddion a'u hatal rhag dioddef niwed. Er enghraifft, efallai y bydd

angen ymgysylltu â rhai sefydliadau neu unigolion sy'n cael eu cynrychioli gan bartneriaid Bwrdd Diogelu oherwydd eu rôl yn darparu gwasanaethau i blant a'u teuluoedd neu i oedolion sy'n wynebu risg, neu oherwydd eu rôl yn amddiffyn y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau unigryw Timau Troseddau Ieuenctid. Bydd sefydliadau eraill y bydd angen i Fwrdd Diogelu wneud cysylltiadau â nhw wrth gyflawni ei swyddogaethau.

175. Efallai y bydd mecanweithiau ymgysylltu eraill yn fwy priodol. Efallai yr hoffai Bwrdd wahodd rhai asiantaethau neu unigolion i gyfarfodydd y Bwrdd, is-grwpiau neu weithgorau i arsylwi neu roi cyngor proffesiynol. Bydd Bwrdd hefyd am sefydlu dulliau cyfathrebu gyda rhai unigolion, sefydliadau neu bartneriaethau yn rheolaidd neu'n gyfnodol, yn ogystal â meithrin ymgysylltu trwy rwydweithiau a fforymau presennol neu drwy annog datblygiad rhwydweithiau a fforymau addas.

176. Gall y gwaith ymgysylltu gael ei gynnal gyda sefydliadau ac unigolion perthnasol o'r sector Statudol, y sector Annibynnol a'r trydydd sector. Mae gan gynrychiolwyr o'r sector Annibynnol a'r trydydd sector gyfraniad sylweddol i'w wneud ochr yn ochr â phartneriaid Bwrdd Diogelu ac asiantaethau statudol a bydd Byrddau Diogelu am drafod y ffordd orau o sicrhau cyfranogiad cynrychiolwyr o'r fath ar lefel Bwrdd, is-grŵp neu grŵp gorchwyl a gorffen. Mae rhestr enghreifftiol o sefydliadau lleol y dylid ystyried eu cynnwys fel aelodau wedi'i hatodi yn atodiad 2.

177. Mewn ardaloedd lle mae eu gweithgarwch lleol yn sylweddol, gall y lluoedd arfog (mewn perthynas â theuluoedd milwyr a'r personél hynny sydd o dan 18 oed), y Gwasanaeth Mewnfudo a'r Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches gael eu cynnwys mewn gwaith ymgysylltu â'r Byrddau Diogelu perthnasol.

178. Yn yr un modd, ar gyfer ardaloedd Bwrdd Diogelu â Charchardai neu ganolfannau cadw diogel, bydd Byrddau Diogelu am sicrhau bod cysylltiadau effeithiol yn cael eu meithrin gyda Charchardai a'r gwasanaethau prawf i helpu i gyflawni swyddogaethau atal ac amddiffyn Byrddau Diogelu.

179. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, gall gweithwyr y gwasanaeth tân ddod ar draws plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Er enghraifft; ar safle tân (e.e. plant neu oedolion dibynnol ar eu pennau eu hunain), yn ystod gwiriadau diogelwch tân yn y cartref neu ymweliadau diogelwch tân, wrth ymchwilio i achosion o losgi bwriadol, neu wrth roi cyflwyniad i grwpiau ysgol a grwpiau ieuenctid neu i'r cyhoedd. Hefyd, gall pryderon ddeillio o amgylchiadau tân neu batrwm lleoliad tân.

180. O ganlyniad, mae'n bwysig bod Byrddau Diogelu yn gwneud cysylltiadau effeithiol ag Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn cydnabod eu cyfraniad gwerthfawr at ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Oherwydd natur ac ehangder eu gwaith gydag oedolion a phlant, bydd Byrddau Diogelu yn awyddus i sicrhau bod gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub yn deall pryd a sut i hysbysu am bryderon yn y modd priodol. Yn yr un modd, dylai

asiantaethau ddarparu gwybodaeth am bobl agored i niwed i'r Awdurdodau Tân ac Achub lle bo hynny'n eu galluogi i nodi aelodau'r cyhoedd a fyddai'n elwa ar eu gwaith ataliol, er enghraifft, gwiriadau diogelwch tân yn y cartref gyda phobl sy'n wynebu risg uwch o fod yn rhan o ddigwyddiad tân.

181. Yn flaenorol, roedd gwaith craffu a chyfrannu yn cael ei gyflawni gan aelodau gweithredol o sefydliadau statudol megis Aelodau Etholedig lleol ac aelodau o Fwrdd Gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol; bydd parhad unrhyw swyddogaethau o'r fath trwy aelodaeth Byrddau Diogelu neu fecanweithiau amgen i gyfrannu at rôl Ddiogelu ehangach y Bwrdd yn cael ei bennu gan y Bwrdd.

**Penodi cadeirydd ac is-gadeirydd Bwrdd Diogelu**

182. **Rhaid** i Fwrdd, trwy benderfyniad mwyafrifol, benodi un o'i aelodau i fod yn gadeirydd. Gall y cadeirydd fod yn bartner Bwrdd neu o gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd, a gall y gadeiryddiaeth gylchdroi rhwng partneriaid y Bwrdd a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd. Wrth i Fyrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion ddatblygu, gall y cadeirydd fod yn bartner Bwrdd neu o gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd Diogelu arall yn yr un ardal. Gall y penodiad fod am gyfnod o hyd at dair blynedd ac, ar ddiwedd y tair blynedd, yn amodol ar benderfyniad mwyafrifol, gall y penodiad gael ei ymestyn am gyfnod arall o hyd at dair blynedd.

183. **Rhaid** i Fwrdd, trwy benderfyniad mwyafrifol, benodi un o'i aelodau i fod yn is-gadeirydd hefyd. Efallai y bydd hi o fudd i Fwrdd Diogelu gael is-gadeirydd o wahanol bartner Bwrdd neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd i'r cadeirydd. Dylai penodiad is-gadeirydd fod am hyd at dair blynedd hefyd, gyda'r opsiwn i'w adnewyddu am gyfnod arall o hyd at dair blynedd.

184. Mae rôl cadeirydd Bwrdd Diogelu yn allweddol i sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd. Gyda chymorth is-gadeirydd, rheolwr busnes a staff yr uned fusnes, y cadeirydd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyrraedd consensws ynghylch strategaeth a chynllun blynyddol y Bwrdd Diogelu a datblygu gwaith gweithredol y Bwrdd.

185. Y cadeirydd sy'n gyfrifol am feithrin cysylltiadau, cyd-ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth ymhlith partneriaid Bwrdd a chyrff eraill a gynrychiolir ar y Bwrdd, a sicrhau eu cyfraniad gweithredol. Mae cyfrifoldebau Bwrdd Diogelu yn gofyn am aelodau ymroddgar, gweithgar ac ysbrydoledig sy'n cael eu harwain yn gryf. Mae'r cadeirydd yn hollbwysig er mwyn sicrhau cefnogaeth lawn a chyson partneriaid Bwrdd a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd.

186. Mae cadeirydd Bwrdd hefyd yn cyflawni rôl gyfryngu bwysig rhwng y Bwrdd a chadeiryddion Byrddau Diogelu a chyrff allanol eraill, yn enwedig y Bwrdd Diogelu

Annibynnol Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, partneriaethau a fforymau eraill a'r cyfryngau.

187. Dylai proffiliau rôl / manylebau person gael eu llunio ar gyfer y rolau cadeirydd ac is-gadeirydd fel bod cyfrifoldebau a chwmpas y rolau hyn yn cael eu cydnabod yn llawn. Bydd manyleb y person yn cynnwys profiad o gadeirio ac ystod eang o sgiliau rhyngbersonol megis cyfathrebu, cyfryngu a thrafod, pragmatiaeth, yr hyder a'r gostyngeiddrwydd i dderbyn beirniadaeth a'r gallu i fod yn bendant, i ddelio ag argyfyngau yn effeithiol, i herio aelodau'r bwrdd ar gamau gweithredu a chanlyniadau ac i ddehongli a thrafod gwybodaeth a gyflenwir.

188. Dylai'r Bwrdd gadw cofnod ysgrifenedig o'i drafodion i adlewyrchu trafodaethau a chamau gweithredu. Felly, bydd unrhyw safbwyntiau, sylwadau a thystiolaeth y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a chamau'n cael eu cymryd yn seiliedig arnynt wedi'u dogfennu.

**Cyfrannu at waith Byrddau Diogelu**

189. Mae adran 135(4) (c) o'r Ddeddf yn nodi bod yn **rhaid** i Reoliadau nodi pryd a sut y dylai plant neu oedolion sy'n cael eu heffeithio neu a all gael eu heffeithio gan swyddogaethau Bwrdd Diogelu gael cyfle i gyfrannu at waith y Bwrdd. Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 (Atodiad 1) yn nodi bod yn **rhaid** i Fyrddau Diogelu roi cyfle i blant neu oedolion gyfrannu at waith y Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn. Y ffordd symlaf o wneud hyn fyddai trwy gynnwys grwpiau ieuenctid neu ddefnyddwyr neu ofalwyr presennol yn y gwaith o gynllunio'r digwyddiad gyda'r Bwrdd Diogelu.

190. Bydd angen gwneud gwaith ymgysylltu bob blwyddyn, gyda digon o amser i alluogi'r Bwrdd i adrodd ar ganlyniadau'r ymgysylltu hwnnw a chyhoeddi ei gynllun cyn dechrau pob blwyddyn ariannol (er mwyn bodloni'r gofyniad o dan adran 136(1) o'r Ddeddf).

191. Bydd Byrddau Diogelu yn ystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd y cyfle i gynnwys defnyddwyr yn y darnau o waith penodol a gyflawnir gan y Bwrdd, a pha mor briodol fyddai eu cynnwys. Bydd effeithiolrwydd ac effaith o ran canlyniadau unrhyw gyfraniad a wnaed yn ystod y cyfnod yn arwain at bob cyfarfod Bwrdd yn cael ei werthuso hefyd. Bydd canlyniad y gweithgarwch hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y Bwrdd Diogelu (fel sy'n ofynnol gan adran 136 (2) o'r Ddeddf).

192. **Rhaid** i Fyrddau Diogelu weithio o fewn ethos y thema Llais a Rheolaeth sy'n sail i'r Ddeddf er mwyn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Bydd gwaith Byrddau Diogelu yn cael ei lywio'n well trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n cael eu heffeithio a fydd, yn ei dro, yn helpu'r Bwrdd gyda'i waith blaengynllunio a gwerthuso perfformiad.

193. Dylai cyfleoedd i gyfrannu at waith y Byrddau Diogelu gael eu rheoli gan y Byrddau Diogelu a'u cyflawni, os yn bosibl, trwy gyrff eirioli a strwythurau presennol fel sy'n briodol.

194. **Rhaid** i Fyrddau Diogelu sicrhau bod y cyfraniad mor gynhwysol â phosibl o ystyried gwahanol anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y Bwrdd Diogelu yn nodi sut y bydd yn rhoi cyfle i blant ac oedolion gyfrannu at waith y Bwrdd trwy'r cynigion yn ei gynllun blynyddol a bydd yn gwerthuso effeithiolrwydd ei weithgareddau trwy ei adroddiad blynyddol. Bydd cynnwys y grwpiau ieuenctid neu ddefnyddwyr presennol yn yr ymarfer cynllunio hwn yn helpu i sicrhau mwy o gyfraniad gan bobl sy'n cael eu heffeithio gan waith y Bwrdd Diogelu.

195. Nid yw hi'n ofynnol i blant neu oedolion a all fod angen gofal a chymorth fod yn aelodau o'r Byrddau Diogelu. Os bydd Bwrdd Diogelu yn penderfynu cynnig cyfle o'r fath, efallai y bydd angen gwneud addasiadau i sicrhau bod cyfarfod y Bwrdd Diogelu yn gwbl hygyrch. Efallai y bydd y Bwrdd Diogelu yn ei chael hi'n anodd deall cynrychiolaeth eang o anghenion os mai dim ond un unigolyn fydd yn mynychu cyfarfod y Bwrdd. Yn ogystal, efallai y bydd yna anawsterau logistaidd o ran sicrhau cyfraniad gan blant ac oedolion o ystyried maint daearyddol yr ardaloedd Bwrdd Diogelu a natur anableddau rhai pobl. Efallai y bydd yna amrywiaeth o fecanweithiau eraill a fydd yn cynnig cyfleoedd addas, ystyrlon a chynhyrchiol i blant ac oedolion gyfrannu at waith y Bwrdd. Dylai grwpiau ieuenctid neu ddefnyddwyr presennol fod yn rhan o drafodaethau ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu'r cyfleoedd addas hyn.

196. Nid yw'r trefniadau a'r strwythurau y gall Byrddau Diogelu eu defnyddio i gynnig cyfleoedd i gyfrannu wedi'u nodi. Yn hytrach, dylai Byrddau Diogelu asesu anghenion a thueddiadau'r boblogaeth o fewn eu hardal Bwrdd Diogelu i bennu cyfleoedd ar gyfer darnau o waith penodol. Cydnabyddir y bydd dull sydd wedi ei dargedu'n fwy gofalus yn darparu ar gyfer yr ymgysylltu sy'n ofynnol ar gyfer gweithgareddau penodol a gyflawnir gan fyrddau diogelu wrth gyflawni eu swyddogaethau.

197. Efallai yr hoffai Byrddau Diogelu ystyried y mecanweithiau, y prosesau a'r strwythurau sydd eisoes ar waith mewn rhannau o Gymru fel rhan o'r gwaith o bennu a gwneud trefniadau addas ar gyfer eu hardal Bwrdd Iechyd eu hunain:

- efallai y bydd Byrddau Diogelu Plant lau sirol yn parhau fel y maent, gyda chyswllt newydd wedi'i sefydlu rhwng y byrddau hyn a'r Bwrdd Diogelu Plant rhanbarthol;
- gallai Byrddau Diogelu Plant Iau sirol uno i greu Byrddau Diogelu Plant Iau neu Fforymau Diogelu Ieuenctid rhanbarthol a fyddai'n cael eu sefydlu'n ffurfiol gan y Byrddau Diogelu Plant perthnasol. Gallai Fforymau Diogelu Ieuenctid benodi nifer o'i aelodau (i'w bennu'n lleol) i gyfarfod ag unigolion allweddol o'r Bwrdd Diogelu i ystyried materion perthnasol;

- gallai trefniadau tebyg ar gyfer Byrddau Diogelu Oedolion Cysgodol Rhanbarthol gael eu sefydlu gan y Byrddau Diogelu Oedolion. Bydd angen ystyried sut i sicrhau cynrychiolaeth effeithiol ar y Bwrdd;
- gallai un o aelodau'r Bwrdd Diogelu gael ei benodi yn hyrwyddwr ymgysylltu, hyrwyddwr pobl ifanc neu hyrwyddwr oedolion i hwyluso cyfathrebu cyfatebol rhwng y Bwrdd o ran effaith ei waith ar ddefnyddwyr a'r materion a nodwyd gan ddefnyddwyr y dylai'r Bwrdd Diogelu fod yn ymwybodol ohonynt;
- mae fforymau ieuenctid ysgolion a chynghorau ysgol yn enghreifftiau o strwythurau y gellid eu defnyddio;
- gallai Grwpiau Diogelu Defnyddwyr Rhanbarthol ddod ynghyd unwaith neu ddwy y flwyddyn, efallai o dan nawdd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol;
- gall gweithdai â thema fod yn ffordd o ymgysylltu â mwy o bobl ar lefel Bwrdd Diogelu neu Fwrdd Cenedlaethol;
- mae prosiectau cymunedol a phontio'r cenedlaethau sy'n gysylltiedig â fforymau 50+ a grwpiau hawliau anabledd – er enghraifft, People First – yn enghreifftiau o strwythurau y gellid eu defnyddio.

198. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau cynrychiolaeth mor eang â phosibl o ystyried y nifer sylweddol o fathau o grwpiau cymorth anabledd ac ati a fydd ar gael ym mhob ardal. Dylid ystyried anghenion pobl ifanc nad ydynt mewn addysg lawn amser a'r rhai sy'n gadael, neu sydd newydd afael gofal yr awdurdod lleol neu eraill sydd yn y cyfnod pontio.

199. Bydd cylch gorchwyl, gweithdrefnau, trefniadau adrodd ac ati unrhyw strwythurau iau neu gysgodol y bydd Byrddau Diogelu yn penderfynu eu rhoi ar waith yn cael eu pennu'n lleol. Fodd bynnag, os yn bosibl, dylai trefniadau gael eu rhannu gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i'w alluogi i rannu arfer gorau fel y gall Byrddau Diogelu eraill yng Nghymru ystyried unrhyw ddysgu sy'n berthnasol i'w hardal Bwrdd Diogelu eu hunain. Mae yna oblygiadau ariannol ar gyfer mentora plant, pobl ifanc ac oedolion i gefnogi eu cyfranogiad. Gall hyn gynnwys ystyried eiriolaeth, hyfforddiant, cludiant a lleoliadau ac ati, a bydd angen i Fyrddau Diogelu gynnwys costau o'r fath yn eu cynlluniau ariannol.

200. Efallai yr hoffai Byrddau Diogelu ystyried yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu manylion defnyddiol am y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

201. Bydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn ystyried y trefniadau a wneir gan Fyrddau Diogelu i sicrhau bod llais y defnyddiwr yn cael ei glywed ac, fel sy'n briodol, yn rhannu enghreifftiau ledled Cymru o ble mae Byrddau Diogelu wedi defnyddio mecanweithiau llwyddiannus ac arloesol i roi cyfle i ddefnyddwyr gyfrannu at eu gwaith.

**<u>Cynlluniau blynyddol ac adroddiadau blynyddol Byrddau Diogelu</u>**

202. Mae Rheoliadau 5 a 6 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 (Atodiad 1) wedi'u gwneud o dan adran 136 (3) o'r Ddeddf ynghylch cynlluniau ac adroddiadau Byrddau Diogelu. Mae'r rheoliadau hynny yn ymwneud â ffurf a chynnwys y cynlluniau a'r adroddiadau, ynghyd â sut y byddant yn cael eu cyhoeddi. Mae'r Ddeddf, a ategir gan y rheoliadau, yn nodi pryd a sut y dylai'r cynlluniau a'r adroddiadau blynyddol gael eu cyhoeddi ac yn nodi cynnwys y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol.

203. Mae diben y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol yn ddeublyg; byddant yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau atebolrwydd ac yn adnoddau gwerthuso defnyddiol. Yn y cyd-destun hwn, mae yna dair elfen i atebolrwydd, sef:-

- atebolrwydd i'r cyhoedd;
- atebolrwydd i'r asiantaethau statudol y mae'r partneriaid Bwrdd Diogelu yn perthyn iddynt; ac
- atebolrwydd i'r cyrff arolygu.

204. Mae cyhoeddi yn rhan allweddol o'r gwaith o sicrhau atebolrwydd. Dylai'r dull cyhoeddi gynnwys y ffurflen bapur 'draddodiadol' a'r defnydd o'r rhyngrwyd. Dylai pob Bwrdd Diogelu gyhoeddi eu cynlluniau a'u hadroddiadau blynyddol ar wefan o leiaf. Unwaith y byddant wedi'u postio ar y wefan, ni ddylai'r cynllun na'r adroddiad gael eu tynnu oddi yno. Felly, dros amser, dylai corff o waith gronni a fydd yn helpu i werthuso perfformiad y Bwrdd Diogelu mewn perthynas â'i amcanion statudol o dan adran 135(1) ac adran 135(2) o'r Ddeddf.

205. Dylai copi o bob cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol gael ei anfon i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol o fewn 28 diwrnod i'w gyhoeddi.

206. Mae gwneud y cynlluniau a'r adroddiadau blynyddol yn ddarllenadwy yn eu gwneud yn fwy hygyrch, gan gyfrannu at atebolrwydd effeithiol. Er bod angen i'r cynlluniau a'r adroddiadau fod yn gynhwysfawr, dylent fod yn gryno a chlir hefyd. Rydym yn gobeithio na fydd y gwaith o lunio'r adroddiad blynyddol yn rhoi baich gormodol ar y Bwrdd Diogelu. Ni nodir pa mor hir ddylai'r cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol fod. Y nod yw sicrhau bod un cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn ar gyfer pob Bwrdd Diogelu.

207. Ni ddylai'r cynllun blynyddol na'r adroddiad blynyddol gynnwys crynodebau gweithredol, crynodebau dienw na throsolygon. Y bwriad yw sicrhau bod pob cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol yn ddigon cryno ac wedi'u drafftio'n ddigon clir fel na fydd angen dyfeisiau o'r fath. Dylai'r cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol fod yn hawdd i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, yr arolygiaethau ac aelodau'r cyhoedd eu darllen.

208. **Rhaid** i gynllun blynyddol Bwrdd Diogelu gynnwys y wybodaeth ganlynol —

a) rhestr o aelodau'r Bwrdd Diogelu;

b) unrhyw ganlyniadau penodol y mae'r Bwrdd Diogelu yn cynnig eu cyflawni;

c) crynodeb o unrhyw welliant y mae'r Bwrdd Diogelu yn cynnig ei wneud i'w helpu i gyflawni ei amcanion yn well;

(d) cyfanswm yr arian y mae partneriaid y Bwrdd Diogelu yn cytuno y mae'r Bwrdd Diogelu yn debygol o'i wario er mwyn cyflawni ei amcanion;

(e) disgrifiad o sut mae'r Bwrdd Diogelu yn cynnig cydweithredu â phobl neu gyrff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'i amcanion;

(f) pryd a sut y bydd y Bwrdd Diogelu yn rhoi cyfle i blant ac oedolion sy'n cael eu heffeithio neu a all gael eu heffeithio gan ei swyddogaethau gyfrannu at ei waith.

209. Rhaid i adroddiad blynyddol Bwrdd Diogelu gynnwys y wybodaeth ganlynol —

(a) rhestr o aelodau'r Bwrdd Diogelu;

(b) y camau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'u cymryd i sicrhau canlyniadau penodol;

(c) i ba raddau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei gynllun blynyddol diweddaraf, gan gynnwys manylion i ba raddau y cafodd unrhyw welliannau penodol a gynigiwyd eu gweithredu;

(d) sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi cydweithredu â phobl neu gyrff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'i amcanion;

(e) unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'u gwneud i bobl gymwys o dan adran 137(1) o'r Ddeddf am wybodaeth benodol, ac a weithredwyd ar y ceisiadau hynny;

(f) cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn;

(g) i ba raddau y mae pob aelod o'r Bwrdd Diogelu wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Bwrdd;

(h) asesiad o sut aeth y Bwrdd Diogelu ati i ddefnyddio ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau neu ei ganlyniadau;

(i) unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd mae'r Bwrdd Diogelu yn cyflawni ei swyddogaethau, fel y dangosir gan ddadansoddiad o achosion y mae wedi ymdrin â nhw, ac unrhyw newidiadau y mae wedi'u gwneud o ganlyniad;

(j) pryd a sut aeth plant neu oedolion ati i fachu ar y cyfle i gyfrannu at waith y Bwrdd Diogelu a sut y cyfrannodd hyn at helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ganlyniadau;

(k) nifer y gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y gwnaed cais amdanynt yn yr ardal Bwrdd Diogelu, sawl un a wnaed a pha mor effeithiol oeddent;

(l) unrhyw wybodaeth neu ddysgu y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i ddosbarthu, neu hyfforddiant y mae wedi'i argymell neu ei ddarparu;

(m) sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol;

(n) materion eraill sy'n berthnasol i waith y Bwrdd Diogelu.

210. **Rhaid** i'r cynlluniau blynyddol gydymffurfio â gofynion adran 136(1) o'r Ddeddf i amlinellu cynigion y Bwrdd ar gyfer cyflawni ei amcan ar gyfer y flwyddyn. Rhaid i'r cynllun gael ei gyhoeddi gan Fwrdd Diogelu cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

211. **Rhaid** i'r adroddiadau blynyddol gydymffurfio â gofynion adran 136(2) o'r Ddeddf sy'n amlinellu sut y mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei swyddogaethau yn y flwyddyn ariannol flaenorol ac i ba raddau y mae wedi gweithredu'r cynigion yn ei gynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. **Rhaid** i'r adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

212. Mae gwaith gwerthuso ac atebolrwydd yn cael eu helpu gan y gallu i gymharu a chyferbynnu gwaith pob Bwrdd yn erbyn:

- cyfrifoldebau ac amcanion statudol y Byrddau;
- cynllun blynyddol y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn flaenorol;
- adroddiad blynyddol y Bwrdd; ac
- adroddiadau Byrddau eraill.

213. Mae'n bwysig bod yna gysondeb rhwng cynnwys a fformat y cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol a baratoir bob blwyddyn.

214. **Rhaid** i'r cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol gael eu hysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd angen cyfieithu'r cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg os derbynnir cais rhesymol i wneud hynny. Yn yr un modd, bydd angen cyfieithu'r cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol i fformatau Braille, hawdd ei ddeall ac ati os derbynnir cais rhesymol i wneud hynny.

215. Dylai pob cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol gael ei ddrafftio gyda'r nod o sicrhau bod un cynllun ac un adroddiad cryno a chlir yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn ar gyfer pob Bwrdd Diogelu. Y bwriad yw y bydd y cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol yn ddogfennau hygyrch sy'n bodloni'r gofynion atebolrwydd a nodir uchod.

216. Y Bwrdd Diogelu sy'n gyfrifol am ddrafftio'r cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol. Mae'n bwysig bod pob partner Bwrdd Diogelu yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o baratoi a chyhoeddi'r ddwy ddogfen.

217. Er bod cynnwys y cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol wedi'i nodi mewn rheoliadau i sicrhau cysondeb ledled Cymru, mae Byrddau Diogelu yn cael cyfle trwy Reoliad 5 (b) a Rheoliad 6 (1) o, a pharagraff (n) o Atodlen 3 i, Reoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) i gynnwys deunydd sy'n benodol i anghenion a themâu'r ardal Bwrdd Diogelu, gwelliannau a dargedir, data a chanlyniadau sy'n gysylltiedig ag amcanion y Bwrdd.

**Cyflenwi gwybodaeth y mae Byrddau Diogelu wedi gwneud cais amdani**

218. Mae adran 137(1) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Fwrdd Diogelu wneud cais am wybodaeth benodol gan berson neu gorff cymhwysol, cyn belled mai diben y cais yw galluogi neu helpu'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae swyddogaethau'r Bwrdd yn cael eu diffinio gan adran 135 a rheoliadau a wnaed o dan adran 135(4)(a) o'r Ddeddf.

219. Dim ond gwybodaeth sy'n ofynnol er mwyn galluogi neu helpu'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf y gellir gwneud cais amdani.

220. Mae "person neu gorff cymhwysol" y gellir cyfarwyddo cais o dan adran 137(1) iddo yn cael ei ddiffinio fel "person neu gorff y mae ei swyddogaethau neu ei weithgareddau yn cael eu hystyried gan y Bwrdd yn rhai sy'n golygu bod y person neu'r corff yn debygol o feddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i arfer un o swyddogaethau'r Bwrdd". Felly, **rhaid** ei bod hi'n "debygol" bod y person neu'r corff y cyflwynir y cais iddo yn meddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Bwrdd. Yn y cyd-destun hwn, dylai'r term "tebygol" gael ei ddehongli fel "posibilrwydd go iawn" bod person neu'r corff y cyfarwyddir cais iddo yn meddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd. Mae'r term "posibilrwydd go iawn" yn sicrhau cydbwysedd rhwng ceisiadau sbeciannol sy'n mynd yn rhy bell a gofyniad o safon rhy uchel a all arwain at y cais ddim yn cael ei wneud o gwbl.

221. Mae'r wybodaeth a all fod yn destun cais wedi'i hamlinellu yn adran 137(2) a (3) o'r Ddeddf. Efallai y bydd y wybodaeth yn ymwneud â'r canlynol:

(a) y person neu'r corff cymhwysol y cyflwynir y cais iddo;
(b) swyddogaeth neu weithgarwch y person neu'r corff cymhwysol hwnnw, neu
(c) berson sy'n cyflawni neu'n cymryd rhan mewn swyddogaeth neu weithgarwch gan y person neu'r corff cymhwysol hwnnw.

222. Gall Bwrdd wneud cais o dan adran 137(1) o'r Ddeddf mewn perthynas â gwybodaeth sydd wedi'i chyflenwi i berson neu gorff cymhwysol yn unol â chais arall a wnaed o dan adran 137(1) neu mewn perthynas â gwybodaeth sy'n deillio o wybodaeth sydd wedi'i chyflenwi mewn ymateb i gais a wnaed o dan adran 137(1). Un enghraifft fyddai galluogi gwybodaeth i gael ei throsglwyddo rhwng Byrddau. Felly, gall Bwrdd Diogelu Plant sy'n meddu ar wybodaeth a gafwyd o dan adran 137(1) drosglwyddo'r wybodaeth honno yn gyfreithlon i Fwrdd Diogelu Oedolion neu Fwrdd Diogelu Plant arall a oedd wedi gwneud cais amdani o dan yr adran hon.

223. Rhaid i unrhyw wybodaeth a ddarperir i Fwrdd Diogelu mewn ymateb i gais gael ei ddefnyddio yn unig gan y Bwrdd Diogelu neu berson neu gorff arall y cafodd y wybodaeth honno ei datgelu iddo at ddibenion galluogi neu helpu'r Bwrdd Diogelu i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.

224. **Rhaid** i berson neu gorff cymhwysol sy'n derbyn cais am wybodaeth o dan adran 137 (1) o'r Ddeddf, oherwydd adran 137(4) o'r Ddeddf, gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person neu'r corff hwnnw o'r farn y byddai cydymffurfio â'r cais hwnnw (a) yn groes i

ddyletswyddau'r person neu'r corff hwnnw, neu (b) yn cael effaith andwyol ar gyflawni swyddogaethau'r person neu'r corff hwnnw.

225. Rhaid i berson neu gorff cymhwysol sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais i ddarparu gwybodaeth gyflwyno rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r Bwrdd Diogelu.

226. Bwriad adran 137 o'r Ddeddf yw galluogi Bwrdd Diogelu i wneud cais am wybodaeth, gan gynnwys data personol a sensitif o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 1998, gan y bobl neu'r cyrff hynny sy'n "debygol" o fod â gwybodaeth sy'n berthnasol i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd, a thrafod y wybodaeth honno.

## <u>Ariannu Byrddau Diogelu</u>

### Cyflwyniad

227. Mae'r canllawiau statudol hyn ar gyfer adran 138 o'r Ddeddf yn disodli'r canllawiau statudol presennol ar Ariannu a Gweinyddu (4.34-4.41) yn *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004* (Llywodraeth Cymru, 2006).

228. Mae adran 138(1) o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn nodi y gall partner Bwrdd Diogelu wneud taliadau tuag at wariant a wnaed gan y Bwrdd Diogelu y mae'n cael ei gynrychioli arno, neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Diogelu hwnnw, trwy wneud y taliadau'n uniongyrchol neu drwy gyfrannu at gronfa y gall y taliadau gael eu gwneud ohoni.

229. Gall partner Bwrdd Diogelu ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill at ddibenion cysylltu â'r Bwrdd Diogelu y mae'n cael ei gynrychioli arno.

230. Mae'n ofynnol i daliadau gael eu gwneud gan bartner Bwrdd Diogelu tuag at wariant a wnaed gan y Bwrdd Diogelu y mae'n cael ei gynrychioli arno, neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Diogelu hwnnw.

231. Y nod yw sicrhau cyfraniad cyson at bob Bwrdd Diogelu a sicrhau bod gan Fyrddau adnoddau digonol a dibynadwy i gyflawni eu swyddogaethau.

232. Mae fframwaith ar gyfer cyfrannu at gyllid craidd Byrddau Diogelu gan bartneriaid y Bwrdd Diogelu wedi'i gynnwys yn y Canllawiau Statudol. Bydd angen i bartneriaid y Bwrdd Diogelu gytuno ar gyllidebau i sicrhau cynaliadwyedd o ran datblygu rhaglenni gwaith hyd nes y byddant yn cael eu haddasu i sicrhau sefydlogrwydd a diogelwch cyllid dros fwy nag un flwyddyn ariannol.

233. Dylai'r cyfrannau ariannu a argymhellir ar gyfer partneriaid Bwrdd Diogelu ym mhob Bwrdd fod fel a ganlyn:

- awdurdod lleol 60% (ar gyfer yr awdurdodau lleol ar Fwrdd, dylai fod yna raniad cymesur yn seiliedig ar faint y boblogaeth gyffredinol);
- byrddau iechyd lleol 25% (os oes yna ddau fwrdd iechyd lleol, dylai fod yna raniad cymesur yn seiliedig ar faint y boblogaeth gyffredinol);
- heddlu 10%
- gwasanaeth prawf 5% (mae gwasanaethau prawf yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol)

234. O dan adran 136 o'r Ddeddf, **rhaid** i Fwrdd Diogelu gyhoeddi cynllun cyn dechrau pob blwyddyn ariannol yn amlinellu ei gynigion ar gyfer cyflawni ei amcanion y flwyddyn honno. Heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf bob blwyddyn, rhaid i Fwrdd Diogelu gyhoeddi adroddiad ar sut y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn y flwyddyn ariannol flaenorol ac i ba raddau y mae wedi gweithredu'r cynigion yn ei gynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

235. Dylai Byrddau nodi sut y bydd y cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei roi ar waith i gyflawni ei fwriadau ac, yn ei adolygiad o'r flwyddyn flaenorol, dylai gynnwys datganiad o wariant mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau ac i ba raddau yr oedd cyllid ar gael i roi ei gynllun arfaethedig ar waith.

236. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y dylai Byrddau Diogelu fabwysiadu'r fformiwla hon er mwyn sicrhau cyllid teg a sefydlog ar gyfer eu gweithgareddau.

237. Felly, bydd y gwaith o osod cyllidebau a'u hadolygu yn dryloyw ac yn agored i gael eu craffu.

## Egwyddorion sy'n sail i ariannu Byrddau Diogelu

238. Mae egwyddorion sy'n sail i ddatblygiad fframwaith ar gyfer cyllid cyfrannol Byrddau Diogelu wedi'u nodi i sicrhau ymrwymiad gan bartneriaid Bwrdd Diogelu, i ymgorffori perchnogaeth ac i ddarparu atebolrwydd:

- mae *cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd* ar gyfer diogelu plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth ac ar gyfer cyfrannu at Fyrddau Diogelu effeithiol yn cael eu cydnabod gan bob corff statudol lleol perthnasol ac unrhyw gyrff eraill o fewn ardal;
- *tegwch* fel bod cyfraniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cael eu hystyried yn gyfraniadau teg gan asiantaethau lleol mewn ardal*;*
- mae *cyfraniadau* yn cael eu gwneud gan y partneriaid Bwrdd Diogelu craidd (awdurdod lleol, iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu);
- *symlrwydd* y fformiwla ar gyfer trefniadau ariannu i gefnogi gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon;
- *cysondeb* ar draws Byrddau Diogelu yng Nghymru;
- *tryloywder* fel bod y trefniadau ariannu yn agored i graffu, her ac atebolrwydd;

- *mae cyllidebau yn cael eu cytuno fel rhan o gynllun ariannol tymor canolig ac nid ydynt yn destun trafodaeth flynyddol* i sicrhau cynaliadwyedd, datblygiad rhaglenni gwaith a blaengynllunio;
- *mae ariannu swyddogaethau craidd yn cael ei gwmpasu yn y gyllideb* i sicrhau y gall y Byrddau ddangos bod ganddynt adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaethau craidd;
- *caniateir digon o hyblygrwydd ar gyfer datblygu ac arloesi* fel y gall Byrddau elwa ar arbedion maint ac ehangu eu rhaglenni gwaith wrth iddynt ddod yn fwy profiadol yn eu cydweithrediadau newydd;
- *dangosir gwerth am arian* fel y gellir gwerthuso'r berthynas rhwng buddsoddiad ac effeithiolrwydd.

**Cefnogi swyddogaethau craidd Byrddau Diogelu**

239. Mae swyddogaethau craidd bwrdd yn ymgorffori pob math o weithgareddau (gweler y canllawiau ar swyddogaethau Byrddau Diogelu ym mharagraffau 113 - 165). Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfrannu at ddatblygu a monitro polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol;
- casglu, dadansoddi, dosbarthu a chyfathrebu gwybodaeth;
- cynnal adolygiadau ymarfer plant neu oedolion, adolygiadau thematig, archwiliadau achos ac ymchwiliadau, a monitro camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i argymhellion;
- adolygu perfformiad y Bwrdd o ran cyflawni ei amcanion;
- adolygu anghenion hyfforddi a darparu neu sicrhau darpariaeth hyfforddiant a datblygiad staff;
- cydweithredu â Byrddau eraill a phartneriaethau;
- cynllunio ei raglen fusnes a chynhyrchu cynllun ac adroddiad blynyddol;
- sicrhau cyfathrebu ac atebolrwydd effeithiol, gan gynnwys cynnal a chadw gwefan Bwrdd a sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar bapur neu yn electronig.

240. Bydd Bwrdd Diogelu yn elwa ar seilwaith o staff sy'n gweithio'n agos gyda Chadeirydd y Bwrdd, yr Is-gadeirydd, partneriaid Bwrdd Diogelu a chyrff eraill a gynrychiolir ar y Bwrdd, ac sy'n ceisio:

- cyflawni busnes o ddydd i ddydd mewn perthynas â swyddogaethau craidd y Bwrdd;
- darparu cymorth gweinyddol a sefydliadol ar gyfer gwaith is-grwpiau Bwrdd;
- darparu cymorth gweinyddol a sefydliadol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd, hyfforddiant a datblygiad staff a'r trefniadau dysgu ac adolygu, gan gynnwys adolygiadau ymarfer oedolion a phlant;
- darparu cymorth ar gyfer yr adolygiad o berfformiad y Bwrdd ac ar gyfer ei gynlluniau ariannol tymor canolig.

241. Fel rhan o'i flaengynllunio a'i gynllun ariannol tymor canolig, **rhaid** i Fwrdd fod yn fodlon bod ganddo lefel ddigonol o gymorth seilwaith i gyflawni swyddogaethau craidd y Bwrdd fel yr amlinellir mewn rheoliadau. Fel arfer, gellir cyflawni hyn trwy ddefnyddio uned fusnes benodedig, dan arweiniad rheolwr busnes a chyda chymorth gweinyddol/clerigol penodedig. Yn ogystal, yn unol â'r amgylchiadau, efallai y bydd yn cynnwys swyddogion datblygu proffesiynol a/neu staff arbenigol i helpu'r Bwrdd i ddatblygu ei fusnes craidd.

242. Efallai yr hoffai Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant ddatblygu eu seilwaith gyda staff gweinyddol a rennir yn gwasanaethu'r ddau Fwrdd. Mae yna gyfleoedd posibl ar gyfer arbedion maint o ddefnyddio unedau busnes ar y cyd, ynghyd â chyfle i gydweithredu mwy.

**Y fframwaith ariannu ar gyfer Byrddau Diogelu**

243. Mae nodweddion allweddol y fframwaith cyllid craidd ar gyfer Bwrdd Diogelu yn cyfateb i'r egwyddorion ym mharagraff 228-233. Mae partneriaid Bwrdd Diogelu yn rhannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd am effeithiolrwydd Bwrdd ac am sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei swyddogaethau craidd:

- seilwaith digonol i helpu'r Bwrdd i gyflawni ei fusnes craidd ac i sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i ariannu ei weithgareddau craidd;
- argymhellir yn gryf y dylai'r costau hyn gael eu talu gan bartneriaid Bwrdd Diogelu yn unol â'r fformiwla ariannu a ddisgrifir ym mharagraff 234;.
- o bryd i'w gilydd, efallai y bydd partneriaid Bwrdd Diogelu yn pennu cyfraniadau ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn ariannu swyddogaethau'r Bwrdd o ran cyflawni ei amcanion;
- efallai yr hoffai Bwrdd ystyried sefydlu cronfa wrth gefn i gyfuno cyfraniadau eraill a fyddai'n cael eu defnyddio i dalu costau achlysurol swyddogaethau'r Bwrdd;
- gall cyfraniadau (taliad uniongyrchol neu anariannol) gan gyrff eraill neu bobl a gynrychiolir ar Fwrdd gael eu gwneud;
- gall Bwrdd geisio defnyddio dulliau arloesol i ariannu ei gyllideb (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), megis trwy gael mynediad at gyllid grant;
- dylai Bwrdd gytuno ar gyllideb fel rhan o'i gynllun ariannol tymor canolig, a dylai gael ei haddasu i sicrhau sefydlogrwydd a diogelwch cyllid dros fwy nag un flwyddyn ariannol;
- disgwylir y bydd Bwrdd yn cyfrif ei wariant ac yn darparu tystiolaeth o werth y buddsoddiad a wnaed gan bartneriaid Bwrdd Diogelu a chyrff eraill a gynrychiolir ar fwrdd trwy'r cynllun a'r adroddiad blynyddol;
- dylai Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion ystyried sefydlu cymorth seilwaith ar y cyd ar gyfer swyddogaethau'r Byrddau.

Pennod Tri

## Y BWRDD DIOGELU ANNIBYNNOL CENEDLAETHOL Y CYFEIRIR ATO YN RHAN 7 ADRAN 132 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

### Gwybodaeth

244. Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Ganllawiau Statudol gael eu cyhoeddi mewn perthynas â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ('y Bwrdd Cenedlaethol'). Darperir y wybodaeth hon er mwyn cynghori partneriaid Bwrdd Diogelu ynglŷn â rôl y Bwrdd Cenedlaethol o ran cynghori a chefnogi Byrddau Diogelu a galluogi cydweithrediad.

245. Mae dyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol fel a ganlyn:

a) Darparu cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol.
b) Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.
c) Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny.

246. Bwrdd cynghori sy'n rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â sut i ddiogelu pobl yng Nghymru yw'r Bwrdd Cenedlaethol. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant i sicrhau gwelliannau cyson i bolisïau ac arferion diogelu ledled Cymru.

247. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod ei raglen waith ei hun, ynghyd â rhaglenni gwaith y Byrddau Diogelu a Llywodraeth Cymru, yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol.

248. Mae Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015 (gweler Atodiad 1) yn nodi y dylai'r Bwrdd Cenedlaethol sefydlu is-grwpiau o aelodau yn unig, o un neu fwy o aelodau a phobl nad ydynt yn aelodau, ac o bobl nad ydynt yn aelodau yn unig. Mae hyn yn caniatáu i gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol sicrhau arbenigedd, polisi neu ffocws penodol o fewn is-grŵp.

249. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn cael ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

250. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn ystyried, ar y cyd ac ar wahân, trwy ei raglen waith, effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Nghymru a sicrhau llais a chyfraniad defnyddwyr gwasanaethau.

**Atebolrwydd**

251. Nid yw'r Byrddau Diogelu yn atebol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, ond mae ganddynt ddyletswydd i gydweithredu a rhannu gwybodaeth â'r Bwrdd Cenedlaethol fel yr amlinellir yn adran 139(1) o'r Ddeddf. Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu yn bartneriaid cyfartal â gwahanol gyfrifoldebau. Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn atebol i Weinidogion Cymru.

252. Mae Byrddau Diogelu yn atebol fel aelodau unigol trwy eu rôl asiantaeth unigol i'w sefydliad ac i unrhyw arolygiaethau sefydliadol perthnasol.

253. Er nad yw'r Byrddau Diogelu yn atebol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, **rhaid** iddynt roi gwybod i'r Bwrdd Cenedlaethol am eu gweithgareddau. Mae adran 139(1) o'r Ddeddf yn nodi bod **rhaid** i Fwrdd Diogelu gydweithredu â'r Bwrdd Cenedlaethol a **rhaid** iddo ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd yn gwneud cais amdani. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn i'r Bwrdd Cenedlaethol gyflawni ei amcanion.

254. Mae'n hanfodol bod swyddogaethau'r Bwrdd Cenedlaethol, y Byrddau Diogelu, Llywodraeth Cymru a'r gwahanol arolygiaethau a rheoleiddwyr perthnasol yn glir.

**Aelodaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

255. Bydd y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru trwy ymarfer penodiadau cyhoeddus. Bydd y Bwrdd yn penodi un o'i aelodau fel Is-gadeirydd.

256. Mae aelodau'n cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd mewn diogelu, amddiffyn a materion cysylltiedig ac mae ganddynt brofiad addas i gyflawni dyletswyddau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

257. Gall enghreifftiau o sgiliau a phrofiad perthnasol gynnwys:

- profiad o faterion gofal cymdeithasol, meddygol, cyfreithiol, gorfodi'r gyfraith, academaidd a nyrsio/therapi;
- profiad o awdurdod lleol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y sector annibynnol, y trydydd sector a'r gymuned; a
- dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol Cymru.

258. Gall y Bwrdd Cenedlaethol gyhoeddi cofnodion o'i gyfarfodydd ac adroddiadau cysylltiedig, a bydd yn ymgysylltu â chadeiryddion y Byrddau Diogelu, ac arolygiaethau perthnasol os yn briodol, o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

259. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi am gyfnod cychwynnol o dair blynedd ac, ar ddiwedd y tair blynedd hynny, byddant yn gymwys i gael eu hailbenodi am dair blynedd arall. O dan amgylchiadau eithriadol, gallai'r cyfnod hwn gael ei ymestyn am flwyddyn arall.

260. Fel arfer, ni fydd gan aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol aelodaeth ddeuol; fel arfer ni fydd aelod o Fwrdd Diogelu yn aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol.

261. Mae'r aelodau yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Cenedlaethol yn gweithredu o fewn ei gylch gwaith a bod y penderfyniadau a wneir yn dilyn y gweithdrefnau cywir, yn cael eu cefnogi gan ddigon o wybodaeth o safon uchel, yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn. Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau polisi a thystiolaeth ar ddiogelu ac amddiffyn mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt er mwyn dysgu o'r rheini a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru. Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio eu doethineb annibynnol, sgil a diwydrwydd ac yn cymryd gofal rhesymol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

262. Prif gyfrifoldeb aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol fydd sicrhau bod dyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn derbyn gwybodaeth gan Fyrddau Diogelu unigol ac eraill i'w helpu i sicrhau Gweinidogion Cymru bod dulliau diogelu ac amddiffyn yn cael eu harwain, eu datblygu, eu herio a'u hyrwyddo'n briodol yng Nghymru. Gall hyn gynnwys ystyried:

- gweithdrefnau amddiffyn, atal a diogelu amlasiantaethol trwy waith y Byrddau Diogelu unigol a grwpiau amddiffyn plant ac oedolion cydweithredol Cymru gyfan;
- cysondeb darpariaeth hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn ledled Cymru;
- y polisïau a'r gweithdrefnau priodol a chyson a ddefnyddir gan Fyrddau Diogelu gyda'r nod o amddiffyn oedolion a phlant yng Nghymru a'u hatal rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a dioddef mathau eraill o niwed;
- mesurau a ddefnyddir gan Fyrddau Diogelu yn eu hardaloedd ledled Cymru i gyflawni eu swyddogaethau fel yr amlinellir yn adran 135(4) o'r Ddeddf ac mewn perthynas â'u cysylltiad â'r Bwrdd Cenedlaethol yn adran 139(1);
- mesurau a ddefnyddir i gasglu a rhannu gwybodaeth ac arfer gorau a mesurau i nodi bylchau a blaenoriaethu ymatebion, gan ganolbwyntio ar adnabod yn gynnar a datblygiad perthnasol;

- effeithiolrwydd, mynychder a chysondeb y dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac ymchwiliadau ac adolygiadau thematig eraill ledled Cymru;

- cysondeb y gwaith o roi Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar waith ledled Cymru a'u heffeithiolrwydd o ran diogelu oedolion sy'n wynebu risg;

- mesurau a ddefnyddir i ddatblygu rhyngwyneb diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

263. Bydd Byrddau Diogelu yn rheoli'r ymarfer gweithredol yn eu hardal Bwrdd Diogelu. Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol ddyletswydd i gynghori a chefnogi Byrddau Diogelu. Fodd bynnag, ni fydd yn ymyrryd ym materion gweithredol Byrddau Diogelu. Os bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn nodi thema o bryder neu os bydd Bwrdd Diogelu yn methu â mynd i'r afael â thema o bryder, gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol, yn dibynnu ar natur y pryder.

**Cyfathrebu ac ymgynghori**

264. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio mecanweithiau i ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o grwpiau cyfeirio, ymarferwyr ac unigolion arbenigol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft:

- Cadeiryddion y Byrddau Diogelu ac arolygiaethau perthnasol os yn briodol;
- Grŵp Adolygu Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan;
- Grŵp Cydgysylltwyr Amddiffyn Oedolion Cymru;
- gall grwpiau eraill, gan gynnwys grwpiau yn y sector annibynnol a gwirfoddol, sy'n cyflawni swyddogaethau neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud â phlant neu oedolion sydd angen gofal a chymorth gael eu hychwanegu yn ôl doethineb y Bwrdd Cenedlaethol i gefnogi ei waith;
- pobl sydd angen gofal a chymorth.

265. Defnyddir strategaeth gyfathrebu er mwyn cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd trwy rannu arfer da a gwybodaeth am ddiogelu. Efallai y bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn ceisio cael barn pobl trwy ei wefan o bryd i'w gilydd. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn cyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun, gan gynnwys unrhyw waith arfaethedig. Bydd hefyd yn cynnal digwyddiad neu ddigwyddiadau ymgysylltu blynyddol.

266. Nid oes gan y Bwrdd Cenedlaethol bresenoldeb gynrychiadol. Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol ddyletswydd benodol o dan adran 133(2)(d) o'r Ddeddf i "ymgynghori â'r rhai y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt". Bydd yn defnyddio'r ddyletswydd honno i wella ei ddealltwriaeth ac ymestyn ei brofiad o

ddiogelu ac amddiffyn yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ag unigolion, gweithwyr proffesiynol, cyrff proffesiynol, arolygiaethau ac ati. Gellid gwneud hyn mewn sawl ffordd, er enghraifft: digwyddiad y Bwrdd Cenedlaethol, grŵp ffocws o gynrychiolwyr y rhai sy'n cael eu heffeithio gan drefniadau diogelu, digwyddiad a hwylusir gan fwrdd Diogelu neu fecanweithiau tebyg. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn ystyried yr hyn a ddysgwyd o weithgareddau 'ymgysylltu â defnyddwyr' y Byrddau Diogelu, yn enwedig:

- ble mae safbwyntiau plant ac oedolion wedi'u hystyried;
- ble mae plant ac oedolion wedi cyfrannu at wneud penderfyniadau mewn ffordd weithredol ac uniongyrchol.

**Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol**

267. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a fydd yn cynnwys:

- trosolwg o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru;
- argymhellion ar sut y gellid gwella'r trefniadau hynny;
- themâu a nodwyd yn y cymorth a'r cyngor a ddarparwyd i Fyrddau Diogelu a gwelliannau a nodwyd yn arferion Byrddau Diogelu ledled Cymru;
- manylion sut yr aeth y Bwrdd Cenedlaethol ati i ymgynghori â'r rhai sydd efallai'n cael eu heffeithio gan drefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru;
- unrhyw sylwadau arwyddocaol mewn perthynas ag arferion gweithredol y Bwrdd Cenedlaethol.

268. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan Fyrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion mewn perthynas â mesurau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys:

- enghreifftiau o fesurau effeithiol mae Byrddau Diogelu wedi'u defnyddio i roi cyfle i blant ac oedolion sy'n cael eu heffeithio gyfrannu at waith Bwrdd Diogelu;
- gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau ymarfer oedolion a gynhaliwyd gan Fyrddau Diogelu ac o adolygiadau ac ymchwiliadau eraill;
- enghreifftiau o ddysgu, gwybodaeth ac adnoddau yn cael eu rhannu rhwng Byrddau Diogelu o fewn ardal Bwrdd Diogelu, neu rhwng Byrddau Diogelu ledled Cymru.

269. Nod y bwriad o gyhoeddi'r adroddiad blynyddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn yw rhoi amser i'r Byrddau Diogelu ystyried unrhyw themâu cenedlaethol neu argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y Bwrdd Cenedlaethol wrth baratoi eu cynlluniau blynyddol y mae'n **rhaid** eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

ATODIAD 1 – Offerynnau Statudol Perthnasol

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1465 (Cy. 159)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maent yn ymwneud â pherson a awdurdodir gan awdurdod lleol i wneud cais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn o dan adran 127 o'r Ddeddf honno.

Mae rheoliad 3(1) yn darparu, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraffau (2) a (3), na chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i'r awdurdod lleol hwnnw.

Pan na fo hynny'n ymarferol, mae rheoliad 3(2) yn darparu ar gyfer awdurdodi person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i awdurdod lleol o fewn ardal bwrdd diogelu benodol, neu yn niffyg hynny, i awdurdod lleol yng Nghymru.

O dan amgylchiadau pan na fo'n ymarferol i swyddog a ddisgrifir ym mharagraffau (1) neu (2) weithredu, mae rheoliad 3(3) yn caniatáu i awdurdod lleol awdurdodi swyddog i'r awdurdod lleol hwnnw a chanddo brofiad perthnasol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi drwy gysylltu â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1465 (W. 159)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and relate to a person authorised by a local authority to apply for an adult protection and support order under section 127 of that Act.

Regulation 3(1) provides that, except in the circumstances set out in paragraphs (2) and (3), a local authority must only authorise a person who has relevant experience, has completed appropriate training and is an officer of that local authority.

Where that is not practicable regulation 3(2) provides for a person to be authorised who has relevant experience, has completed appropriate training and who is an officer of a local authority within a certain safeguarding board area, or failing that, of a local authority in Wales.

In circumstances where it is not practicable for an officer described in paragraphs (1) or (2) to act, regulation 3(3) allows a local authority to authorise an officer of that local authority who has relevant experience.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained by contacting the Department for Health and Social Services, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1465 (Cy. 159)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *1 Gorffennaf 2015*

*Yn dod i rym* *6 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 127(9) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno a'i gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod awdurdodi" ("*authorising authority*") yw'r awdurdod lleol sy'n awdurdodi'r swyddog awdurdodedig;

(**1**) 2014 dccc 4.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1465 (W. 159)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015

*Made* *1 July 2015*

*Coming into force* *6 April 2016*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 127(9) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**), make the following Regulations.

A draft of these Regulations was laid before the National Assembly for Wales under section 196(6) of that Act and has been approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2016.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"appropriate training" ("*hyfforddiant priodol*") means training which is provided or arranged by the Welsh Ministers or an authorising authority

(**1**) 2014 anaw 4.

ystyr "hyfforddiant priodol" ("*appropriate training*") yw hyfforddiant a ddarperir neu a drefnir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod awdurdodi a fydd yn galluogi person i ymgymryd â swyddogaethau swyddog awdurdodedig o dan adran 127 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr "profiad perthnasol" ("*relevant experience*") yw bod yr awdurdod penodi wedi ei fodloni bod gan y person y profiad sy'n ofynnol o weithio o fewn maes gofal cymdeithasol gydag oedolion sy'n wynebu risg, neu y gallent fod yn wynebu risg;

ystyr "swyddog" ("*officer*") yw swyddog a benodir o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### Cyfyngiadau ar bwy a gaiff fod yn swyddog awdurdodedig

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i'r awdurdod awdurdodi i wneud cais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mewn achos penodol pan na fo'n ymarferol i swyddog sy'n bodloni paragraff (1) weithredu, ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sydd—

(a) yn swyddog i awdurdod lleol o fewn yr un ardal Bwrdd Diogelu(**1**) â'r awdurdod awdurdodi, neu

(b) pan na fo'n ymarferol i swyddog a ddisgrifiwyd yn is-baragraff (a) weithredu, yn swyddog i unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

(3) Mewn achos penodol pan na fo'n ymarferol i swyddog sy'n bodloni paragraff (1) neu (2) weithredu, ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person sy'n swyddog i'r awdurdod awdurdodi.

which will enable a person to undertake the functions of an authorised officer under section 127 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

"authorising authority" ("*awdurdod awdurdodi*") means the local authority which authorises the authorised officer;

"officer" ("*swyddog*") means an officer appointed under section 112 of the Local Government Act 1972;

"relevant experience" ("*profiad perthnasol*") means the appointing authority is satisfied that the person has the required experience of working within the field of social care with adults who are, or may be, at risk.

### Restrictions on who may be authorised officer

**3.**—(1) Subject to paragraphs (2) and (3), a local authority must only authorise a person to apply for an adult protection and support order who has completed appropriate training and is an officer of the authorising authority.

(2) Subject to paragraph (3), in a particular case where it is not practicable for an officer who satisfies paragraph (1) to act, a local authority must only authorise a person who has relevant experience, has completed appropriate training and is—

(a) an officer of a local authority within the same Safeguarding Board area(**1**) as the authorising authority, or

(b) where it is not practicable for an officer described in sub-paragraph (a) to act, an officer of any local authority in Wales.

(3) In a particular case where it is not practicable for an officer who satisfies paragraph (1) or (2) to act, a local authority must only authorise a person who is an officer of the authorising authority.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

1 Gorffennaf 2015

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

1 July 2015

©ⓗHawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Mae adran 142 o'r Ddeddf yn diffinio "ardal Bwrdd Diogelu" fel ardal a nodir mewn rheoliadau o dan adran 134(1) o'r Ddeddf (gweler y Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 S.I. 2015/1357 (W. 131)).

(**1**) Section 142 of the Act defines "Safeguarding Board area" as an area set out in regulations under section 134(1) of the Act (see the Safeguarding Boards (General) (Wales) Regulations 2015, S.I. 2015/1357 (W. 131)).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2015 Rhif 1465 (Cy. 159)

## 2015 No. 1465 (W. 159)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015

The Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015

£4.25

W2355/07/15 ON

ISBN 978-0-348-11134-7

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 Rhif 1803 (Cy. 258)

# 2015 No. 1803 (W. 258)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# SOCIAL CARE, WALES

## Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015

## The National Independent Safeguarding Board (Wales) (No. 2) Regulations 2015

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a sefydlir o dan adran 132 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod y Bwrdd Cenedlaethol i'w ffurfio o hyd at 6 aelod a benodir gan Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer trafodion yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cenedlaethol.

Mae rheoliad 5 yn darparu i'r Bwrdd Cenedlaethol sefydlu grwpiau atodol i ystyried materion penodol ac i adrodd arnynt.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Cenedlaethol drefnu i gyfarfod â chadeiryddion y Byrddau Diogelu o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Cenedlaethol gynnal cyfarfodydd ymgynghori blynyddol.

Mae rheoliad 8 yn darparu bod yr wybodaeth i'w chynnwys yn adroddiad blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol ac yn darparu ynglŷn â'r amseroedd ar gyfer llunio'r adroddiad a'i gyhoeddi.

Mae rheoliad 9 yn dirymu Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations relate to the National Independent Safeguarding Board which was established under section 132 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.

Regulation 3 provides that the National Board is to consist of up to 6 members appointed by the Welsh Ministers.

Regulation 4 provides for proceedings at the National Board meetings.

Regulation 5 provides for the National Board to set up supplementary groups to consider and report on certain matters.

Regulation 6 requires the National Board to arrange to meet the chairs of Safeguarding Boards at least twice every year.

Regulation 7 requires the National Board to hold annual consultation meetings.

Regulation 8 provides for the information to be included in the National Board's annual report and the times for making and publishing the report.

Regulation 9 revokes the National Safeguarding Board (Wales) Regulations 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi drwy gysylltu â'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained by contacting the Health and Social Services Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L C Y M R U

# 2015 Rhif 1803 (Cy. 258)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015

*Gwnaed* *30 Hydref 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *3 Tachwedd 2015*

*Yn dod i rym* *25 Tachwedd 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 133(1) a (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Tachwedd 2015.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod o'r Bwrdd" ("*Board member*") yw aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol;

ystyr "y Bwrdd Cenedlaethol" ("*the National Board*") yw'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol;

ystyr "Bwrdd Diogelu" ("*Safeguarding Board*") yw bwrdd diogelu a sefydlir o dan adran 134 o'r Ddeddf;

(**1**) 2014 dccc 4.

W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 2015 No. 1803 (W. 258)

# SOCIAL CARE, WALES

## The National Independent Safeguarding Board (Wales) (No. 2) Regulations 2015

*Made* *30 October 2015*

*Laid before the National Assembly for Wales* *3 November 2015*

*Coming into force* *25 November 2015*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 133(1) and (2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**), make the following Regulations.

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the National Independent Safeguarding Board (Wales) (No. 2) Regulations 2015.

(2) These Regulations come into force on 25 November 2015.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

"Board member" ("*aelod o'r Bwrdd*") means a member of the National Board;

"the National Board" ("*y Bwrdd Cenedlaethol*") means the National Independent Safeguarding Board;

(**1**) 2014 anaw 4.

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Cyfansoddiad**

**3.**—(1) Mae'r Bwrdd Cenedlaethol i'w ffurfio o hyd at 6 aelod a benodir gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi un o aelodau'r Bwrdd yn gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu'r telerau y penodir aelodau'r Bwrdd odanynt.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu staff ac adnoddau eraill i gynorthwyo'r Bwrdd Cenedlaethol i gyflawni ei swyddogaethau.

**Trafodion mewn cyfarfodydd**

**4.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol ethol un o'i aelodau yn is-gadeirydd.

(2) Mae'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd i lywyddu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cenedlaethol.

(3) Mae'r Bwrdd Cenedlaethol i wneud penderfyniadau drwy bleidlais mwyafrif syml o aelodau'r Bwrdd sy'n bresennol; mae'r person sy'n llywyddu yn y cyfarfod i gael ail bleidlais neu bleidlais fwrw os bydd y bleidlais yn gyfartal.

(4) 3 aelod o'r Bwrdd, gan gynnwys y person sy'n llywyddu, yw'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Cenedlaethol.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol gadw cofnodion o'i gyfarfodydd a chofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd.

**Grwpiau atodol a sefydlir gan y Bwrdd Cenedlaethol**

**5.**—(1) Caiff y Bwrdd Cenedlaethol sefydlu grwpiau atodol i ystyried—

(a) materion penodol,

(b) materion sy'n ymwneud â diogelu plant yn unig, neu

(c) materion sy'n ymwneud â diogelu oedolion yn unig,

ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cenedlaethol.

(2) Caniateir i grŵp o'r fath gael ei ffurfio o'r canlynol—

(a) aelodau'r Bwrdd yn unig,

(b) personau nad ydynt yn aelodau ac un neu fwy o aelodau'r Bwrdd, neu

(c) dim ond personau nad ydynt yn aelodau.

"Safeguarding Board" ("*Bwrdd Diogelu*") means a safeguarding board established under section 134 of the Act.

**Constitution**

**3.**—(1) The National Board is to consist of up to six members appointed by the Welsh Ministers.

(2) The Welsh Ministers must appoint one of the Board members as chair of the National Board.

(3) The Welsh Ministers must determine the terms under which Board members will be appointed.

(4) The Welsh Ministers may provide staff and other resources to assist the National Board to carry out its functions.

**Proceedings at meetings**

**4.**—(1) The National Board must elect one of its members as vice-chair.

(2) The chair or the vice-chair is to preside at National Board meetings.

(3) The National Board is to take decisions by a simple majority vote of the Board members present; the person presiding is to have a second or casting vote in the event of a tie.

(4) The quorum for National Board meetings is 3 Board members, including the person presiding.

(5) The National Board must keep minutes of its meetings and a register of Board members' interests.

**Supplementary groups set up by the National Board**

**5.**—(1) The National Board may set up supplementary groups to consider—

(a) specific matters,

(b) matters concerning only the safeguarding of children, or

(c) matters concerning only the safeguarding of adults,

and report back to the National Board.

(2) Such a group may consist of—

(a) Board members only,

(b) non-members and one or more Board members, or

(c) non-members only.

**Cyfarfodydd rhwng aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol a chadeiryddion Byrddau Diogelu**

**6.** Rhaid i un neu fwy o aelodau'r Bwrdd wahodd cadeiryddion y Byrddau Diogelu, a gwneud trefniadau i gyfarfod â hwy o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

**Ymgynghori â phobl yr effeithir arnynt**

**7.** Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol drefnu i gyfarfod, o leiaf unwaith y flwyddyn, â grŵp o bersonau sy'n cynrychioli'r rhai y gall trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru effeithio arnynt.

**Adroddiad blynyddol**

**8.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol gyflwyno ei adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Hydref bob blwyddyn, mewn cysylltiad â'r flwyddyn sy'n dod i ben ar y 31 Mawrth blaenorol.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am y canlynol—

(a) unrhyw gymorth a chyngor a roddwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol i'r Byrddau Diogelu;

(b) unrhyw waith arall a wnaed gan y Bwrdd Cenedlaethol, neu gan grwpiau atodol a sefydlwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, a'r canlyniadau a sicrhawyd;

(c) digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau a wnaed gan y Byrddau Diogelu i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru, gan gynnwys—

(i) y gwersi a ddysgwyd oddi wrth adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau ymarfer oedolion a gynhaliwyd gan Fyrddau Diogelu ac oddi wrth adolygiadau ac ymchwiliadau eraill;

(ii) enghreifftiau o adegau pan gafodd dysgu, gwybodaeth ac adnoddau eu rhannu rhwng Byrddau Diogelu o fewn ardal Bwrdd Diogelu neu rhwng Byrddau Diogelu ledled Cymru;

(iii) enghreifftiau o fesurau effeithiol y mae Byrddau Diogelu wedi eu cymryd i roi i blant ac oedolion yr effeithiwyd arnynt gyfle i gymryd rhan mewn gwaith Bwrdd Diogelu;

(d) unrhyw argymhellion y mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn dymuno eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol roi'r adroddiad blynyddol ar gael i'r cyhoedd heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr yn y flwyddyn y cafodd ei gyflwyno.

(4) Yn y rheoliad hwn—

**Meetings between members of the National Board and chairs of Safeguarding Boards**

**6.** One or more Board members must invite, and make arrangements to meet, the chairs of the Safeguarding Boards at least twice a year.

**Consultation with people affected**

**7.** The National Board must arrange to meet, at least once a year, a group of persons representative of those who may be affected by arrangements to safeguard children and adults in Wales.

**Annual report**

**8.**—(1) The National Board must make its annual report to the Welsh Ministers no later than 31 October each year, in respect of the year ending with the preceding 31 March.

(2) The annual report must contain information about—

(a) any support and advice provided by the National Board to Safeguarding Boards;

(b) any other work undertaken by the National Board, or by supplementary groups set up by the National Board, and the outcomes achieved;

(c) the adequacy and effectiveness of arrangements made by Safeguarding Boards to safeguard children and adults in Wales, including—

(i) lessons learnt from child practice reviews and adult practice reviews carried out by Safeguarding Boards and from other reviews and investigations;

(ii) examples where learning, information and resources have been shared between Safeguarding Boards within a Safeguarding Board area or between Safeguarding Boards across Wales;

(iii) examples of effective measures which Safeguarding Boards have taken to give affected children and adults the opportunity to participate in a Safeguarding Board's work;

(d) any recommendations which the National Board wishes to make to the Welsh Ministers.

(3) The National Board must make the annual report publicly available no later than 31 December in the year in which it was made.

(4) In this regulation—

(a) ystyr "adolygiad ymarfer plant" ("*child practice review*") yw adolygiad a gynhelir gan Fwrdd Diogelu yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015(**1**) sy'n ymwneud â phlentyn; a

(b) ystyr "adolygiad ymarfer oedolion" ("*adult practice review*") yw adolygiad a gynhelir gan Fwrdd Diogelu yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 sy'n ymwneud ag oedolyn.

**Dirymu**

**9.** Mae Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015(**2**) wedi eu dirymu.

(a) "child practice review" ("*adolygiad ymarfer plant*") means a review carried out by a Safeguarding Board in accordance with regulation 4 of the Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015(**1**) which relates to a child; and

(b) "adult practice review" ("*adolygiad ymarfer oedolion*") means a review carried out by a Safeguarding Board in accordance with regulation 4 of the Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015 which relates to an adult.

**Revocation**

**9.** The National Safeguarding Board (Wales) Regulations 2015(**2**) are revoked.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
30 Hydref 2015

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
30 October 2015

©ⓗHawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2015/1466 (Cy. 160).
(**2**) O.S. 2015/1358 (Cy. 132).

(**1**) S.I. 2015/1466 (W. 160).
(**2**) S.I. 2015/1358 (W. 132).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1803 (Cy. 258)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1803 (W. 258)

# SOCIAL CARE, WALES

The National Independent Safeguarding Board (Wales) (No. 2) Regulations 2015

ISBN 978-0-348-11186-6

£6.00

W2471/11/15 ON

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1357 (Cy. 131)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â Byrddau Diogelu Plant a sefydlir o dan adran 134(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") a Byrddau Diogelu Oedolion a sefydlir o dan adran 134(5) o'r Ddeddf. Yn y Rheoliadau hyn cyfeirir ar y cyd at Fyrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion fel "Byrddau Diogelu".

Mae rheoliad 3 ac Atodlen 1 yn nodi'r ardaloedd y bydd Byrddau Diogelu ar eu cyfer.

Mae rheoliad 4 yn darparu bod y partneriaid arweiniol ar gyfer plant yn yr ardal wedi eu nodi yn Atodlen 2, colofn 2, a bod y partneriaid arweiniol ar gyfer oedolion yn yr ardal wedi eu nodi yn Atodlen 2, colofn 3. Mae adran 134(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r partner arweiniol mewn perthynas â phlant sefydlu Bwrdd Diogelu Plant ac mae adran 134(5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r partner arweiniol mewn perthynas ag oedolion sefydlu Byrddau Diogelu Oedolion ar gyfer eu priod ardal Bwrdd Diogelu.

Mae rheoliad 5 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cynllun blynyddol a gyhoeddir gan Fyrddau Diogelu o dan adran 136(1) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 6 ac Atodlen 3 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan Fyrddau Diogelu o dan adran 136(2) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 7 yn darparu bod copïau o'r cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol i'w rhoi ar gael i'r cyhoedd ac i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1357 (W. 131)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Safeguarding Boards (General) (Wales) Regulations 2015

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations relate to Safeguarding Children Boards established under section 134(4) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the Act") and Safeguarding Adults Boards established under section 134(5) of the Act. In these Regulations Safeguarding Children Boards and Safeguarding Adults Boards are referred to collectively as "Safeguarding Boards".

Regulation 3 and Schedule 1 set out the areas for which there are to be Safeguarding Boards.

Regulation 4 provides that the lead partners for children in the area are set out in Schedule 2 column 2 and the lead partners for adults in the area are set out in Schedule 2 column 3. Section 134(4) requires the lead partner in relation to children to establish a Safeguarding Children Board and section 134(5) requires the lead partner for adults to establish a Safeguarding Adults Boards for their respective Safeguarding Board area.

Regulation 5 sets out the information to be included in the annual plan published by Safeguarding Boards under section 136(1) of the Act.

Regulation 6 and Schedule 3 set out the information to be included in the annual report published by Safeguarding Boards under section 136(2) of the Act.

Regulation 7 provides for copies of the annual plan and annual report to be made available to the public and to the National Independent Safeguarding Board.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was

perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

considered in relation to these Regulations. As a result a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Social Services and Integration Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1357 (Cy. 131)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *4 Mehefin 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *9 Mehefin 2015*

*Yn dod i rym* *6 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 134(1) a (3), 136(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac ar ôl ymgynghori â'r partneriaid Bwrdd Diogelu ar gyfer ardal yn unol ag adran 134(3) o'r Ddeddf honno(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad blynyddol" ("*annual report*") yw'r adroddiad a gyhoeddir gan Fwrdd Diogelu o dan adran 136(2) o'r Ddeddf;

ystyr "Bwrdd Cenedlaethol" ("*National Board*") yw'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a sefydlir gan adran 132(1) o'r Ddeddf;

ystyr "Bwrdd Diogelu" ("*Safeguarding Board*") yw Bwrdd Diogelu Plant(**2**) neu Fwrdd Diogelu Oedolion(**1**);

(**1**) 2014 dccc 4.

(**2**) Sefydlir Byrddau Diogelu Plant gan bartner arweiniol y Bwrdd Diogelu mewn perthynas â phlant ar gyfer yr ardal yn unol ag adran 134(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1357 (W. 131)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Safeguarding Boards (General) (Wales) Regulations 2015

*Made* *4 June 2015*

*Laid before the National Assembly for Wales* *9 June 2015*

*Coming into force* *6 April 2016*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 134(1) and (3) and 136 (3)of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, and after consulting the Safeguarding Board partners for an area in accordance with section 134(3)of that Act (**1**), make the following Regulations:

**Title, Commencement and Application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Safeguarding Boards (General) (Wales) Regulations 2015.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2016.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

"annual plan" ("*cynllun blynyddol*") means the plan published by a Safeguarding Board under section 136(**1**) of the Act;

"annual report" means ("*adroddiad blynyddol*") the report published by a Safeguarding Board under section 136(**2**) of the Act;

(**1**) 2014 anaw 4.

ystyr "cynllun blynyddol" ("*annual plan*") yw'r cynllun a gyhoeddir gan Fwrdd Diogelu o dan adran 136(**1**) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

mae "partner Bwrdd Diogelu" ("*Safeguarding Board partner*") i'w ddehongli yn unol ag adran 134(2) ac adran 134(6)(b);

ystyr "prif ardal llywodraeth leol" ("*principal local government area*") yw prif ardal llywodraeth leol fel y'i nodir yn Rhannau I a II o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Ardaloedd Byrddau Diogelu**

**3.** Yr ardaloedd yng Nghymru y bydd Byrddau Diogelu ar eu cyfer yw'r prif ardaloedd llywodraeth leol a nodir yng ngholofn 2 o'r tabl a nodir yn Atodlen 1, a ddynodir â'r enw sydd gyferbyn yng ngholofn 1.

**Partneriaid Arweiniol**

**4.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn pennu'r partner Bwrdd Diogelu a ddangosir yng ngholofn 2 o'r tabl a nodir yn Atodlen 2 fel y partner arweiniol mewn perthynas â phlant ar gyfer yr ardal a ddangosir gyferbyn yng ngholofn 1.

(2) Mae Gweinidogion Cymru yn pennu'r partner Bwrdd Diogelu a ddangosir yng ngholofn 3 o'r tabl a nodir yn Atodlen 2 fel y partner arweiniol mewn perthynas ag oedolion ar gyfer yr ardal a ddangosir gyferbyn yng ngholofn 1.

**Cynlluniau blynyddol**

**5.** Rhaid i gynllun blynyddol Bwrdd Diogelu gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) rhestr o aelodau'r Bwrdd Diogelu;

(b) unrhyw ganlyniadau penodol y mae'r Bwrdd Diogelu yn bwriadu eu sicrhau;

(c) crynodeb o unrhyw welliant y mae'r Bwrdd Diogelu yn bwriadu ei wneud i'w alluogi i gyflawni ei amcanion yn well;

(d) swm y gwariant y mae partneriaid y Bwrdd Diogelu yn cytuno bod y Bwrdd Diogelu yn debyg o fynd iddo er mwyn sicrhau ei amcanion;

(**1**) Sefydlir Byrddau Diogelu Oedolion gan y partner arweiniol mewn perthynas ag oedolion yn unol ag adran 134(5) o'r Ddeddf.

"National Board" ("*Bwrdd Cenedlaethol*") means the National Independent Safeguarding Board established by section 132(1) of the Act;

"principal local government area" ("*prif ardal llywodraeth leol*") means a principal local government area as set out in Parts I and II of Schedule 4 to the Local Government Act 1972;

"Safeguarding Board" ("*Bwrdd Diogelu*") means a Safeguarding Children Board(**1**) or a Safeguarding Adults Board(**2**);

"Safeguarding Board partner" ("*partner Bwrdd Diogelu*") is to be construed in accordance with section 134(2) and section 134(6)(b) of the Act.

**Safeguarding Board Areas**

**3.** The areas in Wales for which there are to be Safeguarding Boards are the principal local government areas set out in column 2 of the table set out in Schedule 1, designated by the name opposite in column 1.

**Lead Partners**

**4.**—(1) The Welsh Ministers specify the Safeguarding Board partner shown in column 2 of the table set out in Schedule 2 as the lead partner in relation to children for the area shown opposite in column 1.

(2) The Welsh Ministers specify the Safeguarding Board partner shown in column 3 of the table set out in Schedule 2 as the lead partner in relation to adults for the area shown opposite in column 1.

**Annual plans**

**5.** A Safeguarding Board's annual plan must include the following information —

(a) a list of the members of the Safeguarding Board;

(b) any particular outcomes the Safeguarding Board proposes to achieve;

(c) a summary of any improvement the Safeguarding Board proposes to make to enable it better to fulfil its objectives;

(d) the amount of expenditure which the Safeguarding Board partners agree the Safeguarding Board is likely to incur in order to achieve its objectives;

(**1**) Safeguarding Children Boards are established by the Safeguarding Board lead partner in relation to children for the area in accordance with section 134(4) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the Act").

(**2**) Safeguarding Adults Boards are established by the lead partner in relation to adults in accordance with section 134(5) of the Act.

(e) disgrifiad o sut y mae'r Bwrdd Diogelu yn bwriadu cydweithredu â phersonau neu gyrff eraill sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â'i amcanion;

(f) pryd a sut y bydd y Bwrdd Diogelu yn rhoi i blant ac oedolion y mae arfer ei swyddogaethau yn effeithio arnynt, neu y gall effeithio arnynt, gyfle i gymryd rhan yn ei waith.

**Adroddiadau blynyddol**

**6.**—(1) Rhaid i adroddiad blynyddol Bwrdd Diogelu gynnwys yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 3.

(2) Cyn belled ag y bo'n ymarferol mae'r adroddiad i ddilyn ffurf cynllun blynyddol diweddaraf y Bwrdd Diogelu.

**Cyhoeddi cynlluniau blynyddol ac adroddiadau blynyddol**

**7.** Rhaid i Fwrdd Diogelu—

(a) trefnu bod ei gynllun blynyddol cyfredol a'i adroddiad blynyddol cyfredol ar gael i'r cyhoedd;

(b) trefnu bod copi o unrhyw un neu rai o'i gynlluniau blynyddol a'i adroddiadau blynyddol yn y gorffennol ar gael ar gais;

(c) anfon ei gynllun blynyddol cyfredol a'i adroddiad blynyddol cyfredol at y Bwrdd Cenedlaethol.

(e) a description of how the Safeguarding Board proposes to collaborate with other persons or bodies engaged in activities relating to its objectives;

(f) when and how the Safeguarding Board will give children and adults who are, or may be, affected by the exercise of its functions, the opportunity to participate in its work.

**Annual reports**

**6.**—(1) A Safeguarding Board's annual report must include the information set out in Schedule 3.

(2) As far as practicable the report is to follow the form of the Safeguarding Board's most recent annual plan.

**Publication of annual plans and annual reports**

**7.** A Safeguarding Board must—

(a) make its current annual plan and annual report publicly available,

(b) make available on request a copy of any of its past annual plans and annual reports,

(c) send its current annual plan and annual report to the National Board.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Mehefin 2015

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

4 June 2015

## ATODLEN 1 Rheoliad 3

## Ardaloedd Byrddau Diogelu

| *Enw'r ardal Bwrdd Diogelu* | *Rhychwant yr ardal Bwrdd Diogelu* |
|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | prif ardaloedd llywodraeth leol —<br>Cyngor Dinas a Sir Caerdydd a<br>Chyngor Bro Morgannwg; |
| Cwm Taf | prif ardaloedd llywodraeth leol —<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a<br>Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; |
| Gwent | prif ardaloedd llywodraeth leol —<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,<br>Cyngor Sir Fynwy,<br>Cyngor Dinas Casnewydd, a<br>Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | prif ardaloedd llywodraeth leol —<br>Cyngor Sir Caerfyrddin,<br>Cyngor Sir Ceredigion,<br>Cyngor Sir Penfro a<br>Chyngor Sir Powys; |
| Gogledd Cymru | prif ardaloedd llywodraeth leol —<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,<br>Cyngor Sir Ddinbych,<br>Cyngor Sir y Fflint,<br>Cyngor Gwynedd,<br>Cyngor Sir Ynys Môn, a<br>Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; |
| Bae'r Gorllewin | prif ardaloedd llywodraeth leol —<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,<br>Cyngor Dinas a Sir Abertawe a<br>Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. |

## SCHEDULE 1 Regulation 3

## Safeguarding Board Areas

| *Name of Safeguarding Board area* | *Extent of Safeguarding Board Area* |
|---|---|
| Cardiff and Vale | principal local government areas of —<br>Cardiff City and County Council and<br>Vale of Glamorgan Council; |
| Cwm Taf | principal local government areas of —<br>Merthyr Tydfil County Borough Council and<br>Rhondda Cynon Taf County Borough Council; |
| Gwent | principal local government areas of —<br>Blaenau Gwent County Borough Council,<br>Caerphilly County Borough Council,<br>Monmouthshire County Council,<br>Newport City Council, and<br>Torfaen County Borough Council; |
| Mid and West Wales | principal local government areas of—<br>Carmarthenshire County Council,<br>Ceredigion County Council,<br>Pembrokeshire County Council and<br>Powys County Council; |
| North Wales | principal local government areas of—<br>Conwy County Borough Council,<br>Denbighshire County Council,<br>Flintshire County Council,<br>Gwynedd County Council,<br>Isle of Anglesey County Council, and<br>Wrexham County Borough Council; |
| Western Bay | principal local government areas of —<br>Bridgend County Borough Council,<br>Swansea City and County Council<br>Neath Port Talbot County Borough Council; |

## ATODLEN 2 Rheoliad 4

### Partneriaid Arweiniol

| *Ardal Bwrdd Diogelu* | *Y partner arweiniol mewn perthynas â phlant ar gyfer yr ardal* | *Y partner arweiniol mewn perthynas ag oedolion ar gyfer yr ardal* |
|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | Cyngor Bro Morgannwg | Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |
| Cwm Taf | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Cyngor Sir Penfro | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Gogledd Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Bae'r Gorllewin | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |

## SCHEDULE 2 Regulation 4

### Lead Partners

| *Safeguarding Board Area* | *Lead partner in relation to children for the area* | *Lead partner in relation to adults for the area* |
|---|---|---|
| Cardiff and Vale | Vale of Glamorgan Council | Cardiff City and County Council |
| Cwm Taf | Rhondda Cynon Taf County Borough Council | Rhondda Cynon Taf County Borough Council |
| Gwent | Caerphilly County Borough Council | Caerphilly County Borough Council |
| Mid and West Wales | Pembrokeshire County Council | Carmarthenshire County Council |
| North Wales | Conwy County Borough Council | Conwy County Borough Council |
| Western Bay | Neath Port Talbot County Borough Council | Neath Port Talbot County Borough Council |

## ATODLEN 3 Rheoliad 6(1)

### Cynnwys Adroddiad Blynyddol

Rhaid i adroddiad blynyddol Bwrdd Diogelu gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) rhestr o aelodau'r Bwrdd Diogelu;

(b) y camau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi eu cymryd i sicrhau canlyniadau penodol;

(c) i ba raddau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi rhoi ar waith ei gynllun blynyddol diweddaraf, ynghyd â manylion ynglŷn â pha mor bell y cafodd unrhyw welliannau arfaethedig penodol eu rhoi ar waith;

(d) sut y mae'r Bwrdd Diogelu wedi cydweithredu â phersonau neu gyrff eraill sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud ag amcanion y Bwrdd;

## SCHEDULE 3 Regulation 6(1)

### Content of Annual Report

A Safeguarding Board's annual report must include the following information.—

(a) a list of the members of the Safeguarding Board;

(b) action the Safeguarding Board has taken to achieve particular outcomes;

(c) the extent to which the Safeguarding Board has implemented its most recent annual plan, with particulars of how far any specific proposed improvements were implemented;

(d) how the Safeguarding Board has collaborated with other persons or bodies engaged in activities relating to the board's objectives;

(e) unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi eu gwneud i bersonau cymhwysol o dan adran 137(1) am wybodaeth benodedig, ac a gydymffurfiwyd â'r ceisiadau;

(f) cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn;

(g) i ba raddau y cyfrannodd pob aelod o'r Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd;

(h) asesiad o sut y mae'r Bwrdd Diogelu wedi defnyddio ei adnoddau wrth arfer ei swyddogaethau neu sicrhau ei ganlyniadau;

(i) unrhyw themâu gwaelodol o ran y ffordd y mae'r Bwrdd Diogelu wedi arfer ei swyddogaethau, fel y'u dangosir drwy ddadansoddiad o achosion y mae wedi ymdrin â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi eu rhoi ar arfer o ganlyniad;

(j) pryd a sut y defnyddiodd plant neu oedolion gyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu a sut y cyfrannodd hynny at y modd y sicrhaodd y Bwrdd ei ganlyniadau;

(k) nifer y gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion y gwnaed cais amdanynt yn yr ardal Bwrdd Diogelu, faint ohonynt a wnaed, a pha mor effeithiol yr oeddynt;

(l) unrhyw wybodaeth neu ddysg y mae'r Bwrdd Diogelu wedi ei lledaenu, neu hyfforddiant y mae wedi ei gymeradwyo neu wedi ei ddarparu;

(m) sut y mae'r Bwrdd Diogelu wedi rhoi ar waith unrhyw ganllawiau neu gyngor a roddwyd gan Weinidogion Cymru neu gan y Bwrdd Cenedlaethol;

(n) materion eraill sy'n berthnasol i waith y Bwrdd Diogelu.

(e) any requests the Safeguarding Board has made to qualifying persons under section 137(1) for specified information, and whether the requests were complied with;

(f) achievements the Safeguarding Board made during the year;

(g) the extent to which each member of the Safeguarding Board contributed to the Board's effectiveness;

(h) an assessment of how the Safeguarding Board used its resources in exercising its functions or achieving its outcomes;

(i) any underlying themes in the way the Safeguarding Board exercised its functions, as shown by an analysis of cases it has dealt with, and any changes it has put into practice as a result;

(j) when and how children or adults exercised an opportunity to participate in the Safeguarding Board's work and how this contributed to the Board achieving its outcomes;

(k) the number of adult protection and support orders which were applied for in the Safeguarding Board area, how many were made, and how effective they were;

(l) any information or learning the Safeguarding Board has disseminated, or training it has recommended or provided;

(m) how the Safeguarding Board has implemented any guidance or advice given by the Welsh Ministers or by the National Board;

(n) other matters relevant to the work of the Safeguarding Board.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1357 (Cy. 131)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1357 (W. 131)

# SOCIAL CARE, WALES

The Safeguarding Boards (General) (Wales) Regulations 2015

ISBN 978-0-348-11117-0

9 780348 111170

£6.00

W2332/06/15 ON

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1466 (Cy. 160)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel "Byrddau Diogelu"), a sefydlir o dan adran 134 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae rheoliadau 3 a 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau Byrddau Diogelu ac mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'u gweithdrefnau.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Diogelu roi i blant neu oedolion y mae arfer swyddogaethau'r Bwrdd yn effeithio arnynt, neu y gall effeithio arnynt, gyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1466 (W. 160)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations provide for the functions and procedures of Safeguarding Children Boards and Safeguarding Adults Boards (referred to in these Regulations as "Safeguarding Boards"), which are established under section 134 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the Act").

Regulations 3 and 4 make provision about the functions of Safeguarding Boards and regulation 5 makes provision about their procedures.

Regulation 6 requires Safeguarding Boards to give children or adults who are, or may be, affected by the exercise of the Board's functions, an opportunity to participate in the Board's work.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Social Services and Integration Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U

# 2015 Rhif 1466 (Cy. 160)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *1 Gorffennaf 2015*

*Yn dod i rym* *6 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 135(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

Yn unol ag adran 196(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adolygiad ymarfer" ac "adolygu ymarfer" ("*practice review*") yw naill ai adolygiad ymarfer cryno neu adolygiad ymarfer estynedig fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 4;

ystyr "Bwrdd" ("*Board*") yw Bwrdd Diogelu;

(**1**) 2014 dccc 4.

W E L S H   S T A T U T O R Y   I N S T R U M E N T S

# 2015 No. 1466 (W. 160)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015

*Made* *1 July 2015*

*Coming into force* *6 April 2016*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 135(4) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (**1**).

In accordance with section 196(6) of that Act, a draft of this instrument was laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2016.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

"action plan" ("*cynllun gweithredu*") means a written report produced by a Board at the same time as a practice review report, detailing action to be taken by the representative bodies as a result of

(**1**) 2014 anaw 4.

ystyr “Bwrdd Cenedlaethol” (“*National Board*”) yw’r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a sefydlwyd gan adran 132(1) o’r Ddeddf;

ystyr “Bwrdd Diogelu” (“*Safeguarding Board*”) yw Bwrdd Diogelu Plant(**1**) neu Fwrdd Diogelu Oedolion(**2**);

ystyr “cofrestr amddiffyn plant” (“*child protection register*”) yw rhestr a grëir ac a gynhelir gan awdurdod lleol ac sy’n cynnwys enwau plant sy’n destun cynllun amddiffyn plant(**3**) o ganlyniad i benderfyniad mewn cynhadledd amddiffyn plant fod y plentyn mewn perygl parhaus o niwed o bwys ar ffurf camdriniaeth gorfforol, camdriniaeth emosiynol, camdriniaeth rywiol neu esgeulustod;

ystyr “cynllun gweithredu” (“*action plan*”) yw adroddiad ysgrifenedig sy’n cael ei lunio gan Fwrdd yr un pryd ag adroddiad ar yr adolygiad ymarfer, gan fanylu ar y camau sydd i’w cymryd gan y cyrff cynrychioliadol o ganlyniad i ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad yr adolygiad ymarfer;

ystyr “digwyddiad dysgu amlasiantaethol” (“*multi-agency learning event*”) yw digwyddiad sy’n ffurfio rhan o’r broses adolygu ymarfer ac y mae Bwrdd yn gwahodd iddo ymarferwyr a rheolwyr o gyrff cynrychioliadol ac unrhyw gyrff neu bersonau eraill y bernir eu bod yn berthnasol gan Gadeirydd y Bwrdd ac sy’n ymwneud, neu sydd wedi ymwneud, â’r person sy’n destun yr adolygiad, at y diben o wella polisi ac ymarfer amddiffyn plant neu oedolion yn y dyfodol;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “fforymau proffesiynol amlasiantaethol” (“*multi-agency professional forums*”) yw’r fforymau, a drefnir ac a hwylusir gan Fwrdd ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr o gyrff cynrychioliadol, a chyrff neu bersonau eraill y

(**1**) Sefydlir Byrddau Diogelu Plant gan bartner arweiniol y Bwrdd Diogelu mewn perthynas â phlant ar gyfer yr ardal yn unol ag adran 134(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”). Pennir partneriaid arweiniol Byrddau Diogelu gan Weinidogion Cymru yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1357 (Cy. 131)) o blith rhestr o bartneriaid Byrddau Diogelu a nodir yn adran 134(2) o’r Ddeddf.

(**2**) Sefydlir Byrddau Diogelu Oedolion gan bartner arweiniol y Bwrdd Diogelu mewn perthynas ag oedolion ar gyfer yr ardal yn unol ag adran 134(5) o’r Ddeddf.

(**3**) Mae “cynhadledd amddiffyn plant” yn gyfarfod amlddisgyblaethol a drefnir gan awdurdod lleol yn dilyn ymholiadau o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989 (p. 41) (dyletswydd awdurdod lleol i ymchwilio) er mwyn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch amgylchiadau’r plentyn. Os ystyrir bod y plentyn mewn risg parhaus o niwed o bwys bydd “cynllun amddiffyn plant” yn cael ei wneud sy’n nodi manylion y risgiau penodol i’r plentyn a’r camau y bydd angen eu cymryd i gadw’r plentyn yn ddiogel.

the findings and recommendations of the practice review report;

“adults” (“*oedolion*”) means adults who are, or may be, affected by the exercise of a Board’s functions;

“Board” (“*Bwrdd*”) means a Safeguarding Board;

“child protection register” (“*cofrestr amddiffyn plant*”) means a list created and held by a local authority which contains the names of children who are the subject of a child protection plan(**1**) as a result of a decision of a child protection conference that the child is at continuing risk of significant harm in the form of physical abuse, emotional abuse, sexual abuse or neglect;

“children” (“*plant*”) means children who are, or may be, affected by the exercise of a Board’s functions;

“looked after child” (“*plentyn sy’n derbyn gofal*”) means a child looked after by:

(a) a local authority under section 74(1) of the Act,

(b) a local authority in England under section 22(1) of the Children Act 1989(**2**),

(c) a local authority in Scotland in accordance with Chapter 1 of Part 2 of the Children (Scotland) Act 1995(**3**),

(d) a Health and Social Care trust in accordance with article 25 of the Children (Northern Ireland) Order 1995(**4**);

“multi-agency learning event” (“*digwyddiad dysgu amlasiantaethol*”) means an event which forms part of the practice review process to which a Board invites practitioners and managers from representative bodies and any other bodies or persons deemed relevant by the Chair of the Board and who are or have been involved with the person who is the subject of the review, with the purpose of improving future child or adult protection policy and practice;

“multi-agency professional forums (“*fforymau proffesiynol amlasiantaethol*”) means the forums, arranged and facilitated by a Board for practitioners and managers from representative

(**1**) A “child protection conference” is a multi-disciplinary meeting organised by a local authority following enquiries under section 47 of the Children Act 1989 (c. 41) (local authority’s duty to investigate) in order to consider all relevant information about the child’s circumstances. If it is considered that the child is at continuing risk of significant harm a “child protection plan” will be made which sets out details of the specific risks to the child and the actions that will be needed to keep the child safe.

(**2**) 1989 c. 41.

(**3**) 1995 c. 36, see section 17(6) of that Act.

(**4**) S.I. 1995 / 755 (N.I. 2).

bernir eu bod yn berthnasol gan Gadeirydd y Bwrdd, at y diben o ddysgu oddi wrth achosion, archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau er mwyn gwella polisi ac ymarfer amddiffyn plant neu oedolion yn y dyfodol;

ystyr "oedolion" ("*adults*") yw oedolion y mae arfer swyddogaethau Bwrdd yn effeithio, neu y gall effeithio, arnynt;

ystyr "plant" ("*children*") yw plant y mae arfer swyddogaethau Bwrdd yn effeithio, neu y gall effeithio, arnynt;

ystyr "plentyn sy'n derbyn gofal" ("*looked after child*") yw plentyn sy'n derbyn gofal gan:

(a) awdurdod lleol o dan adran 74(1) o'r Ddeddf,

(b) awdurdod lleol yn Lloegr o dan adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989(**1**),

(c) awdurdod lleol yn yr Alban yn unol â Phennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995(**2**),

(d) Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unol ag erthygl 25 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995(**3**).

**Swyddogaethau Byrddau Diogelu**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn pennu swyddogaethau—

(a) Bwrdd Diogelu Plant mewn perthynas â'i amcanion o dan adran 135(1)(**4**) o'r Ddeddf, a

(b) Bwrdd Diogelu Oedolion mewn perthynas â'i amcanion o dan adran 135(2)(**5**) o'r Ddeddf.

(2) Y swyddogaethau yw—

(a) cydweithredu â Byrddau Diogelu eraill a'r Bwrdd Cenedlaethol gyda golwg ar—

(i) cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol ar gyfer Byrddau Diogelu,

(**1**) 1989 p. 41.
(**2**) 1995 p. 36, gweler adran 17(6) o'r Ddeddf honno.
(**3**) O.S. 1995 / 755 (N.I. 2).
(**4**) Amcanion Bwrdd Diogelu Plant o dan adran 135(1) yw: (a) amddiffyn plant o fewn ei ardal sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu ddioddef mathau eraill o niwed, a (b) atal plant o fewn ei ardal rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.
(**5**) Amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion o dan adran 135(2) yw: (a) amddiffyn oedolion o fewn ei ardal— (i) y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), a (ii) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a
(b) atal yr oedolion hynny o fewn ei ardal y soniwyd amdanynt ym mharagraff (a)(i) rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

bodies, and other bodies or persons deemed relevant by the Chair of the Board, with the purpose of learning from cases, audits, inspections and reviews in order to improve future child or adult protection policy and practice;

"National Board" ("*Bwrdd Cenedlaethol*") means the National Independent Safeguarding Board established by section 132(1) of the Act;

"practice review" ("*adolygiad ymarfer*") means either a concise practice review or an extended practice review as provided for in regulation 4;

"Safeguarding Board" ("*Bwrdd Diogelu*") means a Safeguarding Children Board(**1**) or a Safeguarding Adults Board(**2**).

**Functions of Safeguarding Boards**

**3.**—(1) Paragraph (2) specifies the functions of—

(a) a Safeguarding Children Board in relation to its objectives under section 135(1)(**3**) of the Act, and

(b) a Safeguarding Adults Board in relation to its objectives under section 135(2)(**4**) of the Act.

(2) The functions are—

(a) to cooperate with other Safeguarding Boards and the National Board with a view to—

(i) contributing to the development and review of national policies and procedures for Safeguarding Boards,

(**1**) Safeguarding Children Boards are established by the Safeguarding Board lead partner in relation to children for the area in accordance with section 134(4) of the Social Services and Well-being Wales Act 2014 ("the Act"). Safeguarding Board lead partners are specified by the Welsh Ministers in the Safeguarding Boards (General) (Wales) Regulations 2015 (S.I. 2015/1357 (W. 131)) from among the list of Safeguarding Board partners set out in section 134(2) of the Act.
(**2**) Safeguarding Adults Boards are established by the Safeguarding Board lead partner in relation to adults for the area in accordance with section 134(5) of the Act.
(**3**) The objectives of a Safeguarding Children Board under section 135(1) are:
(a) to protect children within its area who are experiencing, or are at risk of, abuse, neglect or other kinds of harm, and (b) to prevent children within its area from becoming at risk of abuse, neglect or other kinds of harm.
(**4**) The objectives of a Safeguarding Adults Board under section 135(2) of the Act are:
(a) to protect adults within its area who-
(i) have needs for care and support (whether or not a local authority is meeting any of those needs), and
(ii) are experiencing, or at risk of, abuse or neglect, and
(b) to prevent those adults within its area mentioned in paragraph (a)(i) from becoming at risk of abuse or neglect.

(ii) gweithredu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a argymhellir gan, a chanllawiau a chyngor a roddir gan, y Bwrdd Cenedlaethol;

(b) codi ymwybyddiaeth ledled ardal y Bwrdd Diogelu o amcanion y Bwrdd a sut y gallai'r rheini gael eu cyflawni;

(c) ymgymryd ag adolygiadau, archwiliadau ac ymchwiliadau perthnasol;

(d) adolygu effeithiolrwydd mesurau a gymerir gan y Bwrdd i gyflawni amcanion y Bwrdd;

(e) gwneud argymhellion yng ngoleuni'r adolygiadau hynny, monitro i ba raddau y mae'r argymhellion hynny wedi eu rhoi ar waith a chymryd camau priodol pan fo'n cael ei ddangos nad yw amcanion y Bwrdd yn cael eu cyflawni;

(f) lledaenu gwybodaeth am yr argymhellion hynny i Fyrddau Diogelu priodol eraill a'r Bwrdd Cenedlaethol;

(g) hwyluso ymchwil i faterion amddiffyn, ac atal cam-drin ac esgeuluso, plant neu oedolion sy'n wynebu risg o ddioddef niwed;

(h) adolygu anghenion hyfforddi personau sy'n gweithio i gyflawni amcanion y Bwrdd a hyrwyddo'r broses o ddarparu hyfforddiant addas ar eu cyfer;

(i) trefnu a hwyluso rhaglen flynyddol o fforymau proffesiynol amlasiantaethol;

(j) cydweithredu neu weithredu ar y cyd ag unrhyw gorff tebyg sydd wedi ei leoli mewn unrhyw awdurdodaeth pan fo'r Bwrdd o'r farn y byddai hynny'n ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion;

(k) sicrhau cyngor neu wybodaeth arbenigol sy'n berthnasol i gyrraedd amcanion y Bwrdd;

(l) ymgymryd ag adolygiadau ymarfer yn unol â rheoliad 4.

**Adolygiadau ymarfer**

**4.**—(1) Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Diben adolygiad ymarfer yw canfod unrhyw gamau y gall partneriaid y Bwrdd Diogelu neu gyrff eraill eu cymryd i wella ymarfer amddiffyn plant ac oedolion amlasiantaethol.

(3) Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer cryno yn unrhyw un neu rai o'r achosion canlynol, pan fo'n hysbys neu pan amheuir, o fewn ardal y Bwrdd, fod plentyn neu oedolyn wedi ei gam-drin neu ei esgeuluso a—

(a) bod y plentyn neu'r oedolyn—

(ii) implementing national policies and procedures recommended by, and guidance and advice given by, the National Board;

(b) to raise awareness throughout the Safeguarding Board area of the Board's objectives and how these might be achieved;

(c) to undertake relevant reviews, audits and investigations;

(d) to review the efficacy of measures taken by the Board to achieve the Board's objectives;

(e) to make recommendations in light of those reviews, to monitor the extent to which those recommendations are carried out and to take appropriate action where it is shown that the Board's objectives are not being fulfilled;

(f) to disseminate information about those recommendations to other appropriate Safeguarding Boards and the National Board;

(g) to facilitate research into protection of, and prevention of abuse and neglect of, children or adults at risk of harm;

(h) to review the training needs of and promote the provision of suitable training for persons working to achieve the Board's objectives;

(i) to arrange and facilitate an annual programme of multi-agency professional forums;

(j) to cooperate or act jointly with any similar body situated in any jurisdiction where the Board considers that this will assist it to fulfil its objectives;

(k) to obtain specialist advice or information relevant to the attainment of the Board's objectives;

(l) to undertake practice reviews in accordance with regulation 4.

**Practice reviews**

**4.**—(1) A Board must undertake a practice review in accordance with this regulation.

(2) The purpose of a practice review is to identify any steps that can be taken by Safeguarding Board partners or other bodies to achieve improvements in multi-agency child and adult protection practice.

(3) A Board must undertake a concise practice review in any of the following cases, where within the area of the Board, abuse or neglect of a child or adult is known or suspected and—

(a) the child or adult has—

(i) wedi marw, neu

(ii) wedi dioddef anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl, neu

(iii) wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad; a

(b) o ran plentyn, nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn—

(i) dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a)(i) neu (a)(ii), neu

(ii) pan fo is-baragraff (a)(iii) yn gymwys, y dyddiad y mae awdurdod lleol, person neu gorff y cyfeirir atynt yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004(**1**) neu gorff a grybwyllir yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002(**2**) yn canfod bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd ac i'w ddatblygiad; ac

(c) o ran oedolyn, nad yw'r oedolyn wedi bod, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau mewn cysylltiad ag ef i'w amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn unol ag adran 32(1)(b)(i) o'r Ddeddf yn dilyn ymholiadau gan awdurdod lleol o dan adran 126(2) o'r Ddeddf.

(4) Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer estynedig yn unrhyw un neu rai o'r achosion canlynol, pan fo'n hysbys neu pan amheuir, o fewn ardal y Bwrdd, fod plentyn neu oedolyn wedi ei gam-drin neu ei esgeuluso a—

(a) bod y plentyn neu'r oedolyn—

(i) wedi marw, neu

(ii) wedi dioddef anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl, neu

(iii) wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad; a

(b) o ran plentyn, bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu ei fod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn—

(i) dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a)(i) neu (a)(ii), neu

(ii) pan fo is-baragraff (a)(iii) yn gymwys, y dyddiad y mae awdurdod lleol, person

(**1**) 2004 p. 31.
(**2**) 2002 p. 32.

(i) died, or

(ii) sustained potentially life threatening injury, or

(iii) sustained serious and permanent impairment of health or development; and

(b) in respect of a child, the child was neither on the child protection register nor was a looked after child on any date during the 6 months preceding—

(i) the date the event referred to in sub-paragraph (a)(i) or (a)(ii), or

(ii) where sub-paragraph (a)(iii) applies, the date on which a local authority, person or body referred to in section 28 of the Children Act 2004)(**1**) or a body mentioned in section 175 of the Education Act 2002(**2**) identifies that a child has sustained serious and permanent impairment of health and development; and

(c) in respect of an adult, that adult has not been, on any date during the 6 months preceding the date of the event referred to in in sub-paragraph (a), a person in respect of whom a local authority has determined to take action to protect from abuse or neglect in accordance with section 32(1)(b)(i) of the Act following enquiries by a local authority under section 126(2) of the Act.

(4) A Board must undertake an extended practice review in any of the following cases where, within the area of the Board, abuse of a child or adult is known or suspected and—

(a) the child or adult has—

(i) died, or

(ii) sustained potentially life threatening injury, or

(iii) sustained serious and permanent impairment of health or development; and

(b) in respect of a child, the child was on the child protection register and/or the child was a looked after child on any date during the 6 months preceding—

(i) the date of the event referred to in sub-paragraph (a)(i) or (a)(ii), or

(ii) where sub-paragraph (a)(iii) applies, the date on which a local authority, person or

(**1**) 2004 c. 31.
(**2**) 2002 c. 32.

neu gorff y cyfeirir atynt yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004 neu gorff a grybwyllir yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn canfod bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad; ac

(c) o ran oedolyn, bod yr oedolyn wedi bod, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau mewn cysylltiad ag ef i'w amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn unol ag adran 32(1)(b)(i) o'r Ddeddf yn dilyn ymholiadau gan awdurdod lleol o dan adran 126(2) o'r Ddeddf.

(5) Wrth gynnal adolygiad ymarfer, rhaid i Fwrdd—

(a) gofyn i bob corff cynrychioliadol roi gwybodaeth yn ysgrifenedig i'r Bwrdd am ei ymwneud â'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad;

(b) sicrhau y ceir persbectif y plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad a bod persbectif y plentyn neu'r oedolyn hwnnw yn cyfrannu at y broses adolygu, i'r graddau y bo'n ymarferol a phriodol i amgylchiadau'r achos;

(c) sicrhau y ceir persbectifau aelodau o'r teulu neu gynrychiolydd penodedig y plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad a bod y persbectifau hyn yn cyfrannu at y broses adolygu, i'r graddau y bo'n ymarferol a phriodol i amgylchiadau'r achos;

(d) cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaethol ar ôl cael yr wybodaeth ysgrifenedig y cyfeirir ati yn is-baragraff (a);

(e) yn achos adolygiad ymarfer cryno, sicrhau bod y digwyddiad dysgu amlasiantaethol y cyfeirir ato yn is-baragraff (d) yn cael ei drefnu a'i hwyluso gan un adolygydd a benodir gan y Bwrdd;

(f) yn achos adolygiad ymarfer estynedig, sicrhau bod y digwyddiad dysgu amlasiantaethol y cyfeirir ato yn is-baragraff (d) yn cael ei drefnu a'i hwyluso gan ddau adolygydd a benodir gan y Bwrdd;

(g) sicrhau bod unrhyw adolygydd y cyfeirir ato yn is-baragraff (e) neu (f) yn annibynnol ar unrhyw ymwneud uniongyrchol â gwaith achos neu reoli achosion mewn cysylltiad â'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad;

(h) llunio adroddiad ar yr adolygiad ymarfer sy'n argymell pa gamau (os o gwbl) y mae'n

body referred to in section 28 of the Children Act 2004 or body mentioned in section 175 of the Education Act 2002 identifies that a child has sustained serious and permanent impairment of health and development; and

(c) in respect of an adult, that adult has been, on any date during the 6 months preceding the date of the event referred to in sub-paragraph (a), a person in respect of whom a local authority has determined to take action to protect from abuse or neglect in accordance with section 32(1)(b)(i) of the Act following enquiries by a local authority under section 126(2) of the Act.

(5) In undertaking a practice review a Board must—

(a) ask each representative body to provide the Board with information in writing about its involvement with the child or adult who is the subject of the review;

(b) ensure that the perspective of the child or adult who is the subject of the review is obtained and that the subject's perspective contributes to the review process, so far as practicable and appropriate to the circumstances of the case;

(c) ensure that the perspectives of members of the family or the appointed representative of the child or adult who is the subject of the review are obtained and these perspectives contribute to the review process, so far as practicable and appropriate to the circumstances of the case;

(d) hold a multi-agency learning event following receipt of the written information referred to in sub-paragraph (a);

(e) in the case of a concise practice review, ensure that the multi-agency learning event referred to sub-paragraph (d) is organised and facilitated by a single reviewer appointed by the Board;

(f) in the case of an extended practice review, ensure that the multi-agency learning event referred to in sub-paragraph (d) is organised and facilitated by two reviewers appointed by the Board;

(g) ensure that any reviewer referred to in sub-paragraph (e) or (f) is independent of direct involvement in case work or case management in respect of the child or adult who is the subject of the review;

(h) produce a practice review report which recommends what action (if any) is required

ofynnol eu cymryd ar ôl y digwyddiad dysgu amlasiantaethol;

(i) sicrhau nad yw'r adroddiad ar yr adolygiad ymarfer yn datgelu pwy yw'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad na theulu'r plentyn neu'r oedolyn na lle y maent;

(j) llunio cynllun gweithredu gan fanylu ar y camau sydd i'w cymryd gan y cyrff cynrychioliadol i weithredu argymhellion yr adroddiad ar yr adolygiad ymarfer;

(k) rhoi copi o'r adroddiad ar yr adolygiad ymarfer a'r cynllun gweithredu i Weinidogion Cymru ac i'r Bwrdd Cenedlaethol;

(l) trefnu bod yr adroddiad ar yr adolygiad ymarfer ar gael i'r cyhoedd;

(m) cynnal adolygiadau cynnydd cyfnodol ar roi'r cynllun gweithredu ar waith;

(n) rhoi i Weinidogion Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol adroddiad ysgrifenedig ar ôl unrhyw adolygiad cynnydd y cyfeirir ato yn is-baragraff (m), gan adrodd ar y cynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith a'r effaith ar bolisi ac ymarfer amddiffyn plant neu oedolion yng Nghymru;

(o) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru, drwy arfer ei swyddogaethau o dan y rheoliad hwn.

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "cynrychiolydd penodedig" ("*appointed representative*") yw person sydd â'r awdurdod i siarad neu weithredu ar ran plentyn neu oedolyn.

**Gweithdrefnau Byrddau Diogelu**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r rheoliad hwn, mae Bwrdd Diogelu i benderfynu ei weithdrefnau ei hun a threfnu bod copi o'r gweithdrefnau hynny ar gael i'r cyhoedd.

(2) Yng nghyfarfod cyntaf Bwrdd, rhaid i'r aelodau sy'n bresennol benodi un o'r aelodau i fod yn Gadeirydd ac un i fod yn Is-gadeirydd.

(3) Rhaid i'r Bwrdd gytuno ar reolau gweithredu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, gan gynnwys person i lywyddu mewn cyfarfodydd.

(4) Oni fydd rheolau gweithredu'r Bwrdd yn darparu fel arall, rhaid i'r Bwrdd weithredu'n unol â phleidlais mwyafrif syml o'r aelodau sy'n bresennol, a'r person sy'n llywyddu yn y cyfarfod yn cael ail bleidlais neu bleidlais fwrw os bydd y bleidlais yn gyfartal.

(5) Ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd rhaid i'r Bwrdd ystyried sut y bydd yn rhoi cyfle i blant neu oedolion gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

to be taken following the multi-agency learning event;

(i) ensure that the practice review report does not reveal the identity or whereabouts of the child or adult who is the subject of the review or that of the subject's family;

(j) produce an action plan detailing action to be taken by the representative bodies to implement the recommendations of the practice review report;

(k) provide a copy of the practice review report and action plan to the Welsh Ministers and to the National Board;

(l) make the practice review report publicly available;

(m) undertake periodic progress reviews on the implementation of the action plan;

(n) provide a written report to the Welsh Ministers and to the National Board following any progress review referred to in sub-paragraph (m), reporting on progress in implementing the action plan and the impact on child or adult protection policy and practice in Wales;

(o) have regard to any guidance given to it by the Welsh Ministers, in exercising its functions under this regulation.

(6) In this regulation "appointed representative" ("*cynrychiolydd penodedig*") means a person who has authority to speak or act on behalf of a child or an adult.

**Procedures of Safeguarding Boards**

**5.**—(1) Subject to the provisions of this regulation, a Safeguarding Board is to determine its own procedures and to make a copy of such procedures publicly available.

(2) At the first meeting of a Board, the members present must appoint one of the members as Chair and one as vice Chair.

(3) The Board must agree rules of procedure for meetings of the Board, to include provision for a person to preside at meetings.

(4) Unless the Board's rules of procedure provide otherwise, the Board must act in accordance with a simple majority vote of the members present, the person presiding at the meeting having a second or casting vote in the event of a tied vote.

(5) At each Board meeting the Board must give consideration as to how it will give children or adults the opportunity to participate in the work of the Board.

(6) Yn ei gyfarfod nesaf ar ôl i blentyn neu oedolyn gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd, rhaid i'r Bwrdd werthuso effeithiolrwydd y cymryd rhan hwnnw.

(7) Rhaid i'r Bwrdd gadw cofnodion o'i gyfarfodydd; mae'r cofnodion i gofnodi'r penderfyniadau a wnaed, y dystiolaeth y gwnaed penderfyniadau arni, unrhyw farn ac unrhyw farn anghydsyniol a fynegwyd ac unrhyw drafodaeth am blentyn neu oedolyn yn cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

(8) Daw penodiad Cadeirydd neu Is-gadeirydd i ben:

(a) os oedd y penodiad am gyfnod penodol a bod y cyfnod hwnnw yn dirwyn i ben;

(b) os yw'r person a benodwyd yn ymddiswyddo;

(c) os nad yw'r person a benodwyd bellach yn aelod o'r Bwrdd;

(d) os yw'r aelodau, drwy benderfyniad y mwyafrif, yn penderfynu hynny.

**Cyfle i gymryd rhan yng ngwaith Byrddau Diogelu**

**6.** O leiaf unwaith y flwyddyn rhaid i Fwrdd Diogelu, fel y bo'n berthnasol, roi cyfle i blant neu oedolion gymryd rhan mewn digwyddiad lle y bydd ganddynt gyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

(6) At its next meeting after a child or adult has participated in the Board's work, the Board must evaluate the effectiveness of that participation.

(7) The Board must keep minutes of its meetings; the minutes are to record the decisions taken, evidence on which decisions were taken, any views and dissenting views expressed and any discussion about participation by a child or an adult in the Board's work.

(8) The appointment of a Chair or a vice Chair will come to an end if:

(a) the appointment was for a fixed term and that term expires;

(b) the person appointed resigns;

(c) the person appointed is no longer a member of the Board;

(d) the members, by majority decision, so decide.

**Opportunity to participate in work of Safeguarding Boards**

**6.** At least once a year a Safeguarding Board must, as relevant, give children or adults the opportunity to participate in an event at which they will have an opportunity to participate in the Board's work.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
1 Gorffennaf 2015

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
1 July 2015

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1466 (Cy. 160)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1466 (W. 160)

# SOCIAL CARE, WALES

The Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015

£6.00

W2354/07/15 ON

ISBN 978-0-348-11135-4

9 780348 111354

ATODIAD 2 – Sefydliadau Lleol

Grwpiau Ffydd
Ysgolion y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol
Colegau Addysg Bellach gan gynnwys Colegau Chweched Dosbarth
Canolfannau plant
Cartrefi annibynnol i blant
Darparwyr maeth annibynnol
Meddygon Teulu
Sefydliadau gofal iechyd annibynnol
Darparwyr gofal cymdeithasol
Sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol gan gynnwys cyrff sy'n darparu gofal arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau difrifol ac anghenion iechyd cymhleth